# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 12 MEDI 2013 am 2.00 o'r gloch** | | **THURSDAY, 12 SEPTEMBER, 2013 at 2.00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs. Mairwen Hughes (01248) 752515** | **Committee Officer** |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Denise Harris Edwards
Islwyn Jones
Leslie Lord
Dilys Shaw
Michael Wilson

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes
Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

William Raymond Evans
John Roberts

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

2 **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 4)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2013.
**(PAPUR 'A')**

3 **CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 5 - 8)

**3A** Adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru i Gynghorwyr Sir. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau.
**(PAPUR 'B')**

**3B** Adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru i Gynghorwyr Sir. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau.
**(PAPUR 'C')**

4 **PENDERFYNIADAU PANEL ARFARNU** (Tudalennau 9 - 30)

Adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer er gwybodaeth.
**(PAPUR 'CH')**

5 **CYN-GOFRESTRU DIDDORDEBAU - DIWEDDARIADAU GAN GYNGHORWYR SIR** (Tudalennau 31 - 34)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer a phederfynu pa gamau gweithredu pellach, os o gwbl, all fod eu hangen.
**(PAPUR 'D')**

6 **CYNGHORAU TREF A CHYMUNED - CÔD YMDDYGIAD AC YMRWYMIADAU** (Tudalennau 35 - 38)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer a phenderfynu pa gamau gweithredu pellach, os o gwbl, all fod eu hangen.
**(PAPUR 'DD')**

7 **CYNGHORAU TREF A CHYMUNED - HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD** (Tudalennau 39 - 48)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ynglyn â'r nifer fydd yn derbyn hyfforddiant ar 23 Medi, 2013 a 26 Medi, 2013 a phenderfynu pa gamau gweithredu pellach, os o gwbl, all fod eu hangen.
**(PAPUR 'E')**

8 **RHEOLAU GWEITHDREFN CYNLLUNIO** (Tudalennau 49 - 78)

Derbyn adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro/Uwch Gyfreithiwr (Cynllunio) ar gyfer ei argymell i'r Pwyllgor Gwaith/Cyngor.
**(PAPUR 'F')**

9 **YMGYNGHORIAD Y PANEL ANNIBYNNOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL** (Tudalennau 79 - 98)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro a phenderfynu ar ymateb ymgynghori.
**(PAPUR 'FF')**

10 **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) (CYMRU) 2013** (Tudalennau 99 - 114)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro, er gwybodaeth.
**(PAPUR 'G')**

11 **CANIATÂD ARBENNIG GENERIG - INDEMNIADAU** (Tudalennau 115 - 122)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro a phenderfynu a ddylid rhoi caniatâd arbennig generig ai peidio i'r holl Gynghorwyr Sir.
**(PAPUR 'NG')**

12 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

I ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

13 **PRAWF BUDD Y CYHOEDD - EITEM 14** (Tudalennau 123 - 124)

14 **CANLYNIAD YMCHWILIAD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU MEWN PERTHYNAS Â CHWYN YN ERBYN CYNGHORYDD SIR** (Tudalennau 125 - 134)

Derbyn adroddiad, er gwybodaeth, gan y Swyddog Gofal Cwsmer.
**(PAPUR 'H')**

15 **PRAWF BUDD Y CYHOEDD - EITEM 16** (Tudalennau 135 - 136)

16 **CANLYNIAD YMCHWILIAD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU MEWN PERTHYNAS Â CHWYN YN ERBYN CYNGHORYDD CYMUNED** (Tudalennau 137 - 144)

Derbyn adroddiad, er gwybodaeth, gan y Swyddog Gofal Cwsmer.
**(PAPUR 'I')**

17 **CYFARFOD/YDD RHWNG CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU AC ARWEINYDDION GRWPIAU**

Derbyn adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a nodi unrhyw faterion Safonau ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Arweinyddion Grwpiau.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 12 Mehefin, 2013

**YN BRESENNOL :** **Aelodau Annibynnol**

Mr. Michael Wilson (Cadeirydd)
Mr. Islwyn Jones (Is-gadeirydd)

Ms. Denise Harris Edwards
Mr. Leslie Lord
Mrs. Dilys Shaw

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned**

Y Cynghorydd William Raymond Evans
Y Cynghorydd John Roberts

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**

Y Cynghorydd Trefor Ll. Hughes
Y Cynghorydd Dafydd R. Thomas

**WRTH LAW :** Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)/Swyddog Monitro, Swyddog Gofal Cwsmer (BJ), Swyddog Pwyllgor (MEH).

**HEFYD YN BRESENNOL :** Dim

**YMDDIHEURIADAU :** Dim

Roddodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Dafydd R. Thomas i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Safonau.

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb. .

**2 COFNODION Y CYFARFOD**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 13 Mawrth, 2013 yn amodol ar y canlynol :-

*Eitem 2 9.- dylai'r eitem ddarllen Cynhadledd Safonau Cymru Gyfan*

*Eitem 2 10. – Newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad/Protocolau – Newidiadau (mae 5.3.17 bellach yn 5.3.1 yn y Cyfansoddiad).*

**YN CODI**

Eitem 5 – Prosiect Rheoli Cwynion – Polisi Adolygu Archwilio

Nodwyd y dylid gwahodd y Rheolwr Archwilio i'r Pwyllgor Safonau ar 12 Rhagfyr 2013 er mwyn cytuno ar Gylch Gorchwyl yr Adolygiad Archwilio.

**Cyfarfod yr Arweinydd a'r Arweinyddion Grwpiau gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau.**

Cytunwyd i drefnu cyfarfod rhwng yr Arweinydd a'r Arweinyddion Grwpiau a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau.

3 **CWYNION AM YMDDYGIAD I'R OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

**3A** Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrics wedi ei ddiweddaru i Gynghorwyr Sir.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU : Diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Swyddog Gofal Cwsmer yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

**3B** Cyflwynwyd, er gwybodaeth - adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrics wedi ei ddiweddaru I Gynghorau Tref a Chymuned. Cafwyd adroddiad manwl gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)/Swyddog Monitro ar ymateb yr Ombwdsmon mewn perthynas â chwyn gan 5 Aelod o Gyngor Cymuned yn erbyn cyd-Gynghorydd.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)/Swyddog Monitro ei bod yn bryderus mai dim ond 13 o'r 40 o Gynghorau Tref/Cymuned yn Ynys Môn sydd wedi ymateb i'r cais gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, copïau o'r Datganiadau Derbyn Swydd yn dilyn yr etholiad ym Mai 2013 a chopïau o'u Côd cyfredol.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi'r adroddiad er gwybodaeth**
- **Cysylltu gyda'r Cynghorau Tref/Cymuned, a hynny ar fyrder, yn rhoi gwybod iddynt am bwysigrwydd derbyn Datganiadau Derbyn Swydd a'r Côd Ymddygiad.**

**GWEITHREDU: Bydd y Swyddog Gofal Cwsmer yn rhoi diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach yn y cyfarfod nesaf.**

4 **PENDERFYNIADAU'R PANEL DYFARNU**

Cyflwynwyd a nodwyd – Casgliadau Panel Dyfarnu Cymru o 1 Ebrill 2011 i 29 Mai 2013.

**PENDERFYNU nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Dim**

5 **CYNHADLEDD PWYLLGOR SAFONAU CENEDLAETHOL**

Cafwyd adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar yr uchod.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor Safonau am gopi o'r papurau a oedd ar gael yn y Gynhadledd er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r cyflwyniad llafar gan y Cadeirydd.**

**GWEITHREDU: Bod y papurau perthnasol o'r Gynhadledd yn cael eu hanfon ymlaen at Aelodau'r Pwyllgor Safonau.**



DRAFT

**6** **FFORWM PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU 20 MAI, 2013**

Cafwyd adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'r uchod.

**PENDERFYNWYD nodi'r cyflwyniad llafar gan y Cadeirydd.**

**GWEITHREDU : Dim**

**7** **ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU 2012/2013 A RHAGLEN WAITH AR GYFER 2013/14**

Cafwyd adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau am 2012/13 a Rhaglen Waith 2013/14 a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 23 Mai 2013.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Dim**

**8** **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD FEL Y PENDERFYNWYD GAN Y CYNGOR AR 23 MAI, 2013**

Cyflwynwyd a nodwyd – y newidiadau i'r Cyfansoddiad fel y penderfynwyd gan y Cyngor Sir ar 23 Mai 2013 ac yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor Safonau:-

**8A** Protocol Cyfryngau Cymdeithasol

**8B** Rheolau Gweithdrefn Cynllunio

**8C** Protocol Hunanreoleiddo

**8CH** Polisi GDG Newydd - Nodwyd y bydd y polisi newydd yn cael ei gynnwys gyda'r dogefnnau Adnoddau Dynol ar wefan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD nodi'r newidiadau uchod i'r Cyfansoddiad.**

**GWEITHREDU: Bod y Polisi GDG newydd yn cael ei gynnwys gyda'r dogfennau Adnoddau Dynol.**

**9** **GWEDDARLLEDU/PRESENOLDEB O BELL A CHEFNOGAETH TGCH I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)/Swyddog Monitro fod grant o £40,000 wedi ei ddyrannu i bob Awdurdod Lleol i gynorthwyo gyda darlledu a mynychu o bell, ynghyd â £500 ychwanegol i bob Cyngor Cymuned i gefnogi sefydlu gwefannau iddynt eu hunain. Mae angen gwario'r grant yn ystod 2013/14.

Ar hyn o bryd mae recordiadau sain o drafodaethau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn cael eu rhoi ar wefan y Cyngor ond nid yw'r trefniant hwn wedi ei ymestyn i Bwyllgorau eraill. Mewn perthynas â gweddarlledu cyfarfodydd, a'r dyraniad grant, adroddir ar hyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fel rhan o'i raglen waith gyfredol. Mae yna wahanol faterion, rhai technegol ac annhechnegol, y bydd angen rhoi sylw iddynt er mwyn manteisio'n llawn ar weddarlledu cyfarfodydd a gofynion i'r dyfodol mewn perthynas â mynychu o bell.

Mae'r Mesur Democratiaeth Leol yn cynnwys gofyniad bod raid i bob Cyngor Cymuned ddatblygu gwefannau. Disgwylir i'r Cynghorau gweithio gydag Unllais Cymru i drafod sut y bydd yr elfen grant ar gyfer gwefannau Cynghorau Cymunedol yn cael ei chydlynu a disgwylir am ragor o ganllawiau gan Unllais Cymru.

DRAFFT

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Bod adroddiad diweddaru gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau ar 12 Rhagfyr 2013.**

## 10 HYFFORDDIANT I AELODAU AR Y FFRAMWAITH MOESEGOL

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)/Swyddog Monitro fod 27 o'r 30 o Aelodau Etholedig wedi mynychu'r hyfforddiant gorfodol ar y fframwaith moesegol. Roedd y rheini na fynychodd yr hyfforddiant oll yn aelodau a oedd wedi eu hailethol.

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)/Swyddog Monitro ysgrifennu at y 3 Aelod nad oeddent wedi mynychu'r hyfforddiant ar y fframwaith moesegol a'u hatgoffa o'r gofynion hyfforddi yn y Cyfansoddiad.**

**GWEITHREDU: Fel y penderfynwyd.**

## 11 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

" Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i Diffinnir ym Mharagraff 12, Atodlen 12A y Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

## 12 COFNODION Y CYFARFOD A'R PENDERFYNIAD A WNAED AR 7 MAWRTH, 2013

Cadarnhawyd cofnodion y Gwrandawiad a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2013 a'r penderfyniad.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)/Swyddog Monitro y bydd penderfyniad y Gwrandawiad yn ymddangos yn y wasg leol ac ar wefan y Cyngor pan fo'r cyfnod apêl wedi dod i ben.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

DRAFT

**MR. MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

# PAPUR / ENCLOSURE B

**CWYNION I AC YMHOLIADAU GAN YR OMBWDSMON – "O" -YNGLŶN Â CHYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN – MAI 2008 YMLAEN**

**COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – MAY 2008 ONWARDS**

**DIWEDDARIAD / UPDATED– 29 Awst 2013 /29 August 2013**
**(diweddariad diwethaf / last update 22.2.13)**

**Pwyllgor Safonau – 12.09.13 – Standards Committee**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Disgrifiad Byr o'r Gŵyn**<br><br>**Short Description of Complaint** | **Adrannau'r Côd**<br><br>**Sections of the Code** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** | **Datblygiad Pellach**<br>**Further Development** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r cyhoedd/ Member of the public | (i) 016752<br>(ii) 201204406 | 13.02.13 | Peidio dangos parch ar eraill ac ymddwyn mewn ffordd sy'n dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod / Failing to show respect for other and conduct likely to bring office or authority into disrepute | Rhan / section 4(b),6(1a) | 21.02.13 – yr "O" am ymchwilio/ the "O" to investigate | 2.8.13 – llythyr gan yr "O" – dim angen gweithredu yng nghyswllt y materion yr ymchwiliwyd iddynt.<br><br>2.8.13 – letter from the "O" – no action needs to be taken in respect of the matters investigated. |

# PAPUR / ENCLOSURE C

**CWYNION I AC YMHOLIADAU GAN YR OMBWDSMON – "O" -YNGLŶN Â CHYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF**

**COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS**
**Diweddariad - 29.08.13 - Update**

**Pwyllgor Safonau- 12 MEDI 2013 / Standards Committee 12 Sepetmber 2013**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Disgrifiad Byr o'r Gŵyn**<br><br>**Short Description of Complaint** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** | **Datblygiad Pellach**<br>**Further Development** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymunedol / Community Councillor<br><br>Llanfaelog | Aelod o'r Cyngor Cymunedol x 5 / Member of the Community Council x 5 | 016435 – BJ 201201908<br>016436 – BJ 201201909<br>014647 – BJ 201201910<br>016438 – BJ 201201911<br>016439 – BJ 201201913 | 18.09.12 | Defnyddio iaith ddifrïol ac ymddygiad ymosodol mewn cyfarfod o'r cyngor<br><br>Abusive language and aggressive behaviour in a council meeting | **08.03.13 –** Swyddogion o Swyddfa'r "O" yma yn cyfweld y Cynghorydd.<br><br>**08.03.13 -** Officers from the "O"'s Officer here to interview the Councillor | **01.07.13** – llythyr gan yr "O" – dim angen gweithredu o ran y materion dan ymchwiliad<br><br>**01.07.13 –** letter from the "O" – no action needs to be taken in respect of the matters investigated. |

# PAPUR / ENCLOSURE
# CH

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 12 Medi 2013 |
| **Teitl yr Adroddiad** | Canfyddiadau Panel Dyfarnu Cymru 1 Ebrill 2011 i 29 Awst 2013 |
| **Adroddiad Gan** | Swyddog Gofal Cwsmer |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | Rhoi gwybodaeth am rai o'r materion y deliodd Panel Dyfarnu Cymru â hwy |

## 1.0 Cyflwyniad a Chefndir

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac y mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

- Ffurfio tribiwnlysoedd achos neu achosion dros dro i ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwilio i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio gyda chôd ymddygiad ei awdurdod; ac
- Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdod lleol eu bod wedi torri'r côd ymddygiad.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r penderfyniadau wnaed gan y Panel Dyfarnu rhwng 1 Ebrill 2011 a 29 Awst 2013 ac fe'i bwriadwyd fel crynodeb ffeithiol o'r materion sy'n dod gerbron y Panel Dyfarnu. Ni fydd yn cymryd lle'r adroddiad sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor pan fydd cwyn yn ymwneud â Chyngor Sir Ynys Môn wedi bod gerbron y Panel Dyfarnu.

## 2.0 Penderfyniadau wnaed rhwng 1.4.11 a dyddiad yr adroddiad hwn

18.4.11 - Y Cyng. A James, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
18.5.11 - Y Cyng. M. Calver, Cyngor Cymuned Maenorbŷr
06.06.11 - Y Cyng. A. Brown, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil
29.06.11 – Y Cyng. J. Adams-Lewis, Cyngor Sir Ceredigion
12.07.11 – Y Cyng. P Rogers, Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn
27.10.11 – Cyn Cyng. F. Wildgust – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
27.10.11 - Y Cyng. P Seabourne – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
27.10.11 - Y Cyng. D Thomas, Dinas a Sir Abertawe
14.11.11 – Cyn Gyng. L. Bailey – Cyngor a Sir Abertawe
14.11.11 – Y Cyng. I. Tuck, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil
03.01.12 - Y Cyng. K. Armstong-Braun, Cyngor Tref Saltney
18.6.12 - Y Cyng. M. Eckersley, Cyngor Sir Ddinbych
19.6.12 – Y Cyng. B. Durkin, Cyngor Sir Ynys Môn

22.8.12 – Y Cyng. A. Brown, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil
5.11.12 – Y Cyng. A. Moss, Cyngor Cymuned Llantrisant
16.11.12 – Y Cyng H. Thomas, Cyngor Sir Ynys Môn
05.04.13 – Y Cyn Gynghorydd Whitby, Cyngor Cymuned Coedpoeth
15.05.13 – Y Cyn Gynghorydd John Cooper, Cyngor Cymuned y Mwmbwls – **NEWYDD**
12.07.13 – Y Cyn Gynghorydd David Evans, Cyngor Sir Ceredigion - **NEWYDD**
18.07.13 - Y Cyn P. Heesom, Cyngor Sir Y Fflint County Council - **NEWYDD**

Gweler y Tabl isod sy'n rhoi crynodeb o'r materion y deliwyd â hwy a'r canlyniadau.

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
| --- | --- | --- | --- |
| Y Cynghorydd A. James – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (27.4.11) APW/007/2010-011/CT | Methiant i ddatgan diddordeb a defnyddio'i swydd yn amhriodol pan yn gwneud rhoddion i fudiadau lleol o dan Lwfansau Cynlluniau Bychan y Cyngor | Ar sail y canfyddiadau ffeithiol, casglodd y Tribiwnlys Achos, trwy benderfyniad unfrydol, y bu methiant i gydymffurfio gyda Chôd Ymddygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | Torri'r Côd – Casglodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol fod cyfnod atal yn briodol –<br><br>Atal am fis |
| Y Cynghorydd M. Calver – Cyngor Cymuned Maenorbŷr (25.5.11)<br>**Apêl**<br>APW/009/2010-011/A | Apêl yn erbyn Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Benfro iddo dorri Côd Ymddygiad Cyngor Cymuned Maenorbŷr ac y dylai gael ei geryddu ac y dylai ddilyn hyfforddiant ar y Côd.<br><br>Honiadau gwreiddiol:-<br>Cyhoeddi cofnodion drafft heb ganiatâd.<br>Sylwadau ar wefan yn cyfateb i fwlio a hambygio ac/neu fethu dangos parch ac ystyriaeth.<br>Datgelu gwybodaeth gyfrinachol (yn cynnwys | Cadarnhaodd y Panel Dyfarnu benderfyniad y Pwyllgor Safonau - ei fod wedi torri Côd Ymddygiad Cyngor Cymuned Manobier | Ystyriodd y Tribiwnlys Apêl yr holl ffeithiau, cyflwyniadau a sylwadau a wnaed a'i ganllawiau ei hun ynghylch cosbau mewn tribiwnlysoedd apêl. Nid oedd y Tribiwnlys Apêl yn gweld unrhyw reswm da yma i ymyrryd gyda'r gosb a bennwyd gan y Pwyllgor Safonau<br><br>NODYN –<br>Dymchwelwyd penderfyniadau'r Tribiwnlys Apêl a'r Pwyllgor Safonau yn dilyn Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys - Cyf [2012] EWHC 1172 |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
| --- | --- | --- | --- |
| | ariannol) nad oedd eto'n gyhoeddus.<br>Gwneud sylwadau oedd yn dwyn anfri ar ei swydd ac/neu'r Cyngor. | | |
| Y Cynghorydd A. Brown – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil<br><br>APW/006/2010-011/CT<br>A<br>APW/010/2010-011/CT | Defnyddio'r rhyngrwyd i gyhoeddi sylwadau amhriodol.<br>Camddefnyddio adnoddau'r Cyngor.<br>Torri polisïau rhyngrwyd y Cyngor.<br>Methu dangos parch ac ystyriaeth i eraill.<br>Datgelu llythyr cyfrinachol.<br>Anfon e-byst amhriodol.<br>Cyhoeddi datganiad oedd yn fwriadol gamarweiniol yn y wasg a thrwy hynny ddwyn anfri ar y swydd cynghorydd a'i awdurdod | Nid oedd y Tribiwnlys Achos yn ystyried, yn yr holl amgylchiadau, ac yn unol â'i ganllawiau cosb, bod yna unrhyw ffactorau a allai'n rhesymol gyfiawnhau anghymwyso. Ystyriodd y Tribiwnlys Achos a fyddai atal yn gosb briodol, gan gyfeirio at ei ganllawiau ei hun sy'n nodi y gall atal aelod fod yn briodol lle nad yw'r amgylchiadau yn ddigon difrifol i gyfiawnhau anghymwyso, ond yn ddigon difrifol i olygu bod angen rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a phwysleisio i'r ymatebydd ddifrifoldeb y mater a'r angen i sicrhau na fyddai'r fath beth yn digwydd eto | Torri'r Côd:<br>Penderfynodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylid atal y Cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o'r Cyngor am gyfnod o naw mis |
| Y Cynghorydd J. Adams-Lewis – Cyngor Sir Ceredigion<br>APW/007/2009-010/CT | Methiant i weithredu'n wrthrychol ac er budd y cyhoedd wrth ystyried cais cynllunio mewn ymweliad safle gyda Phwyllgor | Casglodd y Tribiwnlys Achos for y Cynghorydd wedi gweithredu mewn modd y gallai aelod o'r cyhoedd ystyried, yn rhesymol. fod gwrthdaro diddordeb rhwng ei rôl fel | Torri'r Côd:<br>Atal yr Aelod rhag bod yn aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ac Is-gadeirydd y Cyngor am gyfnod o 3 mis |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | Rheoli Datblygu'r Cyngor ar 28/8 a 10/9 2008 a methu datgan diddordeb personol a mynd allan o'r cyfarfodydd hynny. | Cynghorydd lleol a'i rôl yn gwneud penderfyniad ar ran yr Awdurdod | |
| Y Cynghorydd P. S. Rogers - Cyngor Sir Ynys Môn - Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru<br>APW/011/2010-011/CT | **Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru** – Ceisio cynnal sgwrs yng nghyswllt cwyn yn erbyn un o'i etholwyr.<br>Anfon e-bost yn beirniadu'r ffordd yr oedd yr Heddlu'n delio gydag ymchwiliad.<br>Arddangos ymddygiad gormesol a bygythiol tuag at 3 swyddog o'r Heddlu yn ystod ei ymweliad â Gorsaf Heddlu Caergybi.<br>Ceisio dylanwadu ar gyfeiriad ymchwiliad yr Heddlu.<br><br>**Cyngor Sir Ynys Môn** - Methu â dangos parch ac ystyriaeth i eraill a bwlio a hambygio, datgelu | Dim yn fodlon fod Côd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn berthnasol yn yr achos hwn – ni roddodd y Cynghorydd Rogers yr argraff erioed ei fod yn gweithredu fel cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Methiant i ddangos parch ac ystyriaeth – Torri'r Côd<br>Bwlio ac Aflonyddu – Heb dorri'r Côd | Wedi torri'r Côd a'r tribiwnlys yn ystyried mai cerydd oedd y gosb briodol |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | gwybodaeth gyfrinachol am iechyd cyd Gynghorydd.<br>Gellid yn rhesymol gyfrif ei ymddygiad fel un oedd yn dwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod. | Heb dorri'r Côd<br><br>Wedi torri'r Côd | |
| Cyn Gynghorydd F. Wildgust – Cyngor Bwrdeistref Sir Torfaen<br>APW/001/2011-012/CT | Gwneud honiadau di-sail mewn datganiadau i'r wasg dyddiedig 13, 15 a 22 Ionawr 2011 am y Cyngor a'i uwch swyddogion ac ailadrodd yr honiadau mewn e-bost i Brif Weithredwr y Cyngor a dangos amarch llwyr at y Swyddog Monitro a'r Prif Weithredwr yn bersonol ac at eu huwch swyddogion | Ail Achos Tribiwnlys - cynhaliwyd y cyntaf ar 24.2.11<br>Rhoddodd y Tribiwnlys Achos sylw difrifol iawn i anghymwyso'r aelod a byddai wedi gwneud hynny oni bai bod y Cynghorydd Wildgust wedi ymddiheuro i'r swyddogion dan sylw, wedi cydnabod ei fod bellach yn deall pwysigrwydd y Côd Ymddygiad a glynu wrtho a'i fod wedi addo [i'r Tribiwnlys Achos] i wneud hynny ac i gymedroli ei ymddygiad a gweithredu mewn ffordd sydd ddim yn elyniaethus yn y dyfodol. Fodd bynnag, o gofio'r addewid a wnaed ganddo ac er mwyn rhoi cyfle i'r Cynghorydd Wildgust gymedroli ei ymddygiad, penderfynodd y tribiwnlys Achos | Roedd penderfyniad y Tribiwnlys Achos Cyntaf yn glir y byddent wedi ei anghymwyso oni bai ei fod wedi addo cydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad, i gymedroli ei ymddygiad, i ymddiheuro a pheidio â gweithredu mewn modd gelyniaethus yn y dyfodol<br><br>Anwybyddodd Mr Wildgust yr addewidion hynny ar y diwrnod cyntaf ar ôl y gwrandawiad Tribiwnlys Achos Cyntaf<br><br>Mae'r Tribiwnlys Achos yn ystyried bod ymddygiad Mr Wildgust yn haeddu ei anghymwyso ac y dylid **ei anghymwyso o fod yn gynghorydd am gyfnod o 3** |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | | atal y Cynghorydd Wildgust am 12 mis, y gosb yn dod i rym ar unwaith | **blynedd gyda'r gosb honno'n dod i rym ar unwaith** |
| Y Cynghorydd P. Seabourne – Cyngor Bwrdeistref Sir Torfaen<br>**Apêl**<br>APW/012/2010-011/A | Apêl yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau.<br><br>Wedi methu a chadw cofnodiadau cywir o'i benodiadau a'i ddiddordebau yn y gofrestr statudol.<br>Methiant i ddatgan diddordeb personol ac un sy'n rhagfarnu ar 27 Tachwedd 2008 wrth gwblhau Cais Cynllun Bychan yn gofyn am i daliad o £200 gael ei wneud i Glymblaid Torfaen Access pan oedd yn Gadeirydd ar y Glymblaid.<br>Methiant i ddatgan diddordeb personol ar 22 Medi 2009 wrth gwblhau cais cynllun bychan yn | Yn dilyn y penderfyniad gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau, cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod y Cynghorydd Seabourne wedi camarwain y Pwyllgor pan ddywedodd fod y wybodaeth am ei ddiddordebau ar y wefan. Mewn gwirionedd, nid dyna'r achos ar adeg gwrandawiad y pwyllgor oherwydd na chafodd y wybodaeth ei rhoi ar y wefan tan 14 Hydref 2009.<br><br>Cyfyngwyd yr Apêl i'r gosb a bennwyd ac nid y casgliadau. | Roedd y Tribiwnlys yn fodlon, ar sail y wybodaeth a roddwyd gan y Cynghorydd Seabourne, nad oedd wedi camarwain y pwyllgor ac nad oedd, un ai mewn gohebiaeth neu fel arall, wedi awgrymu bod y wybodaeth ynghylch ei ddiddordebau ar ei wefan cyn 14 Hydref 2009. Ar y sail honno, roedd y Tribiwnlys yn fodlon nad oedd unrhyw ffactor gwaethygol ychwanegol i'w gymryd i ystyriaeth.<br><br>Derbyniodd y Tribiwnlys bod y Cynghorydd Seaboune wedi diweddaru ei Ddatganiad o Ddiddordebau ar 14 Hydref 2009 a bod hynny wedi altro'r cydbwysedd o ffactorau lliniaru a gwaethygol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn newid mor sylweddol fel ei |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | gofyn am i daliad o £500 gael ei wneud i i Ysgol Gyfun Fairwater pan oedd yn un o'r llywodraethwyr a benodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Ymhellach, mewn perthynas â'r rhodd i Ysgol Gyfun Fairwater, methiant i ddatgan diddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu oherwydd bod ei wraig yn Gadeirydd y llywodraethwyr yn yr Ysgol ar adeg gwneud y rhodd. | | fod yn lleihau difrifoldeb yr achosion o dorri'r Côd ac, o'r herwydd, yr angen i geryddu. Cadarnhawyd y penderfyniad y Pwyllgor Moeseg a Safonau - roedd y Tribiwnlys yn fodlon, yn yr amgylchiadau, fod cerydd yn gosb briodol. |
| Y Cynghorydd D. Thomas – Cyngor Sir a Thref Abertawe<br>**Apêl**<br>APW/002/2007-08/A | Apêl yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau.<br><br>Methu â dod i benderfyniad ar sail rhinweddau'r amgylchiadau pan mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio ar 20 Gorffennaf 2006 a thrwy hynny, fethu | Roedd y Tribiwnlys Apêl yn unfrydol y bu methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad.<br><br>Ystyriwyd bod "having regard" yn golygu derbyn cyngor o'r fath yn absenoldeb rhesymau da i beidio â gwneud hynny - ni roddwyd unrhyw fath resymau | Cynnal penderfyniad y Pwyllgor Safonnau.<br><br>Atal am 1 mis a cherydd |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | rhoi sylw i gyngor Swyddog Monitro'r awdurdod. | | |
| Cyn Gynghorydd L. Bailey - Cyngor Dinas a Sir Abertawe<br><br>APW/001/2007-08/CT | Gwneud defnydd amhriodol o un o gyfrifiaduron y Cyngor i bwrpasau preifat trwy lawr lwytho delweddau amhriodol ac anfon llythyrau i bapur newydd lleol, gan ddweud mai aelodau'r cyhoedd oedd wedi'u hanfon.<br>Wrth wneud hynny, yn dod ag anfri ar swydd Aelod. Methiant i ddangos parch a rhoi ystyriaeth i eraill trwy fethu ystyried effaith ei weithrediadau ar weithwyr y Cyngor oedd wedi gweld y delweddau ar y cyfrifiadur wedi hynny. Patrwm o gamymddwyn cyson yn dangos methiant i hyrwyddo egwyddorion y Côd trwy arweinyddiaeth ac esiampl. | Roedd y Tribiwnlys yn ystyried bod yr achosion o dorri'r Côd mor ddifrifol fod anghymwyso yn briodol ac y gellid cyfiawnhau cyfnod o dros 3 blynedd | Torri'r Côd<br>Anghymwyso am 2 flynedd a 6 mis – gostwng hyd yr anghymhwyso oherwydd ffactorau lliniarol |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Y Cynghorydd I Tuck - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil<br><br>APW/004/2007-08/CT | Ymddygiad mewn ymweliad safle i ganfod ffeithiau ar ran Pwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio'r Cyngor ar 11 Hydref 2006 – gellid yn rhesymol ei gyfrif fel ymddygiad oedd yn dwyn anfri ar swydd Aelod ac ar y Cyngor. Defnyddio ei safle fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio yn amhriodol i sicrhau mantais iddo'i hun a'i dad yn y cyfarfod ar 11 Hydref 2006. Heb ddatgan diddordeb personol yn y cyfarfod a heb fynd allan o'r cyfarfod. | Casgliad bod methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad ym mhob un o'r 3 achos.<br><br>Roedd y Cynghorydd wedi ymddiswyddo ac nid oedd yn dymuno sefyll am swydd gyhoeddus eto | Torri'r Côd<br>Anghymwyso am 12 mis |
| Y Cynghorydd K Armstong-Braun, Cyngor Tref Saltney<br><br>APW/008/2010-11/CT | Torri paragraffau 4(b), 5 (a), 6(1)(a) a 8(a) y Cod Ymddygiad<br><br>Ei fod wedi ymddwyn yn amhriodol yn ystod | Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y Cynghorydd Armstrong-Braun, pan | Torri'r Côd<br>Atal am 12 mis |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | cyfarfodydd y Cyngor gan achosi gofid i berson arall; | oedd yn Faer, wedi gwneud sylwadau amhriodol ynghylch Saltney ac wedi gwrthod tynnu ei sylwadau'n ôl wedyn, gohiriodd y cyfarfod o'r cyngor ar 9 Gorffennaf 2008 yn groes i benderfyniad y Cyngor Tref; penderfynodd ddwyn y cyfarfod ar 10 Medi 2008 i ben yn gynamserol, roedd o'n ddifrïol ac yn anghwrtais gyda Chlerc y Cyngor Tref a'r Dirprwy Faer yn y cyfarfod rhaglen a gynhaliwyd ar 9 Medi 2008 | |
| | Wedi methu datgelu ei lwfans Maerol | Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y Cynghorydd Armstrong-Braun wedi anwybyddu cyngor Clerc y Cyngor Tref mewn perthynas â'i gyfrifoldeb i ddatgelu ei lwfans Maerol yn unol â Rheol Sefydlog 40 rheolau gweithdrefn y Cyngor fel y cânt eu nodi yn y llythyr dyddiedig 20 Tachwedd 2009 a anfonwyd ato gan Glerc y Cyngor Tref. | |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | Wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol ac o ran Cyngor Tref Saltney a Chyngor Sir Y Fflint, roedd ei ymddygiad wedi dwyn anfri ar ei swydd ac ar yr awdurdodau. | Canfu'r Tribiwnlys Achos fod y Cynghorydd Armstrong-Braun wedi ysgrifennu llythyr at Bennaeth yr Ysgol Uwchradd leol yn groes i benderfyniad grŵp tasg y Cyngor Tref bod eu cyfarfodydd ar 14 a 28 Mawrth yn rhai cyfrinachol ac nad oedd unrhyw faterion a drafodwyd yn y cyfarfodydd hynny i fod i gael eu rhannu gyda thrydydd partïon. | |
| Y cyn-Gynghorydd M. Eckersley<br>Cyngor Sir Ddinbych<br><br>APW/004/2011-012/CT | Torri paragraffau 4(a), 4(b) a 6(1)(a) y Côd Ymddygiad.<br><br>Bod y cyn-Gynghorydd Eckersley, mewn cyfarfod o'r Grŵp Cydraddoldebau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2010, yn ystod trafodaeth ynghylch is-ddeddf hynafol sy'n caniatáu crogi unigolion am siarad Cymraeg yng Nghaer ar ôl 9.00pm, wedi dweud *"maybe we should take a load of Welsh Muslims to Chester to test this out"* ("y methiant | Dyfarnodd y Tribiwnlys achos yn unfrydol mewn perthynas â'r ddau honiad fod y cyn-Gynghorydd Eckersley wedi methu â chydymffurfio gyda Chôd Ymddygiad Cyngor Sir Ddinbych fel a ganlyn:<br><br>Mae paragraff 4(b) y Côd Ymddygiad yn dweud "bod rhaid dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill". | Mae'r Tribiwnlys Achos yn ystyried y dylid rhoi cerydd i'r cyn- Gynghorydd Eckersley am ei ymddygiad. |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | honedig cyntaf");<br><br>a<br><br>Bod y cyn-Gynghorydd Eckersley, mewn cyfarfod o'r Grŵp Cydraddoldebau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2010 wedi dweud "Adolf Hitler had the right idea, and that they should be got rid of out of the country" gan gyfeirio at sipsiwn a theithwyr ("yr ail fethiant honedig"); | Dyfarnodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol hefyd na thorrodd y cyn-Gynghorydd Eckersley baragraffau 4(a) a 6(1)(b) Côd Ymddygiad Cyngor Sir Ddinbych. | |
| Y Cynghorydd B. Durkin<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>APW/002/2011-012/CT | Ymosod yn eiriol ac yn sarhaus dro ar ôl tro ar y Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Monitro ar y pryd (Miss Ball) a Mr David Bowles, y cyn Reolwr-Gyfarwyddwr Dros Dro; a<br><br>Trwy wneud ceisiadau niferus am wybodaeth gan roi pwysau gormodol a baich sylweddol ar Swyddog | Dyfarnodd y Tribiwnlys fod y Cynghorydd Durkin, oherwydd ei weithredoedd tuag at Miss Ball, yn arbennig y iaith yr oedd yn ei defnyddio, wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth a bod ei weithredoedd mewn perthynas â Miss Ball hefyd yn cyfateb i fwlio a hambygio. Casglodd y Tribiwnlys bod gwneud honiadau difrifol di-sail dro ar ôl tro yn erbyn Miss Ball, ac | Casglodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylid atal y Cynghorydd Durkin rhag gweithredu fel Aelod o Gyngor Sir Ynys Môn am gyfnod o 12 mis neu, os yw hynny'n fyrrach, am weddill ei gyfnod fel Cynghorydd, a hynny o 17 Mai 2012. |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | Gwybodaeth Gorfforaethol y Cyngor (Mr Pritchard). | awgrymu ei bod yn anonest ac yn llwgr, yn tanseilio ei hawdurdod a'i sefyllfa ac yn cyfateb i fwlio a hambygio.<br><br>Casglodd y Tribiwnlys nad oedd yr hyn a wnaeth y Cynghorydd Durkin yn cyfateb i fwlio na hambygio Mr. Bowles fel swyddog uwch, a bod Mr Bowles wedi delio'n gadarn gyda'r Cynghorydd Durkin. Fodd bynnag, casglodd y Tribiwnlys bod gwneud yr honiadau di-sail yn y cyfryngau cyhoeddus fod Mr. Bowles yn anonest ac yn llwgr yn fethiant i ddangos parch ac ystyriaeth tuag at Mr. Bowles a hynny'n groes i baragraff 4(b) y Côd.<br><br>Ni chasglodd y Tribiwnlys fod y Cynghorydd Durkin wedi torri'r Côd mewn perthynas â'i ymddygiad tuag at Mr. Pritchard. Nid oedd y Tribiwnlys yn derbyn bod y Côd yn berthnasol yn yr achos yma ac er bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn trin pawb fel aelodau o'r cyhoedd | |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | | o bersbectif y Ddeddf, roedd y Cynghorydd Durkin yn gwneud y ceisiadau yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd ac i ddibenion gwleidyddol. Fodd bynnag, wrth ystyried y dystiolaeth roedd y Tribiwnlys yn fodlon fod y Cynghorydd Durkin wedi gwneud ei geisiadau'n gwbl briodol a bod ei lythyrau at Mr. Pritchard yn briodol o ran eu cynnwys a'u cywair.<br><br>Casglodd y Tribiwnlys hefyd fod gweithredoedd y Cynghorydd Durkin hefyd yn torri paragraff 6(1)(a) y Côd. Casglodd y Tribiwnlys fod honiadau di-sail,mynych, cyhoeddus a difrifol y Cynghorydd Durkin yn erbyn Uwch Swyddogion y Cyngor yn siŵr o danseilio'r Awdurdod a dwyn anfri arno. Yn ogystal, roedd yr iaith a ddefnyddiwyd gan y Cynghroydd Durkin a'r ffaith fod y Tribiwnlys wedi casglu nad oedd ei gymhellion yn ddiffuant yn dwyn anfri ar y swydd. | |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
| --- | --- | --- | --- |
| Y cyn-Gynghorydd A. Brown<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br><br>APW/002/2012-013/CT | Yn gyson ac yn fwriadol wedi camgynrychioli ei swydd fel Cynghorydd yn dilyn iddo gael ei atal gan Dribiwnlys blaenorol, mewn e-byst, blogiau, llythyrau ac erthyglau i'r cyfryngau a rhaglen "ffonio i mewn" ar y radio mewn cyfnod o 3 mis yn dilyn casgliad y Tribiwnlys.<br><br>Yn fwriadol ac yn gyson wedi camgynrychioli casgliadau'r Tribiwnlys blaenorol;<br><br>Camgynrychioli'r Cyngor a'i bolisïau; a<br><br>Er gwaethaf canlyniad y Tribiwnlys ar 13 Ebrill 2013, roedd wedi | Ystyriodd y Tribiwnlys Achos holl ffeithiau'r achos. Rhoddodd sylw i'w ganllawiau ynghylch sancsiynau sy'n nodi y gall anghymwyso fod yn briodol mewn amgylchiadau lle byddid, mae'n debygol, wedi atal yr aelod pe bai'n parhau i fod yn aelod o'u hawdurdod. Fodd bynnag, yn yr achos hwn ystyriwyd anghymwyso oherwydd bod y cyn-Gynghorydd Brown wedi methu â glynu wrth y Côd yn fwriadol ac wedi torri'r Côd yn gyson. Roedd yna nifer o ffactorau gwaethygol:<br><br>a) Torri'r Côd tro ar ôl tro<br>b) Gweithredoedd yn dwyn anfri ar y Cyngor<br>c) Natur fwriadol y gweithredoedd<br>d) Herio'r ymchwiliad a'r dyfarniad i'r pen<br>e) Ceisio beio eraill yn annheg<br>f) Dyfalbarhau gyda phatrwm o ymddygiad<br>g) Methiant i gymryd sylw o gyngor neu rybuddion priodol | Casglodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylid anghymwyso'r cyn-Gynghorydd Brown am gyfnod o 3 blynedd rhag bod yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000, a hynny ar unwaith. |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | cyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol, a hynny o fwriad, ac wedi methu â gofyn am gyngor gan yr awdurdodau priodol. | | |
| Y Cynghorydd. A. Moss<br>Cyngor Cymuned Llantrisant<br>APW/001/2012-013/CT | Torri paragraff 6(1)(a) y Côd Ymddygiad | Y penderfyniad heb ei gyhoeddi hyd yma | Torri'r Côd: Gwahardd am 6 mis. |
| Y Cynghorydd Hefin Thomas<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>**Apêl**<br><br>APW/003/2012-013/A | Ym mis Mehefin 2012, cyflwynwyd apêl i Banel Dyfarnu Cymru ar ran y Cynghorydd Thomas yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn y dylid gwahardd y Cynghorydd Thomas am gyfnod o 6 mis am dorri paragraff 6(1)(a) y Côd Ymddygiad. | Mae'r Tribiwnlys Apêl yn fodlon bod y Pwyllgor Safonau wedi rhoi pob cyfle i'r Cynghorydd Thomas gadarnhau ei liniariad yn ystod gwrandawiad y Pwyllgor Safonau. Mae'r Tribiwnlys Apêl wedi rhoi sylw i'r lliniariad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau a'r Tribiwnlys Apêl. Mae'r Tribiwnlys Apêl yn fodlon bod y Pwyllgor Safonau wedi cydnabod yn briodol y lliniariad a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Thomas ond bod ffactorau eraill yn gorbwyso'r lliniariad hwnnw, gan gynnwys hygrededd y Cynghorydd Thomas. | Mae'r Tribiwnlys Apêl yn ystyried nad yw'r gwaharddiad 6 mis a osodwyd gan y Pwyllgor Safonau yn anghymesur o gofio amgylchiadau'r achos.<br><br>Penderfynodd y Tribiwnlys Apêl yn unfrydol i gymeradwyo penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn y dylid gwahardd y Cynghorydd Thomas am gyfnod o 6 mis. |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r Tribiwnlys Apêl yn fodlon bod y Pwyllgor Safonau wedi gweithredu'r egwyddor cymesuredd ac wedi cymryd i ystyriaeth yr holl ffeithiau wrth benderfynu ar y gosb i'r Cynghorydd Thomas. | |
| Y cyn-Gyng. Whitby<br><br>Cyngor Cymuned Coedpoeth<br><br>APW/003/2011-012/CT<br><br>APW/005/2012-013/CT<br><br>APW/007/2012-013/CT | Roedd y cyn-Gynghorydd Whitby wedi torri Côd Ymddygiad y Cyngor Cymuned uchod oherwydd ei ymddygiad ac yn sgil ei arestio am darfu ar yr heddwch mewn gwrthdystiad yn Lerpwl ar 4 Rhagfyr 2012, methiant i ddangos parch ac ystyriaeth tuag at Glerc y Cyngor Cymuned, ei ymddygiad, ei arestiad a'i garchariad wedyn am beidio â chydweithredu gyda'r awdurdodau perthnasol yn codi o brotest yn Llys Sirol Penbedw ar 7 Mawrth 2011; a'i ddiffyg cydweithrediad gydag ymchwiliad yr Ombwdsmon i'r honiadau hyn. | O'r herwydd, dyfarnodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol fod y cyn-Gynghorydd Whitby, wrth dorri'r Côd Ymddygiad a'i agwedd annerbyniol a'i ddiystyrwch cyffredinol o'r Côd, wedi dangos nad oedd yn addas i ddal swydd gyhoeddus a'i fod yn annhebygol o fod yn addas dros y 5 mlynedd nesaf. | O'r herwydd, dylid ei anghymwyso i fod yn aelod, neu i ddod yn aelod, o Gyngor Cymuned Coedpoeth neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000. |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Cyng.John Cooper<br><br>**Apêl**<br><br>Cyngor Cymuned Y Mwmbwls<br><br>APW/009/2012-013/A | Yr honiadau oedd bod y Cynghorydd Cooper wedi torri Côd Ymddygiad Cyngor Cymuned y Mwmbwls trwy wneud datganiadau camarweiniol am ei asedau personol i Dribiwnlys Cyflogaeth pan oedd y Tribiwnlys hwnnw yn ystyried ei atebolrwydd am gostau.<br><br>Honnwyd bod y Cynghorydd Cooper, oherwydd ei fod wedi methu â datgan maint ei asedau, wedi camarwain y Tribiwnlys Cyflogaeth ynglyn â'i allu i dalu unrhyw gostau a ddyfarnwyd yn ei erbyn. | Ar sail canfyddiad o ffaith, casglodd y Tribiwnlys Apêl yn unfrydol fod methiant i gydymffurfio gyda Chôd Ymddygiad Cyngor Cymuned y Mwmbwls.<br><br>Dywed paragraff 6(1)(a) y côd ymddygiad "Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ei hystyried yn rhesymol fel un sy'n dod ag anfri ar eich swydd neu'r awdurdod".<br><br>Roedd y Tribiwnlys Apêl yn fodlon fod y canfyddiad o ffaith fod y Cynghorydd Cooper wedi gwneud datganiadau camarweiniol i'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn cyfateb i dorri paragraff 6(1)(a) y Côd.<br>Roedd y Tribiwnlys yn ystyried bod y canfyddiadau a wnaed gan y Tribiwnlys Cyflogaeth fod y Cynghorydd Cooper wedi methu â datgelu asedau, a'r erthygl wedyn yn y South Wales Evening Post, yn dwyn anfri ar swydd Cynghorydd Cymuned a Chyngor Cymuned y Mwmbwls. | Gan hynny, penderfynodd y Tribiwnlys Apêl yn unfrydol i gadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Safonau ac y dylid gwahardd y Cynghorydd Cooper rhag bod yn Aelod Etholedig a Chyfetholedig o Gyngor Cymuned y Mwmbwls am gyfnod o 18 wythnos.<br><br>Roedd y Tribiwnlys o'r farn bod hon yn gosb briodol a chymesur i nodi difrifoldeb yr achos a chynnal hyder y cyhoedd o ran safonau mewn bywyd cyhoeddus. |
| Cyn Gyng. David Evans<br><br>Cynor Sir Ceredigion | Torri paragraff 6(1)(a), 7(a) and 9(a) o'r Côd Ymddygiad | Yr honiadau oedd bod Mr. Evans wedi torri Côd Ymddygiad Cyngor Sir Ceredigion trwy hawlio treuliau nad oedd ganddo hawl iddynt a'i fod wedi ennill mantais ariannol trwy or- | Ystyriodd y Tribiwnlys holl ffeithiau'r achos ac yn arbennig y ffaith bod Mr. Evans wedi ad-dalu'n brydlon y treuliau yr oedd wedi eu gor-hawlio |

| Enw | Honiadau | Darganfyddiadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| APW/008/2012-013/CT | | ddweud ei filltiroedd a'i hawliadau cynhaliaeth dros gyfnod o 11 mlynedd. | pan ofynnwyd iddo wneud hynny. Cymerodd y Tribiwnlys Achos i ystyriaeth y ffaith bod y Cyngor wedi cyfaddef fod ei weithdrefnau yn ystod y cyfnod mewn perthynas â threuliau Cynghorwyr wedi disgyn yn fyr o'r safon y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl.<br><br>Casglodd y Tribiwnlys Achos yn unfrydol y dylid gwahardd Mr. Evans rhag bod yn aelod o Gyngor Sir Ceredigion neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol 2000 am gyfnod o 3 mis. |
| Y Cyn P Heesom<br><br>Cyngor Sir Y Fflint<br><br>APW/005/2010-011/CT | Torri paragraff 4(a), 4(b), 6(1)(b) a 7(a) o'r Côd Ymddygiad | Yr adroddiad heb ei gyhoeddi hyd yn hyn | Gwahardd am 2 ½ blynedd ond y gwaharddiad wedi ei ddal yn ôl gan yr Uchel Lys hyd y bydd Adolygiad Barnwrol. |

This page is intentionally left blank

# PAPUR / ENCLOSURE D

# Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad** | **12 Medi 2013** |
| **Teitl yr Adroddiad** | **Cyn-Gofrestru Diddordebau – Diweddariadau gan Gynghorwyr Sir** |
| **Adroddiad gan** | **Swyddog Gofal Cwsmer** |
| **Pwrpas** | **Darparu diweddariad i'r Pwyllgor ar Gofrestrau Diddordeb y Cynghorwyr Sir** |

## 1.0 Rhagarweiniad

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Safonau yn adolygu'r Gofrestr Ddiddordebau "sefydlog". Am y tair blynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi nodi methiant ar ran rhai Aelodau Etholedig i ddiweddaru eu cofrestriad o ran penodiadau i gyrff allanol. Mae'r methiant hwn yn gyfystyr â thorri'r Côd Ymddygiad ac er nad yw mae'n debyg, ond yn torri'r Côd mewn modd technegol yn unig, mae'n golygu fod Aelodau nad ydynt yn cydymffurfio yn agored i gael eu beirniadu.

Yn dilyn yr etholiad ar 2 Mai 2013, cofrestrodd yr holl Aelodau eu diddordebau o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod. Yn dilyn eu penodi i gyrff allanol (gan y Cyngor a chan yr Arweinydd), mae tudalen broffil pob aelod ar y wefan wedi ei diweddaru gan y Cyngor. Fodd bynnag, ni fedr y Cyngor ddiweddaru Cofrestriadau unigol o Ddiddordeb oherwydd dywed y Côd yn glir mai cyfrifoldeb personol yr Aelodau eu hunain yw gwneud hynny.

## 2.0 Y camau a gymerwyd

Anfonwyd y nodiadau atgoffa isod i'r holl Aelodau:-

- **21.6.13** – e-bost yn eu hatgoffa o'r angen i ddiweddaru o fewn 28 diwrnod i unrhyw newid.
- **24.6.13** – e-bost gan dîm y Wefan gyda chyfarwyddiadau ynghylch sut i ddiweddaru'r Ffurflen Cofrestru Diddordebau Ar-lein.
- **9 7.13** – e-bost pellach yn eu hatgoffa ynghyd â rhestr o gyrff allanol yr oedd pob Aelod wedi cael eu penodi iddynt.
- **18.13** - Aethpwyd ac adroddiad i'r Grŵp Arweinyddion gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn gofyn iddynt atgoffa eu haelodau o'r angen i ddiweddaru eu cofrestrau.
- **Wythnos 27.8.13 – 2.9.13** – gyrrwyd e-byst atgoffa pellach allan.



CONFIDENTIAL

### 3.0 Y sefyllfa gyfredol

Mae'r sefyllfa ar 3.9.13 fel a ganlyn gyda 7 Aelod heb ddiweddaru eu cofrestrau:- 4 Annibynnol, 2 Aelod Rhydd ac 1 Aelod Plaid Cymru.

### 4.0 Gweithredu Pellach

O ystyried yr adroddiad uchod, ydy'r Pwyllgor yn dymuno cymryd camau pellach?

This page is intentionally left blank

# PAPUR / ENCLOSURE
# DD

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **12 Medi 2013** |
| **Teitl yr Adroddiad** | **Cynghorau Tref a Chymuned – Ymrwymiadau Côd Ymddygiad** |
| **Adroddiad gan** | **Swyddog Gofal Cwsmer** |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | **Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y nifer o Gynghorau Tref a Chymuned sydd wedi darparu gwybodaeth ynglŷn ag ymrwymiadau Cynghorwyr yn dilyn y tymor newydd mewn swydd a ddechreuodd ym Mai 2013.** |

**1.0 Cyflwyniad**

Anfonwyd llythyr at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned ar 25.4.13 yn gofyn iddynt ddarparu'r canlynol :-

"copïau o'r HOLL ymrwymiadau a gwblhawyd ac a gyflwynwyd gan eich Cynghorwyr newydd a'r rhai oedd yn dychwelyd, yn addo glynu wrth y Côd Ymddygiad yn ystod eu tymor newydd yn eu swyddi o Fai 2013".

Yn dilyn ymateb araf iawn, fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor hwn ym mis Mehefin, anfonwyd llythyr arall dyddiedig 13.06.13.

**2.0 Canlyniad**

2.1 Gallaf yn awr gadarnhau bod POB Cyngor ond un wedi ymateb ac wedi darparu copïau o'u hymrwymiadau. Mae rhai Cynghorau yn dal i recriwtio aelodau newydd ac maent wedi addo y byddant yn darparu manylion am ymrwymiadau pellach fel y byddant yn dod ar gael.

2.2 Ar ddyddiad ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae ymchwiliadau ar droed ynglŷn â'r sefyllfa yn ymwneud â'r un Cyngor sydd ar ôl. Mae'r Clerc wedi cadarnhau bod yr ymrwymiadau wedi eu hanfon trwy'r post wedi'i gofnodi beth amser yn ôl. Ni dderbyniwyd y ffurflenni gan yr Adran Gyfreithiol ac y mae'r Clerc mewn cyswllt gyda'r Post Brenhinol i geisio dod o hyd i'r amlen. Yn anffodus ni wnaeth y Clerc cadw copïau o'r ffurflenni ond os yw'r rhai gwreiddiol wedi mynd ar goll, yna byddant yn cael eu harwyddo unwaith yn rhagor a'u hanfon ymlaen imi.

2.3 Bydd y copïau o'r ymrwymiadau'n cael eu cadw yn y ffeil briodol yn yr Adran Gyfreithiol.

**3.0 Y Côd Ymddygiad.**

Mae POB Cyngor wedi cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu Côd Ymddygiad, mae dau wedi mabwysiadu'r Model Unllais tra bo'r gweddill wedi mabwysiadu'r Model Côd Ymddygiad (2008 Rhif 788 (W.82) ) fel y cafodd ei ddarparu iddynt gan y Cyngor Sir.

**4.0 Casgliad**

Unwaith y bydd y mater ynglŷn â'r Cyngor olaf hwn wedi ei ddatrys nid wyf yn credu y bydd angen cymryd unrhyw gamau pellach yng nghyswllt Ymrwymiadau'r Côd Ymddygiad.

This page is intentionally left blank

# PAPUR / ENCLOSURE E

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **12 Medi 2013** |
| **Teitl yr Adroddiad** | **Cynghorau Tref a Chymuned – Hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad** |
| **Adroddiad Gan** | **Swyddog Gofal Cwsmer** |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | **Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar nifer y rhai sydd wedi rhoi eu henwau ymlaen ar gyfer y sesiynau hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad ym Medi 2013.** |

**1.0 Cyflwyniad**

Yn dilyn yr etholiad yn ddiweddar a'r tymor newydd mewn swydd i'r holl Gynghorwyr a gychwynnodd ar 6 Mai 2013, mae angen i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir ddarparu hyfforddiant i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ar anghenion y Côd Ymddygiad.

**2.0 Camau a Gymerwyd**

Anfonwyd llythyr i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ar 9.07.13 yn rhoi'r amseroedd a'r dyddiadau ar gyfer pedwar o sesiynau hyfforddi ddiwedd mis Medi 2013.

Anfonwyd e-bost at yr holl Gynghorwyr Sir, sydd yn aelodau o gyngor Tref neu Gymuned ar 24.7.13 yn gofyn iddynt godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r sesiynau pan fyddant yn mynd i'r cyfarfod nesaf.

Ar 15.08.13, anfonwyd llythyr i'w hatgoffa ac yn gofyn am i'r holl enwebiadau gael eu derbyn erbyn 6.09.13. Mae copïau o'r holl ohebiaeth a grybwyllwyd uchod ynghlwm yn Atodiad 1.

**3.0 Y sefyllfa ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (29.8.13.)**

- Mae 24 allan o 40 Cyngor wedi ymateb gyda 22 yn darparu enwebiadau ( 1 yn dweud nad oedd unrhyw un o'r dyddiadau'n addas ac roedd y llall yn dal i edrych am aelodau newydd ond nid oedd y dyddiad cau hyd ddiwedd mis Medi – fe wnaeth y ddau fynegi dymuniad i gael gwybod am unrhyw sesiynau pellach fyddai'n cael eu trefnu).
- Mae'r sesiynau 6pm ar 23 a 26 Medi bellach yn llawn oherwydd bod y nifer all fynychu pob sesiwn wedi ei gyfyngu i 20.

- Mae dau o enwau wedi eu rhoi ymlaen ar gyfer sesiwn y prynhawn ar 23.09.13 ac 8 o enwau wedi eu rhoi ymlaen ar gyfer sesiwn y prynhawn ar 26.09.13

Gan fod gan y Cynghorau hyd at 6 Medi i ddarparu enwebiadau, nid yw'n glir ar hyn o bryd a fydd y sesiynau yn y prynhawn yn cael eu cynnal ynteu a fydd yn rhaid i ni aildrefnu sesiynau pellach gyda'r nos.

**4.0 Camau Gweithredu gan y Pwyllgor Safonau**

Rwy'n casglu o'r sgyrsiau yr wyf wedi eu cael gyda nifer o Glercod, nad oes ond ychydig neu ddim brwdfrydedd i dderbyn yr hyfforddiant ac y byddant yn croesawu unrhyw gefnogaeth gan y Pwyllgor hwn.

Cynghorau Tref a Chymuned / Town & Community Councils

Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad / Training on the Code of Conduct

| Enw /Name<br>C = Cymuned /Community /<br>T= Tref / Town | Wedi Ymateb / Responded | Yn mynychu / Attending |
|---|---|---|
| Aberffraw C | NO | |
| Amlwch T | Yes | 2 |
| Beaumaris T | Yes | Dyddiadau ddim yn gyfleus / Dates not convenient |
| Bodedern C | Yes | 1 |
| Bodffordd C | Yes | 3 |
| Bodorgan C | Yes | 1 |
| Bryngwran C | Yes | 2 |
| Cwm Cadnant C | No | |
| Cylch –y-Garn C | Yes | Yn recriwtio - dyddiad cau diwedd mis Medi / neb yn mynychu. Recruiting – closing date is end September – no attendees |
| Holyhead T | Yes | 3 |
| Lanbadrig C | Yes | 4 |
| Llanddaniel Fab C | Yes | 3 |
| Llanddona C | No | |
| Llanddyfnan C | Yes | 2 |
| Llaneilian C | Yes | 2 |
| Llanerchymedd C | Yes | 3 |
| Llaneurgrad C | No | |
| Llanfachraeth C | No | |
| Llanfaelog C | Yes | 2 |
| Llanfaethlu C | No | |

Cynghorau Tref a Chymuned / Town & Community Councils

Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad / Training on the Code of Conduct

| Enw /Name<br>C = Cymuned /Community /<br>T= Tref / Town | Wedi Ymateb / Responded | Yn mynychu / Attending |
|---|---|---|
| Llanfair Mathafarn Eithaf C | Yes | 2/3 |
| Llanfair yn Neubwll C | No | |
| Llanfairpwll C | No | |
| Llanfihangelesceifiog C | Yes | 2 |
| Llangefni T | Yes | 5 |
| Llangoed and Penmon C | No | |
| Llangristiolus C | Yes | 3 |
| Llanidan C | Yes | 1 |
| Mechell C | No | |
| Menai Bridge T | No | |
| Moelfre C C | No | |
| Penmynydd & Star C | Yes | Neb wedi rhoi enw ymlaen/no names put forward |
| Pentraeth C | Yes | 3 |
| Rhoscolyn C | No | |
| Rhosybol C | Yes | Cyfarfod ddim tan 9.9.13 –dim enwau hyd yn hyn / Meeting not until 9.9.13 – no names as yet |
| Rhosyr C | No | |
| Trearddur C | No | |
| Tref Alaw C | No | |
| Trewalchmai C | Yes | 3 |
| Valley C | Yes | 2 |

**ADRAN Y DIRPRWY PRIF WEITHREDWRAIG**
**DEPARTMENT OF THE DEPUTY CHIEF EXECUTIVE**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.)Cyfreithiwr/Solicitor**
**PENNAETH ADNODDAU CYFREITHIOL A GWEINYDDOL/SWYDDOG MONITRO**
**HEAD OF FUNCTION LEGAL AND ADMINISTRATION / MONITORING OFFICER**

CYNGOR SIR YNYS MON /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir / Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn / Anglesey
LL77 7TW

DX: 701771 – LLANGEFNI

ffôn / tel: (01248) 752586
ffacs / fax: (01248) 752132

E-Bost – E-mail: LBXCS@anglesey.gov.uk

Ein Cyf – Our Ref. LB/MWJ/CC-016647-LB
Eich Cyf – Your Ref.

Clercod Cymunedau Tref a Chymuned
Clerks of Town and Community Councils

9/7//2013

Annwyl Glerc,

**HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD I GYNGHORWYR TREF A CHYMUNED**

Yn dilyn yr etholiad diweddar a'r ffaith fod yr holl Gynghorwyr newydd wedi cychwyn eu cyfnodau yn eu swyddi ar 6 Mai 2013, rhaid i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir rhoi hyfforddiant i bob Cynghorydd Tref a Chymuned ar ofynion y Côd Ymddygiad.

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi gofyn i mi bwysleisio pwysigrwydd yr hyfforddiant hwn gan ei fod yn hanfodol bod yr holl Aelodau'n gyfarwydd gyda gofynion y Côd, yn arbennig fel y maent yn ymwneud â diddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu.

Trefnwyd sesiynau hyfforddi hefyd ar gyfer y bedwaredd wythnos ym mis Medi 2013 ac fe'ch gwahoddir i anfon 3 chynrychiolydd o'ch Cyngor (gallwch chi fod yn un ohonynt fel y Clerc).

Dear Clerk,

**CODE OF CONDUCT TRAINING SESSIONS FOR TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS**

Following the recent election and new term of office for all Councillors commencing on the 6th May, 2013, the County Council's Standards Committee is required to provide training to all Town and Community Councils on the requirements of the Code of Conduct.

The Standards Committee have asked that I stress to you the importance of this training as it is essential that all Members are familiar with the requirements of the Code, particularly insofar as they relate to personal and prejudicial interests.

Training sessions have therefore been arranged to take place in the fourth week of September 2013 and you are invited to send up to 3 representatives from your Council (one of whom can be yourself as the Clerk).

| | |
|---|---|
| Mae'r sesiynau wedi eu trefnu fel a ganlyn:- | The sessions have been arranged as follows:- |
| **Dydd Llun 23 Medi 2013** | **Monday 23rd September 2013** |
| 2pm–5pm - Cymraeg<br>a<br>6pm–9pm - Saesneg | 2pm – 5pm - Welsh<br>and<br>6pm – 9pm - English |
| **Dydd Iau 26 Medi 2013** | **Thursday 26th September 2013** |
| 2pm–5pm - Saesneg<br>a<br>6pm-9pm - Cymraeg | 2pm – 5pm - English<br>and<br>6pm-9pm - Welsh |
| Cynhelir y sesiynau yn Siambr y Cyngor a disgwylir y bydd pob sesiwn yn cymryd oddeutu 3 awr. | The sessions will take place in the Council Chamber and each session is expected to last for approximately 3 hours. |
| A fyddech cystal â ffonio Mrs Beryl Jones ar 01248 752588 neu Mrs Medwen Jones ar 01248 752574, cyn gynted ag y bo modd i gadarnhau enwau'r rheini fydd yn mynychu a pha sesiwn y maent yn dymuno bod yn bresennol ynddi. | You are asked to please telephone Mrs Beryl Jones on 01248 752588 or Mrs Medwen Jones on 01248 752574, as soon as possible to confirm the names of those who will be attending and which session they wish to attend. |

Lynn Ball
Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddiaeth/Swyddog Monitro Head of Function
Legal and Administration/Monitoring Officer

## Beryl Jones

**From:** Beryl Jones
**Sent:** 24 July 2013 14:14
**To:** Aled M. Jones; Alun W. Mummery; Alwyn Rowlands; Ann Griffith; Bob Parry; Carwyn Elias Jones; Dafydd Rhys Thomas; Derlwyn R. Hughes; Dylan Rees; Gwilym Jones; Hywel Eifion Jones; Ieuan Williams; Jeffrey M. Evans; Jim Evans; John Griffith; Kenneth Hughes; Lewis Davies; Llinos Medi Huws; Nicola Roberts; Peter Rogers; R Meirion Jones; Raymond Jones; Richard Dew; Richard Owain Jones; T Victor Hughes; Trefor Lloyd Hughes; Vaughan Hughes; William Thomas Hughes
**Subject:** Hyfforddiant i Gynghorau Tref a Chymuned / Training for Town and Community Councils
**Attachments:** Llythyr 090713 Letter.doc

Annwyl Gynghorydd,

Atodaf gopi o lythyr sydd wedi ei yrru i bob Clerc Cyngor Tref a Chymuned ynglŷn â sesiynau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

Gan eich bod yn aelod o, neu yn mynychu cyfarfodydd o'ch Cyngor lleol, buaswn yn ddiolchgar pe taech yn gallu codi ymwybyddiaeth ac yn hybu'r sesiynau gan ei fod yn ddyletswydd ar y Cyngor Sir i ddarparu'r hyfforddiant yma.

Diolch yn fawr.

*Dear Councillor,*

*I attach a copy of a letter sent to the Clerk of every Town and Community Council regarding training sessions on the Code of Conduct.*

*As you are a member of, or attend meetings of your local Council, I would be grateful of you could raise awareness and promote these sessions as the County Council has a duty to provide this training.*

*Thank you*

Beryl Jones
Swyddog Gofal Cwsmer / Customer Care Officer.
Adain Gyfreithiol / Legal Section.

**ADRAN Y DIRPRWY PRIF WEITHREDWRAIG**
**DEPARTMENT OF THE DEPUTY CHIEF EXECUTIVE**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.)Cyfreithiwr/Solicitor**
**PENNAETH ADNODDAU CYFREITHIOL A GWEINYDDOL/SWYDDOG MONITRO**
**HEAD OF FUNCTION LEGAL AND ADMINISTRATION / MONITORING OFFICER**

CYNGOR SIR YNYS MON /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir / Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn / Anglesey
LL77 7TW

DX: 701771 – LLANGEFNI

ffôn / tel: (01248) 752586
ffacs / fax: (01248) 752132

E-Bost – E-mail: LBXCS@anglesey.gov.uk

Ein Cyf – Our Ref. LB/MWJ/CC-016647-LB
Eich Cyf – Your Ref.

Clercod Cymunedau Tref a Chymuned
Clerks of Town and Community Councils

15/08/13

Annwyl Glerc,

**HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD I GYNGHORWYR TREF A CHYMUNED**

Ysgrifennaf atoch i'ch atgoffa o'r angen i ymateb i fy llythyr dyddiedig 9.7.13 ac mae copi o hwnnw ynghlwm.

A fuasech cystal â chysylltu â'r swyddogion a enwir yn fy llythyr gwreiddiol i gadarnhau a fydd eich Cyngor yn enwebu Cynghorwyr i fynychu'r sesiynau hyfforddiant ai peidio, cyn gynted â phosib.

Cymeraf y cyfle hefyd i'ch atgoffa o bwysigrwydd yr hyfforddiant hwn gan ei bod yn hanfodol fod yr holl Gynghorwyr yn gyfarwydd â gofynion y Côd Ymddygiad.

Bydd rhaid i mi fod wedi derbyn yr holl enwebiadau erbyn 6ed Medi 2013 er mwyn gallu cwblhau'r trefniadau.

Yn gywir

Dear Clerk,

**CODE OF CONDUCT TRAINING SESSIONS FOR TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS**

I write to you to remind you of the need to respond to my letter dated 9.7.13, a copy of which is attached.

Could you please contact the officers named in my original letter to confirm whether or not your Council will be nominating any Councillors to attend the training sessions as soon as you can.

I would also take this opportunity to remind you of the importance of this training as it is essential that the requirements of the Code of Conduct are familiar to all Councillors.

I need to have received all nominations to attend the courses by 6th September 2013 in order to finalise all arrangements.

Yours sincerely

Lynn Ball
Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddiaeth/Swyddog Monitro
Head of Function Legal and Administration/Monitoring Officer

This page is intentionally left blank

# PAPUR / ENCLOSURE F

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Y Pwyllgor Safonau, Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn |
| **Dyddiad** | Pwyllgor Safonau 12.09.13<br>Pwyllgor Gwaith 21.10.13<br>Cyngor Llawn ...12.13 |
| **Pwnc** | Gwneud Newidiadau i'r Cyfansoddiad (3.5.3.15.5) a'r Rheolau Gweithdrefn Cynllunio (Adran 4.6 y Cyfansoddiad) |
| **Deilydd Portffolio** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Swyddog Cyswllt** | Robyn Jones (x2134) |

**Rheswm am yr adroddiad:**

1.1 Gwneud newidiadau i'r Cyfansoddiad, sef un newid i baragraff 3.5.3.15.5 ac un arall i adran 4.6, Rheolau Gweithdrefn Cynllunio (y Rheolau):

1.1.1 <u>Newid 1</u> (paragraff 3.5.3.15.5) - Yn y dyfodol, yn achos ceisiadau sy'n tynnu'n groes ac a gyflwynir gan gynghorwyr, swyddogion perthnasol neu eu teulu neu ffrindiau agos, yn hytrach na bod y ceisiadau'n cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio (y Pwyllgor) fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bod modd i swyddogion cynllunio eu gwrthod dan y drefn ddirprwyo ac y byddant wedyn yn destun adroddiad llawn i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor. Lle byddai swyddogion yn dymuno cymeradwyo cais o'r fath sy'n tynnu'n groes, dim ond y Pwyllgor fyddai'n medru ei gymeradwyo.

1.1.2 <u>Newid</u> 2 (rhan 4.6) - Newid y Rheolau i adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol ac i gymryd Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011 i ystyriaeth. Yn gryno, bod gan aelodau'r Pwyllgor hawl i fynegi barn ar rinweddau cais hyd yn oed cyn iddo ddod i Bwyllgor am benderfyniad, ar yr amod bod y farn honno'n rhagdueddiad ac nid yn rhagbenderfyniad. Byddai hynny'n cynnwys caniatáu i aelodau o'r Pwyllgor sydd hefyd yn aelodau o Gyngor Tref neu Gymuned gymryd rhan mewn mater cynllunio mewn cyfarfodydd o'u Cynghorau Tref neu Gymuned.

1.2 Mae'r cyfan o'r newidiadau arfaethedig wedi eu hamlygu yn y dogfennau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

1.3 Ymgynghorir gyda'r Pwyllgor Safonau ar y cynigion hyn.

1.4 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig; a

1.5 Gofynnir i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad i wneud y newidiadau a ddangosir yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

PL-16971-RWJ/182386

## A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

Mae'r Cyfansoddiad cyfredol yn darparu fel a ganlyn.

2.1 Newid 1

2.1.2 Ni chaniateir i swyddogion cynllunio wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a gyflwynwyd gan Gynghorwyr, swyddogion perthnasol (uwch swyddogion a'r rheini sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol yn y broses gynllunio) a'u teulu a'u ffrindiau agos. Ar hyn o bryd y Pwyllgor sy'n penderfynu ceisiadau o'r fath. Fodd bynnag, mae man gwan yn y drefn, mewn perthynas â cheisiadau sy'n tynnu'n groes i'r cynllun datblygu (statudol). Y cynllun datblygu yw'r prif gyfrwng ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a rhaid penderfynu ceisiadau yn seiliedig ar ddarpariaethau'r cynllun hwnnw yn y rhan fwyaf o achosion.

2.1.3 Mae ceisiadau sy'n tynnu'n groes yn cael eu penderfynu gan swyddogion pan maent yn dymuno gwrthod y cais, ond rhaid i'r holl geisiadau sy'n tynnu'n groes fynd i'r Pwyllgor os yw'r swyddogion yn dymuno cymeradwyo'r cais. Mae'r man gwan yn codi lle mae cais sy'n tynnu'n groes ac a gyflwynir gan Gynghorydd, swyddog perthnasol neu eu teulu neu eu ffrindiau agos, yn mynd yn syth i'r Pwyllgor am benderfyniad lle byddai cais o'r fath gan bobl eraill, mae'n debyg, yn cael ei wrthod gan swyddogion dan bwerau dirprwyo.

2.1.4 I gau'r man gwan hwn, cynigir bod yr holl geisiadau sy'n tynnu'n groes ac a gyflwynir gan Gynghorwyr, swyddogion perthnasol, neu eu teulu neu eu ffrindiau agos yn cael eu penderfynu gan swyddogion dan bwerau dirprwyo os ydynt yn dymuno gwrthod y cais. Byddai gwrthodiad o'r fath wedyn yn destun adroddiad llawn ysgrifenedig i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Mewn achosion lle mae'r swyddog cynllunio yn dymuno cymeradwyo cais sy'n tynnu'n groes, bydd angen iddo fynd i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo fel pob cais arall sy'n tynnu'n groes.

2.2 Newid 2

2.2.1 Mae'r Rheolau cyfredol yn rhy gul o ran yr hyn y gall aelod o'r Pwyllgor ei wneud a'i ddweud y tu allan i gyfyngiadau'r cyfarfod o'r Pwyllgor. Er enghraifft, maent yn rhwystro aelodau o'r Pwyllgor rhag mynegi barn ar rinweddau cais cyn iddo ddod i Bwyllgor a hefyd yn eu rhwystro rhag cymryd rhan ar faterion cynllunio yn rhinwedd eu swyddogaeth fel aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned mewn cyfarfodydd o'r Cynghorau hynny. Mae'r rheolau hyn yn rhy gaeth nag sy'n rhaid iddynt fod yn wyneb Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011.

2.2.2 Er bod y gyfraith wedi dweud erioed bod gan aelodau hawl i fynegi rhagdueddiad ar fater, nid yw'r gyfraith yn caniatáu i aelodau ragbenderfynu. Yn syml, caniateir i aelodau fynegi barn ar bwynt penodol mewn amser, ar yr amod eu bod yn rhoi arwydd clir nad ydynt wedi cau eu meddyliau i wneud penderfyniad ar rinweddau'r mater hwnnw yn y dyfodol. Mae Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011 wedi ceisio atgyfnerthu'r safbwynt hwnnw ac mae copi o'r adran ynghlwm. Yn ddiau, cafodd y rheolau cyfredol eu drafftio yn ôl yn 2011 yn seiliedig ar y sefyllfa a oedd yn bodoli bryd hynny mewn gwirionedd, yn ogystal ag efallai, y sefyllfa a oedd yn bodoli mewn cyfraith.

2.2.3 Fodd bynnag, yn wyneb Adran 25 ac ethol Cyngor newydd, ystyrir ei bod yn briodol yn awr i newid y rheolau fel eu bod yn adlewyrchiad gwell o'r sefyllfa mewn cyfraith. Mae'r newidiadau i'r rheolau yn yr atodiadau yn caniatáu yn awr i aelodau o'r Pwyllgor fynegi barn gyhoeddus ar rinweddau cais, yn amodol ar y diogelwch a grybwyllwyd, ac ar yr amod eu bod yn egluro mai barn amodol yw hon ac y byddant yn gwneud penderfyniad terfynol ar rinweddau'r cais fel y maent ar y pryd. Mater i'w benderfynu gan bob aelod ar y Pwyllgor fydd a ydynt yn dymuno manteisio ar y darpariaethau hyn ai peidio, ond mae'r newid yn y rheolau yn rhoi ystod o opsiynau iddynt ar gyfer y dyfodol.

**B – Ystyriaethau**

3.1 Newid 1 - Mae man gwan yn y rheolau cyfredol o ran ceisiadau sy'n tynnu'n groes sy'n golygu bod ceisiadau o'r fath a wneir gan Gynghorwyr, swyddogion perthnasol neu eu teulu neu eu ffrindiau agos yn cael eu trin yn wahanol i geisiadau sy'n tynnu'n groes a gyflwynir gan ymgeiswyr eraill. Gan bod cynllunio yn bwnc proffil uchel i bob Cyngor, mae'n well bod yr holl ymgeiswyr sy'n gwneud ceisiadau sy'n tynnu'n groes yn cael eu gweld yn cael eu trin yr un fath, yn amodol ar rai camau diogelwch perthnasol. Yn yr achos hwn, y diogelwch hwnnw fyddai'r angen i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i gyfarfod nesaf y Pwyllgor lle mae cais sy'n tynnu'n groes a gyflwynir gan Gynghorydd, swyddog perthnasol neu eu teulu neu eu ffrindiau agos yn cael ei wrthod gan swyddogion dan bwerau dirprwyol.

3.2 Newid 2 - Mae'r rheolau cyfredol yn debygol o fod yn adlewyrchiad o'r cyfnod pryd cawsant eu drafftio. Erbyn hyn maent yn fwy caeth nag sydd raid iddynt fod ac maent yn rhwystro aelodau'r Pwyllgor rhag mynegi unrhyw farn ar rinweddau cais cyn iddo ddod i Bwyllgor. Yn yr un modd, gwaherddir Aelodau'r Pwyllgor rhag cymryd rhan mewn materion cynllunio yn eu swyddogaeth fel Cynghorwyr Tref neu Gymuned. Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn adlewyrchiad o'r sefyllfa gyfreithiol sy'n caniatáu aelodau'r Pwyllgor i fynegi rhagdueddiad ond nid rhagbenderfyniad. Gellir newid y rheolau a chynnwys cyngor fel y gellir rhoi disgresiwn i aelodau o'r Pwyllgor chwarae rhan fwy gweithredol mewn materion cyhoeddus y tu allan i gyfyngiadau'r

| Pwyllgor. |
|---|

| C – Goblygiadau ac Effaith | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Mae swyddog cyfreithiol y Pwyllgor yn gydawdur yr adroddiad ac mae ei sylwadau wedi ei fynegi ynddi |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | Dim yn berthnasol |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 5 | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | Dim yn berthnasol |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Ni fydd y newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith wahaniaethol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim sylwadau |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Mae'r mater wedi ei ddwyn i sylw aelodau etholedig drwy ohebiaeth ac mae'r adroddiad a'r Atodiad wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau. Adroddir ar lafar ar unrhyw sylwadau. |
| 10 | **Economaidd** | Dim yn berthnasol |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 13 | **Cytundebau Canlyniadau** | Dim yn berthnasol |

## CH – Crynodeb

4.1 Bydd y Rheolau newydd yn:

4.1.1 Golygu y gall swyddogion cynllunio, dan bwerau dirprwyol, wrthod unrhyw gais sy'n tynnu'n groes ac a gyflwynir gan Gynghorydd, swyddog perthnasol neu eu teulu neu eu ffrindiau agos, ond yn amodol ar gyflwyno adroddiad ysgrifenedig llawn i'r Pwyllgor nesaf er budd tryloywder ac atebolrwydd. Mewn achosion lle mae swyddogion yn dymuno cymeradwyo cais sy'n tynnu'n groes, dim ond y Pwyllgor fedr roi'r caniatâd hwnnw. Bydd hyn yn golygu y bydd y ceisiadau hyn sy'n tynnu'n groes yn cael eu trin yr un fath â'r ceisiadau hynny a wneir gan ymgeiswyr eraill ac mae'n cau man gwan posib yn y Rheolau.

4.1.2 Egluro y bydd aelodau o'r Pwyllgor yn gallu mynegi barn ar rinweddau ceisiadau cynllunio cyn iddynt ddod i Bwyllgor am benderfyniad. Bydd hyn yn amodol ar gamau diogelwch i sicrhau y gall aelodau fynegi rhagdueddiad (a ganiateir) ond nid rhagbenderfyniad (nas caniateir). Gall aelodau o'r Pwyllgor, yn yr un modd, gymryd rhan mewn materion cynllunio yn rhinwedd eu swyddogaethau fel Cynghorwyr Tref neu Gymuned os dymunent. Mae'r newidiadau hyn yn rhoi mwy o opsiynau i aelodau ynghylch sut i ddelio gyda materion cynllunio, ond mater i ddisgresiwn yr unigolion fydd penderfynu sut i ddelio gyda'r materion hyn ac, wrth gwrs, gallant ofyn am gyngor fel y gwelant yn ddoeth.

4.1.3 Gwneud y newidiadau uchod a newidiadau bychan a chanlyniadol eraill i'r Cyfansoddiad fel y dangosir yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn.

## D – Argymhelliad

5.1 Mae'r argymhellion fel a ganlyn:

<u>I'r Pwyllgor Safonau</u>
5.2 Cyflwyno sylwadau fel corff yr ymgynghorwyd ag ef.

<u>I'r Pwyllgor Gwaith</u>
5.3 Argymell i'r Cyngor llawn y dylid gwneud y newidiadau i'r Rheolau yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel y manylir arnynt yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

<u>I'r Cyngor llawn</u>
5.4 Gwneud y newidiadau i'r Rheolau yng Ngyfansoddiad y Cyngor fel y manylir arnynt yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn, a

| |
|---|
| 5.5 Dirprwyo grym i'r Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol) i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad i weithredu penderfyniad y Cyngor. |

**Enw awdur yr adroddiad: Robyn W. Jones**
**Teitl Swydd: Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Dyddiad: 2013**

| **Atodiadau:** |
|---|
| Copi o'r Rheolau yn dangos y newidiadau bwriedig. |

| **Papurau Cefndirol:** |
|---|
| Dim. |

PL-16971-RWJ/182386

# NEWID / CHANGE
# 1

Detholiad o'r Cyfansoddiad yn dangos newidiadau a fwriedir mewn coch:

"3.5.3.15.1 ystyried, cynghori a chyflwyno adroddiadau a gweithredu ar bolisïau a phenderfyniadau'r Cyngor a'r Pwyllgor ynghylch materion cynllunio, gan gynnwys y canlynol:

(i) paratoi ceisiadau am gymorth grant i gynnal prosiectau a chynlluniau

(ii) gweinyddu Grantiau Gwella Masnachol

(iii) gweithredu fel Asiant ar ran Awdurdod Datblygu Cymru wrth weinyddu Grantiau Gwella Trefi a Grantiau Gwella Amgylcheddol eraill

(iv) paratoi astudiaethau ar y tir sydd ar gael i bwrpas datblygu ac astudiaethau monitro defnydd tir

(v) darparu gwasanaethau gwybodaeth ac ymchwil

(vi) rheoli safleoedd ac adeiladau yn y cefn gwlad o ddydd i ddydd

3.5.3.15.2 sefydlu ac arwain fforymau a grwpiau i ystyried, cynghori a chyflwyno adroddiadau ar a gweithredu polisïau a phenderfyniadau'r Cyngor a'r Pwyllgorau ynghylch materion cynllunio.

3.5.3.15.3 darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer pridiannau tir lleol.

3.5.3.15.4 rheoli cyfraniad y staff i waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gwaith rhanbarthol, gwaith proffesiynol a threfniadau gweithio partneriaethol eraill.

3.5.3.15.5 yr holl swyddogaethau sy'n gysylltiedig â chynllunio gwlad a thref a rheoli adeiladu yn unol â darpariaethau'r Deddfau canlynol:

- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990,
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990,
- Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990,
- Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1961,
- Deddf yr Amgylchedd 1995,
- Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991,
- Deddf Iawndal Tir 1961,
- Deddf Adeiladu 1984.

Sylwer: Dan y darpariaethau uchod, mae pob penderfyniad ar gais cynllunio, ac eithrio'r canlynol, yn cael ei ddirprwyo i Swyddogion:

(i) ceisiadau yr ystyrir eu bod yn tynnu'n groes i'r Cynllun Datblygu lle mae argymhelliad i gymeradwyo'r cynnig.

(ii) ceisiadau y ceir Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd gyda hwy,

(iii) ceisiadau a gyflwynir gan y Cyngor Sir neu ar ei ran neu sy'n ymwneud â thir sy'n eiddo i'r Cyngor Sir,

(iv) ceisiadau am ganiatâd i godi llinellau trydan sy'n cludo 132 kV neu fwy,

(v) ceisiadau pan fo'r Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Pennaeth Rheoli Datblygu cyn dyddiad penodol yn gofyn am drosglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion wneud penderfyniad arno.

Ni fydd yr hawl a roddir dan y paragraff hwn yn ymwneud ag unrhyw gais cynllunio y tybio'r Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio, neu rywun arall ar ei ran, ei fod yn gwyro oddi wrth y cynllun datblygu onid yw'r cais un ai:

yn cyfateb i neu'n cynnwys creu pump neu ragor o anheddau newydd, neu

yn cyfateb i neu'n cynnwys creu yn uniongyrchol bump neu ragor o swyddi newydd.

(vi) ceisiadau yn cynnwys ceisiadau Tystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon a gyflwynir gan Aelodau'r Cyngor neu Swyddogion y Cyngor a allai gael eu gweld fel bod yn rhan o brosesu ac/neu o benderfynu ar geisiadau cynllunio (h.y. staff a gyflogir yn y Gwasanaeth Cynllunio, Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddogion eraill sy'n rhan reolaidd o'r system gynllunio - e.e. priffyrdd a draenio, cyfreithiol, iechyd yr amgylchedd, swyddogion tai, datblygu economaidd neu berthnasau agos (gwŷr/gwragedd/partneriaid, rhieni, plant, brodyr a chwiorydd) neu gyfaill agos cynghorydd cyfredol neu swyddog o'r fath).

Ni fydd darpariaethau'r paragraff hwn yn berthnasol i geisiadau o'r fath yr ystyrir eu bod yn groes i bolisi. Bydd y ceisiadau hynny sy'n tynnu'n groes yn cael eu gwrthod gan swyddogion yn unol â'u pwerau dirprwyedig a byddant wedyn yn destun adroddiad ysgrifenedig llawn i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor i sicrhau atebolrwydd a thryloywder y penderfyniad a wnaethpwyd. Mewn achosion lle mae swyddogion yn dymuno caniatáu cais sy'n tynnu'n groes, yna mae'n rhaid i'r Pwyllgor roi'r caniatâd hwnnw."

# NEWID / CHANGE
# 2

## ATODIAD

**4.6 Rheolau Gweithdrefn Cynllunio**

**Cynnwys**


**4.6.1 Cyflwyniad**

**4.6.2 Penderfynu ar geisiadau cynllunio**

**4.6.3 Trafodaethau rhagarweiniol (cyn gwneud penderfyniad) Swyddogion gydag Ymgeiswyr**

**4.6.4 Cynghorwyr yn lobïo ac yn cael eu lobïo**

**4.6.5 Trefniadau siarad ac eistedd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.6 Cyfarfodydd cyhoeddus yn ymwneud â chynigion datblygu**

**4.6.7 Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a hefyd yn gynghorwyr tref neu gymuned**

**4.6.8 Gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gynghorwyr**

**4.6.9 Cofrestru a datgan diddordeb**

**4.6.10 Cynghorwyr a Swyddogion yn cyflwyno cynigion datblygu**

**4.6.11 Adroddiadau Swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.12 Penderfynu yn groes i argymhellion Swyddogion a/neu'r cynllun datblygu~~4.6.12 Penderfynu yn groes i argymhellion Swyddogion a/neu y cynllun datblygu~~**

**4.6.13 Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor**

**4.6.14 Ymddygiad Swyddogion**

**4.6.15 Y berthynas rhwng Cynghorwyr a Swyddogion**

**4.6.16 Ymweliadau safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.17 Anrhegion a lletygarwch**

**4.6.18 Hyfforddiant**

**Atodiad**


PL-16971-RWJ/182231

**4.6.19 Protocol ar gyfer ymweliadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion â Safleoedd**

**4.6.20 Rôl Cadeirydd y Pwyllgor**

**4.6.21 Y Cyhoedd yn siarad**

4.6.1 **CYFLWYNIAD**

4.6.1.1 Un o ddyletswyddau pwysig y Cyngor Sir yw penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r rheolau hyn yn pennu sut y bydd y Cyngor, fel awdurdod cynllunio lleol, yn delio â cheisiadau cynllunio ac maent yn berthnasol i Gynghorwyr a Swyddogion gan ddibynnu ar y cyd-destun.

4.6.1.2 Swyddogion Cynllunio, yn gweithredu ar ran yr awdurdod cynllunio lleol, fydd yn penderfynu ar y rhan fwyaf o'r ceisiadau a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (y Pwyllgor) fydd yn penderfynu ar bob cais arall. Mae'r rheolau sy'n pennu pa un ai Swyddogion ynteu'r Pwyllgor fydd yn penderfynu ar geisiadau yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn. O'r achosion hynny lle gall y Pwyllgor wneud y penderfyniad, yr un mwyaf arwyddocaol yw lle y gall Cynghorydd lleol (sef unrhyw un sy'n cynrychioli'r ardal leol lle mae'r tir sy'n destun cais cynllunio) fynnu ar gyflwyno cais i'r Pwyllgor benderfynu arno (un a allai fel arall gael ei benderfynu gan Swyddogion). Yn yr achosion hyn, rhaid i'r cynghorydd lleol 'alw i mewn' yn ysgrifenedig gais o'r fath a gan gyfeirio'r cais galw i mewn at y Prif Swyddog Cynllunio o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr yn rhoi gwybod iddo/iddi am y cais. Yn achos y ceisiadau hynny a elwir yn rhai economaidd "gyda brys" caniateir 14 diwrnod yn unig i chi i'w trosglwyddo i'r Pwyllgor. Gall y cynghorydd lleol sydd wedi galw'r cais cynllunio i mewn dynnu'n ôl eu cais i alw penderfyniad i mewn ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi Rhaglen y Pwyllgor drwy roi gwybod i'r swyddog achos a chadarnhau'n ysgrifenedig bod y cais yn cael ei dynnu'n ôl.

4.6.1.3 Nid yw cynllunio yn wyddor fanwl. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar farn gytbwys oddi mewn i gyd-destun polisi cadarn. Mae hefyd yn dra dadleuol oherwydd bod y penderfyniadau'n cael effaith ar fywyd bob dydd pawb a buddiannau preifat unigolion, tirfeddianwyr a datblygwyr. Caiff hyn ei ddwysáu gan natur agored y drefn (mae'n mynd o'i ffordd i wahodd y farn gyhoeddus cyn penderfynu) a natur gyfreithiol cynlluniau datblygu a rhybuddion penderfyniad. Mae'n bwysig, felly, bod y broses o wneud penderfyniadau yn agored ac eglur.~~4.6.1.3 Nid yw cynllunio yn wyddor fanwl. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar farn gytbwys oddi mewn i gyd-destun polisi cadarn. Mae hefyd yn dra dadleuol oherwydd bod ypenderfyniadau'n cael effaith ar fywyd bob dydd pawb a buddiannau preifat unigolion, tirfeddianwyr a datblygwyr. Caiff hyn ei ddwysáu gan natur agored y drefn (mae'n mynd o'i ffordd i wahodd y farn gyhoeddus cyn penderfynu) a natur gyfreithiol cynlluniau datblygu a rhybuddion penderfyniad. Mae'n bwysig, felly, bod y broses o wneud penderfyniadau yn agored ac eglur.~~

4.6.1.4 Un o amcanion allweddol y drefn gynllunio yw rheoli datblygiadau er lles y cyhoedd. Wrth gyflawni hyn, mae cynllunio o reidrwydd yn cael effaith ar fuddiannau tir ac eiddo, gwerth ariannol tiroedd ac ansawdd yr amgylchedd. Mae'n bwysig, felly, bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud penderfyniadau cynllunio yn agored pan gânt effaith ar y buddiannau hyn a bod y penderfyniadau yn ddiduedd, yn seiliedig ar farn ddoeth ac wedi eu gwneud am resymau y mae modd eu cyfiawnhau. Ni ddylai'r broses adael dim lle i awgrymu, gydag unrhyw gyfiawnhad, bod penderfyniad yn rhagfarnllyd, yn unochrog neu heb fod yn deg.

4.6.2 **PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

4.6.2.1 Weithiau bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael eu galw yn benderfyniadau rheoleiddiol neu led-farnwrol ac mae hyn yn golygu fod rhaid i'r rhai

sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath4.6.2.1 Weithiau bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael eu galw yn benderfyniadau rheoleiddiol neu led-farnwrol ac mae hyn yn golygu fod raid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath

- 4.6.2.1.1 ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol
- 4.6.2.1.2 anwybyddu ystyriaethau amherthnasol neu rai y tu allan i'r maes cynllunio
- 4.6.2.1.3 gweithredu'n ddiduedd, yn deg a pheidio ystyried unrhyw ystyriaethau gwleidyddol

4.6.2.2 Mae cyfraith cynllunio yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Statudol oni bai fod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dangos fel arall. Mae'r pwyslais wrth benderfynu ar geisiadau ar drefn 'yn ôl cynllun'.

4.6.2.3 Dibynna'r gyfundrefn gynllunio ar ystyried cynigion preifat yn erbyn lles cyffredinol y cyhoedd. Yn aml mae llawer yn y fantol yn y broses hon a bydd y rhai sy'n rhan ohoni yn aml yn tynnu'n groes iawn i'w gilydd. 4.6.2.3 Dibynna'r gyfundrefn gynllunioar ystyried cynigion preifat yn erbyn lles cyffredinol y cyhoedd. Yn aml mae llawer yn y fantol yn y broses hon a bydd y rhai sy'n rhan ohoni yn aml yn tynnu'n groes iawn i'w gilydd.

4.6.2.4 Mae'n ddyletswydd ar y bobl hynny sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio i ystyried sylwadau ddaw i olwg yr awdurdod cynllunio lleol o ganlyniad i ymgynghori gyda chyrff â diddordeb neu o ganlyniad i rybudd cyhoeddus neu hysbysu cymdogion. Wrth bwyso a mesur mae angen penderfynu pa sylwadau sy'n berthnasol i'r penderfyniad a pha bwysau i osod arnynt. Ni ddylai'r Pwyllgor ddod i gasgliad hyd oni fydd holl ffeithiau wedi'u cyflwyno yn adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor.

4.6.2.5 Rhaid i Gynghorwyr beidio â gwneud ymrwymiad ynghylch unrhyw fater cynllunio cyn ei ystyried yn y Pwyllgor. Mae'n cael ei dderbyn, fodd bynnag, y bydd ymgeiswyr, asiantiaid a gwrthwynebwyr o bryd i'w gilydd yn mynd i ben Cynghorwyr unigol ynghylch cynigion cynllunio. Amcan y rheolau hyn yw cynorthwyo Cynghorwyr i drin digwyddiadau o'r fath a chawsant eu llunio i sicrhau cadw cywirdeb y drefn benderfynu.

4.6.2.6 Gallai peidio â dilyn y Rheolau hyn, heb reswm da, fod yn ystyriaeth mewn ymchwiliadau i achosion posibl o gamweinyddu neu mewn ymchwiliad i ymddygiad Cynghorwyr ac/neu Swyddogion.4.6.2.6Gallai peidio â dilyn y Rheolau hyn, heb reswm da, fod yn ystyriaeth mewn ymchwiliadau i achosion posibl o gamweinyddu neumewn ymchwiliad i ymddygiad Cynghorwyr ac/neu Swyddogion.

4.6.3 **TRAFODAETHAU RHAGARWEINIOL (CYN GWNEUD PENDERFYNIAD) SWYDDOGION GYDAG YMGEISWYR**

4.6.3.1 Mewn unrhyw drafodaethau ar faterion cynllunio, eglurir bob amser ar y dechrau na fydd trafodaeth o'r fath :

- yn ymrwymo'r awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad penodol, a
- bod unrhyw sylwadau yn cael eu mynegi ar sail barn broffesiynol y Swyddogion ar y pryd ond heb ymrwymo'r awdurdod cynllunio lleol i unrhyw benderfyniad arbennig.

4.6.3.2 Bydd unrhyw gyngor a roddir :



**Formatted:** Indent: Left: 0 cm, First line: 0 cm

**Formatted:** No bullets or numbering, Tab stops: 1.25 cm, Left + Not at 3.81 cm

**Formatted:** Indent: Left: 0.5 cm, Hanging: 0.75 cm, Tab stops: 1.25 cm, Left + Not at 3.81 cm

- yn gyson ac yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill.
- yn ddiduedd a'r gorau y gall swyddog ei roddi dan yr amgylchiadau, a
- bydd yn ceisio dwyn sylw at unrhyw broblemau amlwg.

4.6.3.3 Ni chaiff Cynghorydd – p'un a ydynt yn gwasanaethu ar y Pwyllgor ai peidio - gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Swyddogion gydag ymgeiswyr ar unrhyw adeg cyn penderfynu ar y cais. ~~Pan fo hynny'n digwydd, mae modd cyflwyno cwyn am y Cynghorydd i Swyddog Monitro'r Cyngor.~~

4.6.4 **CYNGHORWYR YN LOBÏO AC YN CAEL EU LOBÏO**

4.6.4.1 Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor

4.6.4.1.1~~(i)~~ Mae ymgeiswyr, gwrthwynebwyr ac eraill â diddordeb yng nghanlyniad ceisiadau cynllunio yn debygol o gysylltu gyda Chynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor. Oherwydd natur led-farnwrol neu reoleiddiol penderfyniadau cynllunio, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ganiatáu i neb eu lobïo - pa un ai o blaid neu yn erbyn cais. Os digwydd hynny, dylent hysbysu'r person sy'n ceisio pwyso arnynt, os bydd iddynt drafod y cais gyda'r person hwnnw, y gall hynny eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y penderfyniad ar y cais. Yn lle hynny, dylid cynghori darpar lobïwyr i gysylltu gyda'u Cynghorydd lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio.

4.6.4.1.2~~(ii)~~ Ni ddylai cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor drefnu cefnogaeth neu wrthwynebiad lleol i gynnig cynllunio os ydynt am gymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais yn ddiweddarach.

4.6.4.1.3~~(iii)~~ Wrth ystyried yr angen i wneud penderfyniadau'n ddiduedd, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ffafrio, na rhoi'r argraff o ffafrio, unrhyw berson, cwmni, grŵ~~w~~p nac ardal, na datgan cyn y cyfarfod pa ffordd y bwriadant bleidleisio. Byddai gwneud hynny heb gael yr holl wybodaeth a sylwadau perthnasol yn annheg a niweidiol. Os bydd Cynghorydd yn teimlo y byddai'r cyhoedd yn credu iddynt ddod i farn bendant ar y mater neu gais cynllunio cyn y cyfarfod, neu fod person â diddordeb wedi pwyso arnynt, ni ddylent gymryd rhan yn y drafodaeth, na phleidleisio ar y mater. Nid yw hyn yn cael effaith ar eu hawl i annerch y Pwyllgor yn ôl darpariaeth adran 5.2 y rheolau hyn (4.6.5.2).

4.6.4.1.4~~(iv)~~ Pan fo'r Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn credu bod Cynghorydd wedi gwneud drwg i'w sefyllfa trwy fynegi barn bendant ar gais cyn i'r Pwyllgor benderfynu arno, bydd y Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn hysbysu'r Cynghorydd y byddai'n amhriodol iddo gymryd rhan yn y drafodaeth, neu bleideisio ar y cais. Gyda'r Cynghorydd, fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol - ond bydd yn wynebu sgriwtini o'r tu allan.

4.6.4.2 ~~Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor~~

Formatted: Indent: Left: 0 cm, First line: 0 cm

Ni ddylai ymgeiswyr, gwrthwynebwyr nac unrhyw un sydd â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar gais cynllunio lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor ac ni ddylai'r Cygnhorwyr rheini adael i'w hunain gael eu lobïo. Ni ddylai Cynghorwyr - p'un a ydynt ar y Pwyllgor ai peidio - lobïo Cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor. ~~Ni ddylai~~

ymgeiswyr, gwrthwynebwyr nac unrhyw un sydd â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar gais cynllunio lobïo Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor. Os oes rhywun yn cysylltu gyda'r Cynghorwyr hyn yna dylai'r Cynghorwyr roi gwybod i'r sawl sy'n lobïo y dylent un ai gysylltu gydag un o'u Cynghorwyr lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu gyda'r Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio. Os ydyw cynghorydd o'r fath yn cael ei lobïo yna ni ddylai lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor ac ni fydd â'r hawl i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

4.6.4.3 Cynghorwyr Lleol

(4.6.4.3.1 Mae gwahaniaethau i'r rheolau l sy'n ymddangos yn 4.6.4.1 (i) a 4.6.4.2 yng nghyswllt y Cynghorydd lleol, h.y. unrhyw un o'r Cynghorwyr y mae'r datblygiad arfaethedig yn eu ward.

(4.6.4.3.2) Os nad yw'r Cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor yna mae'n iawn i ymgeisydd, i wrthwynebydd neu unrhyw un arall â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar y cais cynllunio lobïo'r Cynghorydd lleol hwnnw. Os ydyw'r cynghorydd lleol yn cael ei lobïo a chyda'r amod nad oes ganddo ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr, yna bydd â'r hawl i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor a siarad yn y Pwyllgor. Fodd bynnag, ni ddylai ef/hi ei hun lobïo, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor.

(4.6.4.3.3.) Os oes cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, yna bydd darpariaethau rheol 4.6.4.3.2. uchod yn berthnasol iddynt a gall o/hi annerch y Pwyllgor ond **ni** fydd ganddo/ganddi'r hawl naill ai i gynnig neu i eilio unrhyw argymhelliad nac ychwaith i bleidleisio ar y cais. Ond gall o/hi os ydynt yn dymuno, gyfeirio'r person sy'n ceisio eu lobïo i gynghorydd arall sydd ddim ar y Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, bydd cynghorydd o'r fath yn cael ei ystyried fel cynghorydd lleol. ,

(4.6.4.3.4.iv) Ni all y Cynghorwyr lleol gyflwyno sylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor na chwarae rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio os oes ganddynt ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr. Bydd hyn yn berthnasol – p'a un a ydynt yn aelodau ai peidio o'r Pwyllgor. Os ydyw cynghorydd lleol yn cael ei hun yn y sefyllfa hon dylai gyfeirio unrhyw lobïwr at gynghorydd arall sydd ddim yn aelod o'r Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, bydd cynghorydd o'r fath yn cael ei ystyried fel cynghorydd lleol.

4.6.4.4 Pan fo llythyrau hysbysu cymdogion yng nghyswllt cais cynllunio yn cael eu hanfon i eiddo heb fod yn yr un ward â safle'r cais yna gall Cynghorwyr sy'n cynrychioli'r eiddo dan sylw siarad fel cynghorwyr lleol yn y Pwyllgor. Dim ond yr hawl i siarad yn y Pwyllgor a roddir dan y rheol hon ac nid yw'n rhoddi unrhyw hawliau eraill i'r cynghorydd dan sylw fel cynghorydd lleol.

## 4.6.5 TREFNIADAU SIARAD AC EISTEDD YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

4.6.5.1.1 Pryd bynnag y byddant yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor dylai cynghorwyr nad ydyntsydd heb fod ar y Pwyllgor eistedd hollol ar wahân i gynghorwyr sydd ar y

Pwyllgor – p'a un a ydynt yn bwriadu annerch y Pwyllgor ai peidio. Ni ddylent siarad â'r cynghorwyr hynny sydd ar y Pwyllgor ac a fydd yn gwneud penderfyniadau. Pwrpas y rheol hon yw pwysleisio natur lled-farnwrol trafodaethau'r Pwyllgor ar geisiadau cynllunio.

4.6.5.1.2. Ac eithrio siarad fel cynghorydd lleol, ni chaniateir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gymryd rhan yn y drafodaeth ar gais onid ydynt wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau sylweddol blaenorol gan y Pwyllgor ar y cais hwnnw. Mae ystyriaeth sylweddol yn golygu lle cafwyd cyflwyniad gan y swyddog ar y cais, unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ar rinweddau'r cais neu ymweliad swyddogol â'r safle y mae wnelo'r cais â fo.

4.6.5.2 Bydd yr hawl i annerch y Pwyllgor yn berthnasol hefyd i aelodau o'r Pwyllgor (gan gynnwys cynghorydd lleol):

- sydd wedi cael ei lobïo, neu
- all fod eisoes wedi mynegi barn bendant ar gais, neu
- sydd wedi siarad ar y cais ar lefel Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned , neu
- unrhyw gynghorydd sy'n cynrychioli ward arall fel y cyfeiriwyd at hynny yn 4.6.4.3.3(iii)(2).

Fodd bynnag, os caiff yr hawl hon ei hymarfer, dylai'r cynghorwyr ar y Pwyllgor gydymffurfio â pharagraff 4.6.5.1 uchod pan fydd y mater arbennig yn cael ei ystyried. Ni allant gymryd rhan yn y penderfyniad a dylent ddatgan yn y cyfarfod pam nad ydynt yn cyfranogi yn y penderfyniad.

4.6.5.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal busnes y cyfarfod yn unol â'r Atodiad sydd ynghlwm.

## 4.6.6 CYFARFODYDD CYHOEDDUS YN YMWNEUD Â CHYNIGION DATBLYGU

4.6.6.1 Ni ddylai swyddogion sy'n ymwneud â phrosesu neu benderfynu ar faterion cynllunio fynychu cyfarfodydd cyhoeddus mewn perthynas â chynigion datblygu neu geisiadau cynllunio a gyflwynwyd, onid yw'r cyfarfodydd hynny wedi eu trefnu gan yr Awdurdod, neu gyda'i gytundeb pendant. Gallai mynychu arwain at honiadau o ochri neu ragfarn o ran safbwynt arbennig. O'u cael yn y fath sefyllfa o fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan, neu gyda chydsyniad, yr Awdurdod, neu trwy ddamwain, yna dylai Swyddogion fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd, yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ffeithiol, yn gwrando ar sylwadau ac yn osgoi rhoi barn ar fanteision neu anfanteision y cynnig.

4.6.6.2 Yn yr un modd, dylai cynghorwyr sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau cynllunio fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd pan yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion cynllunio. Mewn cyfarfodydd o'r fath, dylai Cynghorwyr fod yn wyliadwrus wrth ddatgan eu barn ar rinweddau'r bwriad. Fe allent ddatgan rhagdueddiad ond ni ddylent fynegi unrhyw beth a all gael ei ddehongli un ai fel rhagbenderfyniad neu ragfarn o blaid neu yn erbyn y bwriad. Awgrymir y dylai Cynghorwyr sydd eisiau gwneud sylw egluro'n glir fod eu barn yn un amodol, yn seiliedig ar eu gwybodaeth ar y pryd ac y bydd angen iddynt ystyried y mater o'r newydd ac yng ngoleuni'r holl faterion perthnasol pan yn gwneud penderfyniad ar y cais. Mewn achos lle mae Cynghorydd sy'n aelod o'r Pwyllgor yn

dangos ei fod wedi cau ei feddwl i gais penodol (h.y. eu bod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw) neu fod ganddynt ragfarn am y bwriad, yna mae'r gyfraith yn eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y penderfyniad.~~4.6.6.2 Yn yr un modd, dylai cynghorwyr sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau cynllunio fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd pan yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion cynllunio. Mewn cyfarfodydd o'r fath rhaid peidio â datgan unrhyw farn ar fanteision nac ar anfanteision cynnig.~~

4.6.7 **CYNGHORWYR SY'N AELODAU O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION A HEFYD YN GYNGHORWYR TREF NEU GYMUNED**

~~Dylai'r cynghorwyr hyn benderfynu pa beth y dymunant ei wneud yng nghyswllt pob cais cynllunio all gael ei ystyried gan Gyngor Tref neu Gymuned (neu bwyllgor neu is-bwyllgor ohono).Y dewis yw:~~
~~**un ai :**~~

~~4.6.7.1 cymryd rhan yn nhrafodaeth y Cyngor Tref neu Gymuned ac yna, os dymunant, siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ôl y ddarpariaeth yn y Rheolau yma ond i beidio a chymryd rhan fel arall yn nhrafodaethau'r Pwyllgor na phleidleisio ar y cais, neu~~

~~4.6.7.2 peidio â chwarae rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor Tref neu Gymuned (a, gorau oll, peidio â bod yn yr ystafell pan fydd y mater yn cael ei drafod) ac yna gyfranogi'n llawn yn y Pwyllgor.~~

~~4.6.7.3 **Sylwer:** Mae gan y cynghorwyr hynny sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor ond sydd heb fod yn aelodau o'r Cynghorau Tref a Chymuned hawliau, fel aelodau eraill o'r cyhoedd, i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus y Cynghorau Tref a Chymuned. Mewn achosion o'r fath, sylwedyddion yn unig fydd y Cynghorwyr yng nghyfarfodydd y Cynghorau Tref neu Gymuned ac ni allant gymryd rhan ynddynt.~~

4.6.7.1 Nid oes unrhyw egwyddor mewn cyfraith i wahardd Cynghorydd sydd wedi cymryd rhan mewn mater cynllunio mewn Cyngor Tref neu Gymuned rhag cymryd rhan yn y mater fel aelod o'r Pwylgor Cynllunio **ar yr amod nad yw'r cynghorydd wedi penderfynu ymlaen llaw neu ddangos rhagfarn ar y cais.**

4.6.7.2 Mae hawl gan Gynghorwyr i ddangos rhagdueddiad ar fater ond mae'n rhaid iddynt sicrhau nad ydynt wedi rhagbenderfynu'r mater (h.y. nad ydynt wedi cau eu meddyliau i rinweddau'r bwriad). Yn syml, mae Cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor Cynllunio yn cael rhoi arwydd yn gyhoeddus o'u barn am unrhyw gais cyn y gelwir arnynt i wneud penderfyniad arno ond mae'n rhaid i'w sylwadau gael eu geirio'n rhesymol ac mae'n rhaid iddynt gydnabod nad ydynt wedi cau eu meddyliau i benderfynu ar y cais yn y dyfodol ar ei rinweddau.

Formatted: Font: Not Bold

4.6.7.3 Awgrymir yn gryf bod unrhyw Gynghorydd sydd ar y Pwyllgor Cynllunio ac sy'n teimlo bod rhaid iddynt wneud datganiad cyhoeddus ar gais cyn i'r cais hwnnw ddod gerbron y Pwyllgor, yn datgan bod eu barn yn un amodol; yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ganddynt ar y pryd; ac y bydd yn rhaid iddynt ystyried y mater o'r newydd ar sail pob ystyriaeth berthnasol i'r cais pan ddaw'r amser i wneud penderfyniad ar y cais (gweler hefyd 4.6.6.2 uchod).

4.6.8 **GOHEBIAETH Y MAE CYNGHORWYR YN EI DERBYN**

Os bydd cynghorwyr yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn uniongyrchol oddi wrth bobl â diddordeb yng nghanlyniad cais cynllunio, bydd raid iddynt sicrhau fod copi yn cael ei anfon i'r Adain Rheoli Cynllunio. Yna bydd yr Adain yn gwneud y canlynol:

4.6.8.1 os bydd amser yn caniatáu, anfon copi at yr ymgeisydd neu ei asiant/hasiant er mwyn rhoi'r cyfle iddo/iddi ymateb;

4.6.8.2 rhoi copi o'r holl sylwadau ar y ffeil Gynllunio;ac

4.6.8.3 os bydd amser yn caniatáu, sicrhau fod yr adroddiad i'r Pwyllgor yn cyfeirio at yr ohebiaeth a dderbyniwyd.

4.6.9 **COFRESTRU A DATGAN DIDDORDEB**

Mae'r Gyfraith a Chodau Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Cynghorwyr a swyddogion ar y materion hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheiny sy'n delio â cheisiadau cynllunio a rhaid eu dilyn bob amser.

4.6.10 **CYNGHORWYR A SWYDDOGION YN CYFLWYNO CYNIGION DATBLYGU**

4.6.10.1 Gall cynigion Cynghorwyr mewn gwasanaeth (pa un a ydynt yn gynghorwyr ar y Pwyllgor ai peidio) a Swyddogion a'u cyfeillion agos a pherthnasau agos yn hawdd beri amheuon o afreoleidd-dra. Mae'n hanfodol trin y cyfryw gynigion mewn ffordd sy'n osgoi amgylchiadau a allai beri cyhuddiadau o ffafriaeth. Yn y rheolau hyn, mae "perthnasau" yn golygu gwr/gwraig neu bartner, rhiant, nain/taid, mab/merch, wyr/wyres, brawd neu chwaer.

4.6.10.2 Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor eu hystyried ar geisiadau cynllunio sydd yn y categorïau isod ac ni fydd swyddogion yn delio gyda nhw dan 'bwerau dirprwyol':

- ceisiadau gan gynghorydd cyfredol neu rywun sy'n perthyn iddo/iddi
- ceisiadau lle mae cynghorydd cyfredol yn gweithredu fel asiant neu pan fo wedi paratoi unrhyw ran o'r cais neu'r cynlluniau
- ceisiadau gan swyddog perthnasol neu berthynas iddo/iddi. Dan y rheol hon, mae "swyddog perthnasol" yn golygu'r Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr, yr holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol, yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, yr holl swyddogion sy'n gweithio yn yr Adran Gynllunio a'r holl swyddogion eraill y mae eu gwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses rheoli datblygu (megis swyddogion yn yr Adran Briffyrdd ac Iechyd Amgylchedd yr ymgynghorir â nhw neu gyfreithwyr sy'n cynghori ac yn cynrychioli'r Adran Gynllunio mewn materion rheoli datblygu),
- ceisiadau lle mae'r ymgeisydd yn ffrind agos i Gynghorydd cyfredol neu swyddog perthnasol

Dan y rheol hon, bydd "cais cynllunio" yn golygu pob cais y mae'n rhaid ei wneud trwy statud ac a fyddai (oni bai am y rheol hon) yn cael eu penderfynu dan Gyfansoddiad y Cyngor gan y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio. Byddai'r rhain yn cynnwys ceisiadau am ganiatâd amlinellol, cymeradwyo materion a gadwyd, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth, caniatâd dan Orchmynion Cadw Coed ac ati.

4.6.10.3 Bydd Swyddogion Cynllunio yn ymdrechu i ganfod a dwyn sylw at geisiadau o'r fath a byddant wedyn yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Swyddog Monitro'r Awdurdod.Ni ddylai cynghorwyr cyfredol sy'n cyflwyno ceisiadau, sy'n

gweithredu fel asiantiaid neu sy'n paratoi cynllunio neu y mae eu perthnasau'n cyflwyno cieisiadau, gymryd unrhyw rhan yn y broses o wneud penderfyniad ynglyn â'r cais hwnnw.

4.6.10.4 Dylai'r Swyddog Monitro gadarnhau yn yr adroddiad i'r Pwyllgor hwnnw fod cais o'r fath wedi cael ei brosesu yn y modd arferol ac, felly, rhaid i'r Swyddog gael cyfle i adolygu'r ffeil.

4.6.10.5 Ni ddylai Swyddogion sy'n ymwneud â'r broses rheoli datblygu baratoi cynlluniau na gweithredu fel asiant i unrhyw berson na chorff (gan gynnwys Aelodau o'u teuluoedd eu hunain) sy'n mynd ar ôl mater cynllunio gyda'r Cyngor. Os byddant yn cyflwyno cynnig ar eu rhan eu hunain, ni ddylent fod yn rhan o brosesu'r cais hwnnw.

4.6.11 **ADRODDIADAU SWYDDOGION I'R PWYLLGOR**

4.6.11.1 Bydd adroddiad ysgrifenedig llawn, gan gynnwys asesiad rhesymedig o'r cynnig ac argymhelliad gyda chyfiawnhad, ynghlwm wrth bob cais cynllunio sy'n mynd gerbron y Pwyllgor.

4.6.11.2 Bydd unrhyw faterion newydd sydd wedi codi rhwng adeg paratoi'r adroddiad a dyddiad cyfarfod y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno ar lafar a bydd cyfeiriadau at hynny yn y cofnodion.

4.6.11.3 Bydd ffeil pob cais cynllunio yn cynnwys adroddiad manwl ar ddigwyddiadau drwy gydol oes y cais; yn arbennig bydd yn cynnwys canlyniad cyfarfodydd neu sgyrsiau arwyddocaol ar y ffôn.

4.6.11.4 Bydd yr un egwyddorion o gadw cofnodion da hefyd yn cael eu dilyn gyda materion gorfodi. Bydd rheolwyr yn yr Adain Rheoli Datblygu yn goruchwylio'r broses o gadw cofnodiadau yn barhaus.

4.6.12 **PENDERFYNU YN GROES I ARGYMHELLION SWYDDOGION**

4.6.12.1 Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu naill ai cymeradwyo neu wrthod datblygiad arfaethedig yn groes i argymhelliad Swyddog, bydd yr eitem yn cael ei gohirio hyd y cyfarfod dilynol fel bod cyfle i'r Swyddogion gyflwyno adroddiad pellach ar y mater. Rhaid i'r Pwyllgor nodi'r rhesymau dros ddymuno penderfynu yn erbyn argymhelliad y Swyddog. Dylai aelodau'r Pwyllgor lynu wrth y Rheolau hyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio a chymryd i ystyriaeth arweiniad a rydd swyddogion cynllunio a phleidleisio yn erbyn eu hargymhellion dim ond yn yr achosion hynny lle mae modd nodi rhesymau cynllunio gwirioneddol ac o bwys. Cedwir cofnod manwl o reswm(rhesymau) y Pwyllgor gan osod copi ar ffeil y cais. Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud ar fater yn groes i argymhelliad, gall hynny arwain at gostau apêl a bydd y Pwyllgor yn cofnodi'r bleidlais wrth benderfynu ar y cais waeth beth fo gofynion paragraff 4.1.18.5 y Cyfansoddiad

4.6.12.2 Yn adroddiad pellach y swyddog, ceir manylion am y rhesymau a gyflwynwyd gan yr aelodau, nodir a ydyw'r rhesymau hynny, yn eu barn nhw, yn faterion cynllunio gwirioneddol ac o bwys a thrafodir y materion defnydd tir a godwyd.

4.6.12.3 Pan fo Cynghorwyr eisiau ychwanegu neu newid amodau a argymhellwyd gan Swyddogion, dylid gwahodd y Swyddogion i lunio amodau a'u cyflwyno, i'w cymeradwyo, yn y cyfarfod dilynol oni bai fod y llunio yn rhwydd a bod modd cytuno arno yn y cyfarfod gwreiddiol.

4.6.12.4 Pan fo swyddogion cynllunio yn methu ag amddiffyn penderfyniadau o'r fath ar apêl (oherwydd gofynion rheolau ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi) byddant yn egluro'r mater hwn i'r Pwyllgor cyn cymryd pleidlais derfynol ar y mater. Mewn achosion o'r fath, bydd y Pwyllgor yn enwebu (o leiaf) dau o aelodau a bleidleisiodd yn groes i'r argymhelliad i fynychu unrhyw apêl ac egluro yn yr apêl benderfyniadau'r Pwyllgor a'r rhesymau amdanynt. Y ddau hyn fel arfer fydd cynigydd ac eilydd y cynnig sy'n groes i argymhelliad y swyddog.

4.6.13 **APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R CYNGOR**

4.6.13.1 Bydd y swyddogion yn trefnu ac yn gyffredinol yn ymddangos fel tystion mewn apeliadau cynllunio ac mewn cyfarfodydd eraill ar ran y Cyngor. Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd raid penodi ymgynghorwyr i ymddangos ar ran y Cyngor.

4.6.13.2 Wrth gyflwyno tystiolaeth, bydd swyddogion yn cyflwyno'r achos gorau bosib ar ran y Cyngor ond ar yr un pryd, bydd yn cydymffurfio gyda chôd ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi.

4.6.13.3 Pan fo'n bosib apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed yn groes i argymhelliad swyddogion a'r swyddogion eisoes wedi dweud wrth y Pwyllgor na fedrant amddiffyn penderfyniad o'r fath, bydd y swyddogion yn cyflwyno adroddiad ar yr apêl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Y Cynghorwyr fydd yn gyfrifol wedyn am gyflwyno achos y Cyngor yn yr apêl.

4.6.14 **YMDDYGIAD SWYDDOGION**

4.6.14.1 Mae Côd Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol (RTPI) yn ganllaw i Swyddogion sy'n Gynllunwyr Trefol Siartredig. Bydd raid i'r holl Swyddogion, pa un a ydynt yn Aelodau o'r Sefydliad ai peidio, gadw at yr un egwyddorion sef –

(4.6.14.1.1 Gweithredu yn fedrus, yn ddidwyll ac yn gywir;

(4.6.14.1.2) Ymarfer eu barn broffesiynol annibynnol yn eofn ac yn ddiduedd hyd eithaf eu gallu a'u dealltwriaeth;

(4.6.12.1.3) Cyflawni eu dyletswydd i'w cyflogwyr, cleientiaid, cydweithwyr ac eraill gyda dyledus ofal ac ymroddiad yn unol â darpariaethau'r Côd uchod;

(4.6.12.1.4) Peidio â dwyn anfri ar y proffesiwn nac ar y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol;

(4.6.12.1.5) Peidio â datgelu na defnyddio gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol yn ystod eu gwaith i'w mantais eu hunain na'r Awdurdod;

(4.6.14.1.6) Gwrthod pob disgownt, anrheg neu gomisiwn sy'n cael ei gynnig gan unrhyw drydydd person mewn perthynas â'u gwaith fel cynllunwyr proffesiynol.

4.6.15 **<u>Y BERTHYNAS RHWNG CYNGHORWYR A SWYDDOGION</u>**

4.6.15.1 Er mwyn creu perthynas broffesiynol gadarn rhwng Swyddogion a chynghorwyr, bydd raid i'r naill barchu a deall swyddogaethau'r llall yn y broses benderfynu.

4.6.15.2 Rhaid i gynghorwyr barchu cyngor swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor neu pan fônt yn delio gyda cheisiadau dirprwyol ac ni chânt bwyso ar swyddogion am argymhelliad neu benderfyniad arbennig. Dylai unrhyw swyddog sy'n ystyried bod hyn wedi digwydd ddelio gyda'r mater yn unol ag adran 5.3.4 y Cyfansoddiad hwn (Bwlio ac Ymddwyn yn Ymosodol neu'n Fygythiol).

4.6.16 **<u>YMWELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD</u>**

4.6.16.1 Mae protocol ar ymweliadau safle yn yr Atodiad sydd ynghlwm wrth y rheolau hyn.

4.6.17 **<u>ANRHEGION A LLETYGARWCH</u>**

4.6.17.1 Mae cyngor i gynghorwyr ar gofrestru anrhegion a lletygarwch yng Nghôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau a bydd raid glynu wrth y Côd.

4.6.17.2 Yn ystod gwneud eu gwaith, mae'n bosib y cynigir i Swyddogion letygarwch gan bobl â diddordeb mewn cynigion cynllunio. Rhaid i Swyddogion wrthod pob cynnig o'r fath. Onid oes modd osgoi derbyn lletygarwch, rhaid i Swyddogion sicrhau nag fyddant yn derbyn mwy na sydd raid a datgan ei dderbyn i'r Swyddog Monitro mor fuan ag y bo modd.

4.6.18 **<u>HYFFORDDIANT</u>**

4.6.18.1 Ni all yr un aelod ymuno â'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion hyd oni fydd wedi mynychu hyfforddiant cynefino. Y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fydd o bryd i'w gilydd yn penderfynu ar gynnwys yr hyfforddiant cynefino. Wedyn, cyflwynir hyfforddiant i ddiweddaru'r wybodaeth a'r sgiliau – bydd hynny'n digwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn rhoi sylw i newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu i'r weithdrefn.

4.6.18.2 Sicrha Cynghorwyr eu bod yn mynychu o leiaf 3 achlysur hyfforddi dros gyfnod o ddwy flynedd er mwyn cadw ar y blaen i'r materion cynllunio ac yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol yn y broses benderfynu. Bydd cofnodion presenoldeb yn cael eu monitro a'u cyflwyno i'r Cyngor. Bydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion sy'n methu â mynychu nifer benodol a sylfaenol o sesiynau hyfforddi yn cael ei dynnu oddi ar y Pwyllgor neu'n cael ei atal rhag bod arno am gyfnod trwy bleidlais yn y Cyngor llawn pan gyflwynir i'r Cyngor adroddiad ar y cofnod mynychu.

**ATODIAD -**

4.6.19 **PROTOCOL AR GYFER YMWELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD**

4.6.19.1 **MEINI PRAWF AR GYFER YMWELIADAU SAFLE**

4.6.19.1.1Mae'n bwysig bod meini prawf yn cael eu sefydlu ar gyfer penderfynu pryd mae modd cyfiawnhau ymweliad â safle ac ystyried dull gweithredu ymweliadau o'r fath. Yn hyn o beth, dylid ystyried y pwyntiau canlynol.

(i) Gall ymweliadau safle :

- oedi'r broses benderfynu, ac
- efallai arwain at apêl i'r 'Arolygiaeth Gynllunio' ar sail 'methu â phenderfynu';
- gall effeithio ar berfformiad y gwasanaeth o ran ei darged 8 wythnos a pheri costau ychwanegol i'r Gwasanaeth ac efallai i'r ymgeis(-ydd/-wyr) fel ei gilydd.

(ii) Mae angen cysondeb wrth benderfynu ar ymweld â safle a sut i gynnal ymweliad o'r fath. Fel arall, gall adael yr Awdurdod yn agored i'r cyhuddiad fod ymweliadau safle yn fympwyol neu efallai yn ddyfais lobïo.

- (iii) Rhaid trefnu ymweliadau â safleoedd yn ofalus a'u mynychu yn dda a sefydlu'n glir ar y cychwyn cyntaf beth yw eu diben, eu ffurf a'u trefniadau a chadw at hynny wedyn.

- (iv) Rhaid osgoi ymweliadau â safleoedd onid yw'r manteision yn sylweddol. Dylai'r prawf 'mantais sylweddol' fod yn berthnasol ym mhob achos. Ni ddylai ymweliadau â safleoedd fod yn angenrheidiol onid yw'n anodd gweld a dirnad beth fydd effaith y datblygiad arfaethedig h.y. pan fo aneglurder y cais yn gwneud asesiad gweledol yn angenrheidiol.

- (v) Gall ymweliadau â safleoedd fod yn briodol i ystyried ceisiadau mawr, mwy cymhleth.

- (vi) os yw'r Pwyllgor o'r farn bod angen ymweld â safle cyn y gellir gwneud penderfyniad ar y cais, yna dim ond yr aelodau hynny a aeth ar yr ymweliad swyddogol â'r safle fedr gymryd rhan a phleidleisio ar y cais pan fydd yn cael ei drafod ymhellach gan y Pwyllgor.

  Bydd cyfeiriad at argymhelliad swyddog i ymweld â safle yn ymddangos yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.

4.6.19.1.**2Ni ddylid** ymweld â safle yn yr achosion canlynol:

- (i) I ystyried anghydfod ynghylch ffiniau neu rhwng cymdogion yn unig
- (ii) I ystyried gwrthwynebiadau ar sail cystadleuaeth.

- (iii) I ystyried gwrthwynebiadau a godwyd ar sail gostwng gwerth eiddo.
- (iv) I ystyried unrhyw faterion eraill sydd heb fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol
- (v) Pan fo'r cynghorwyr eisoes wedi ymweld â'r safle yn y 12 mis cynt, onid yw'r amgylchiadau yn eithriadol.

4.6.19.2 **CEISIADAU AM YMWELIADAU Â SAFLEOEDD**

I bwrpas sefydlu trefn strwythuredig i'r ymweliadau a safleoedd bydd raid glynu wrth y drefn ganlynol:-

4.6.19.2.1 Rhaid cyflwyno pob cais am ymweliad â safle yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Cynllunio / Rheolwr Rheoli Cynllunio erbyn 1.00pm ar y diwrnod gwaith olaf cyn Cyfarfod y Pwyllgor. Rhaid i unrhyw gais llafar ddaw cyn cyfarfod y Pwyllgor gael ei ddilyn gyda chais ysgrifenedig cyn i Gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ddechrau. Bydd y rheswm dros gynnal yr 'ymweliad safle' yn cael ei ddatgan yn eglur a'i gyflwyno felly i'r Pwyllgor Cynllunio.

4.6.19.2.2 Os bydd cais yn cael ei wneud am 'ymweliad safle' yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, unwaith eto, bydd y rhesymau dros gynnal yr ymweliad yn cael eu cofnodi yn y cofnodion.

4.6.19.3 **DULLIAU GWEITHREDU YN YSTOD YR YMWELIAD Â'R SAFLE**

4.6.19.3.1 Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am yr ymweliad â'r safle ond ni fydd yn cael bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad i gyflwyno unrhyw sylwadau.

4.6.19.3.2 Prif ddiben yr ymweliad â'r safle fydd i'r Swyddogion Cynllunio egluro'r materion cynllunio sy'n berthnasol i'r achos ac i'r cynghorwyr weld y safle.

4.6.19.3.3) Ni fydd unrhyw drafodaeth yn ystod yr ymweliad â'r safle o ran rhinweddau'r cais. Rhaid peidio â defnyddio'r ymweliad â'r safle fel fforwm i drafodaethau.

4.6.19.3.4 Y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd fydd yn cynnal ac yn arwain yr ymweliad â'r safle. Os bydd naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn absennol, bydd yr Aelodau yn cytuno ar Gadeirydd dros dro.

4.6.19.3.5 Bydd y Cadeirydd yn agor y Cyfarfod yn ffurfiol a nodi'r rhesymau dros gynnal yr ymweliad.

4.6.19.3.6 Gofynnir i'r swyddog cynllunio amlinellu'r cynnig a'r prif faterion.

4.6.19.3.7 Bydd y cynghorwyr yn edrych ar y safle, ar yr adeiladau perthnasol a'r cyffiniau yn ôl yr angen.

4.6.19.3.8 Bydd y cynghorwyr yn cael cyfle i godi cwestiynau neu ofyn am eglurhad ar ffeithiau gyda'r swyddog cynllunio a/neu cynghorydd(-wyr) lleol.

4.6.19.3.9 Bydd cynghorwyr lleol y Ward y mae'r cais ynddi (os yn bresennol) yn cael cyfle i roi sylwadau ar y cynnig.

4.6.19.3.10 Cedwir nodiadau o'r cyfarfod ar y safle a chânt eu cofnodi felly yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion pan fydd y cais yn cael ei drafod.

4.6.19.4 **ADOLYGU PENDERFYNIADAU'N RHEOLAIDD**

4.6.19.4.1~~(i)~~ Mae Adroddiad y Comisiwn Archwilio '*Building Quality*' yn argymell bod cynghorwyr yn ymweld â sampl o hawliau cynllunio sydd wedi eu gweithredu i asesu ansawdd y penderfyniadau. Dylai adolygiad o'r fath wella ansawdd a chysondeb penderfyniadau a, thrwy hynny, atgyfnerthu ymddiriedaeth y cyhoedd, a chynorthwyo gydag adolygiadau o bolisïau cynllunio.

4.6.19.4.2~~(ii)~~ Dylid cynnal yr adolygiad yn flynyddol. Dylai gynnwys enghreifftiau o amrywiaeth o gategorïau o ddatblygiad gan gynnwys ceisiadau y penderfynodd Swyddogion arnynt trwy bwerau dirprwyol.

4.6.20 **<u>SWYDDOGAETH CADEIRYDD Y PWYLLGOR A CHYNNAL BUSNES Y PWYLLGOR</u>**

4.6.20.1 **<u>Ethol Cadeirydd / Is-Gadeirydd</u>**

4.6.20.1.1 ~~(i)~~ Bydd y cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor yn ethol Cadeirydd yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor. Ar yr un pryd, bydd y cynghorwyr yn ethol Is-Gadeirydd am yr un cyfnod neu hyd oni fydd y naill neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, yn ymddiswyddo.

4.6.20.1.2 ~~(ii)~~ Pan fo'r Cadeirydd yn absennol am y cyfan o gyfarfod y Pwyllgor neu am ran ohono, yna bydd yr Is-Gadeirydd yn cymryd y Gadair. Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd bydd y Pwyllgor yn dewis un o'u haelodau sy'n bresennol i fod yn Gadeirydd am y cyfarfod hwnnw neu am ran ohono hyd oni fydd y Cadeirydd (neu'r Is-Gadeirydd) yn dychwelyd.

4.6.20.2 **<u>Cyfrifoldeb y Cadeirydd</u>**

Y rhain fydd cyfrifoldebau'r Cadeirydd :

4.6.20.2.1 llywyddu yn y cyfarfodydd fel bod modd gwneud gwaith y Pwyllgor yn effeithiol gan roddi sylw priodol i hawliau'r Cynghorwyr, y swyddogion ac i fudd y gymuned yn gyffredinol.

4.6.20.2.2 sicrhau bod cyfarfod y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn briodol fel Fforwm i drafod materion cynllunio a gorchmynion statudol yn unig.

4.6.20.2.3 sicrhau fod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal yn unol â'r darpariaethau perthnasol yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

4.6.20.2.4 cefnogi'r swyddogion cynllunio a chynrychiolydd y Swyddog Monitro i atgoffa'r aelodau ynglyn â'u dyletswydd i lynu wrth drafodaethau cynllunio gwirioneddol ac o bwys yn ystod y broses o wneud penderfyniad.

4.6.20.3 **Swyddogaeth Swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor**

4.6.20.3.1 Bydd y swyddogion yn rhoddi cyngor proffesiynol i'r Cadeirydd fel bod modd iddo gyflawni ei ddyletswyddau yn y swydd.

4.6.20.3.2 Bydd y swyddogion yn darparu cyngor fel a ganlyn :

(i) yn y cyfarfodydd rhagarweiniol cyn y Pwyllgor er mwyn briffio'r Cadeirydd yn llawn ar faterion a allai godi yn y cyfarfodydd;

(ii) mewn unrhyw gyfarfodydd ar ôl y Pwyllgor (os oes gofyn).

(iii) yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor pan fo cwestiynau'n cael eu gofyn i'r Cadeirydd i bwrpas ymateb.

(iv) mewn unrhyw gyfarfod a elwir gan swyddogion i drafod materion sy'n berthnasol i bynciau 'cynllunio' neu i bynciau 'gorchmynion'.

4.6.20.4 **Cynnal Cyfarfodydd o'r Pwyllgor**

(4.6.20.4.1) Bydd pob eitem sydd ar y rhaglen i bwrpas trafodaeth neu wybodaeth yn cael ei chyflwyno gan y Cadeirydd.

(4.6.20.4.2) Unwaith y bydd y Cadeirydd wedi cyflwyno'r eitem, bydd yn sicrhau cyfle i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem. Lle mae'r drefn siarad cyhoeddus yn berthnasol i gais penodol, bydd hyn yn digwydd cyn i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem.

(4.6.20.4.3) Yn gyntaf, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr lleol siarad yn dilyn adroddiad y swyddog. Ond gan ddibynnu ar a ydyw'r cynghorwyr lleol yn dymuno siarad o blaid yr eitem neu yn ei herbyn a chan ddibynnu ar a ydyw ar y Pwyllgor ai peidio.

(4.6.20.4.4) Wedyn bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr ymuno yn y drafodaeth yn y drefn honno sy'n cynrychioli dymuniad y cynghorwyr yn ôl dehongliad y Cadeirydd.

(4.6.20.4.5) Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn cydymffurfio gyda darpariaethau Cyfansoddiad y Cyngor a chyda darpariaethau perthnasol y Rheolau Gweithdrefn hyn.

(4.6.20.4.6) Bydd pob cynghorydd sy'n dymuno siarad yn cael cyfle i wneud hynny. Ni fydd cynghorwyr yn cael gwneud areithiau a bydd raid iddynt annerch y Pwyllgor ar faterion 'cynllunio' (h.y. ystyriaethau cynllunio perthnasol) a 'gorchmynion' yn unig. Gall y Cadeirydd dorri ar draws Cynghorydd sy'n gwneud datganiadau ailadroddus neu rai amherthnasol.

(4.6.20.4.7)Pan fo raid i swyddogion ymateb i sylwadau neu i gwestiwn gan gynghorydd, yna bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y swyddog yn cael cyfle i wneud hynny.

(4.6.20.4.8)Os ydyw'r Cadeirydd yn dymuno siarad fel cynghorydd lleol ar eitem benodol, yna bydd darpariaethau'r Cyfansoddiad yn ymwneud ag ef fel Cadeirydd yn union fel yr ymwnânt â'r holl gynghorwyr eraill.

(4.6.20.4.9)

(i) Ar ddiwedd y drafodaeth, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor bleidleisio ar y mater dan drafodaeth. Onid yw'r cynghorwyr yn anghytuno gydag argymhelliad y swyddog, byddant yn pleidleisio trwy godi dwylo.

(ii) Pan fo gwelliant yn cael ei gynnig a'i eilio yng nghyswllt argymhelliad swyddog, yna bydd raid pleidleisio ar y gwelliant yn gyntaf.

(4.6.20.4.10) Bydd raid i'r holl gynghorwyr a'r holl swyddogion barchu swyddogaeth y Cadeirydd. Bydd arweiniad y Cadeirydd ar yr holl faterion trefn yn y Pwyllgor yn derfynol ac ni fydd modd trafod ei benderfyniad. Bydd y Cadeirydd, bob amser, yn sicrhau y bydd yr holl gynghorwyr (gan gynnwys ef ei hun) a phob swyddog yn parchu'r protocol ar y berthynas rhwng aelodau a swyddogion a sicrhau hefyd bod y cyngor a roddo'r swyddogion yn y Pwyllgor yn cael ei barchu.

**4.6.21 Y Cyhoedd yn Siarad**

Hawl i Siarad

4.6.21.1 Rhaid i'r cais cynllunio fod ar raglen y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Os bydd y cais yn cael ei ohirio, ni fydd hawl i'r cyhoedd siarad os bydd cyfle wedi ei roi yn barod mewn Pwyllgor blaenorol lle cafodd y cais ei ystyried yn llawn.

4.6.21.2 Fe all y ddau ymgeisydd (neu eu hasiantiaid), a'r gwrthwynebwyr (neu eu hasiantiaid), siarad a does yna ddim meini prawf i'w bodloni ac eithrio cydymffurfio gyda gweithdrefn y Cyngor.

4.6.21.3 Fel arfer, dim ond un person sy'n cael siarad o blaid ac un person yn erbyn cais. Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn defnyddio ei ddisgresiwn i adael un siaradwr arall i'r ddwy 'ochr'. Fel arfer. ni fydd yn gwneud hyn ond pan fydd ceisiadau mawr lle mae yna wahaniaeth barn o fewn un 'ochr' (e.e. dau yn siarad yn erbyn cais am siop fawr lle mae un yn cynrychioli barn y gwerthwyr a'r llall yn cynrychioli barn rhai sy'n byw gerllaw). Mewn achosion o'r fath bydd yr 'ochr' arall yn cael caniatâd i ddau siaradwr neu ddwywaith yr amser arferol os ydynt eisiau defnyddio'r amser hwnnw.

4.6.21.4 Rhaid i unrhyw un sydd eisiau siarad roi'r hawl i'r Cyngor gyflwyno'i enw a'i rif cyswllt i bobl eraill (o'r un farn) sydd eisiau siarad fel y gallant gytuno pwy sy'n mynd i siarad a pha bethau sydd angen eu dweud ac ati. Os na fyddant yn cytuno, y person cyntaf ofynnodd i'r Cyngor am gael siarad fydd yn cael ei ddewis fel arfer.

4.6.21.5 Rhaid cyflwyno cais am y cyfle i siarad i'r Swyddog Gweinyddol yn yr Adran Gynllunio cyn yr amser cau sy'n cael ei nodi yn y llythyr o rybudd sy'n cael ei anfon at ymgeiswyr a phobl sy'n byw yn ymyl safle'r cais.

Yr amser a ganiateirFaint o amser i Siarad

4.6.21.6 Bydd y siaradwr yn cael siarad am hyd at 3 munud gerbron y Pwyllgor.

Lluniau ac ati

4.6.21.7 Does dim hawl gan y siaradwr rannu na dangos papurau yn y Pwyllgor. Rhaid i bob dim ar bapur fod wedi'i gyflwyno i'r Cyngor yn ystod y cyfnod statudol o roddi cyhoeddusrwyd i'r cais a byddant yn cael eu crynhoi yn adroddiad y Swyddog.

Y Drefn

4.6.21.8 Mae'r drefn lle mae aelodau'r cyhoedd yn siarad yn y Pwyllgor yn cael ei ddisgrifio yn y dogfennau priodol.

This page is intentionally left blank

# PAPUR / ENCLOSURE FF

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| CYFARFOD: | PWYLLGOR SAFONAU |
| DYDDIAD: | 12 MEDI 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD ATODOL DRAFFT |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | YMATEB I'R YMGYNGHORIAD |
| ADRODDIAD GAN: | PENNAETH SWYDDOGAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDIAETH/SWYDDOG MONITRO |
| SWYDDOG CYSWLLT: | LYNN BALL, PENNAETH SWYDDOGAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDIAETH/SWYDDOG MONITRO(est. 2586) |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Erbyn hyn dim ond disgresiwn cyfyngedig sydd gan Awdurdodau Lleol mewn perthynas â thalu lwfansau i Aelodau etholedig; gyda'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau yn awr yn cael eu gwneud gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

## 2. Y BROSES

Cyfeirir yr Aelodau at adroddiad blynyddol y Panel ym mis Rhagfyr 2012 ac yn arbennig at baragraffau 2.8, 2.9 a 2.10 ynghyd ag Atodiad 1 Adran 1 ac Adran 2 Tabl 2. Mae'r rhannau perthnasol ynghlwm yn **Atodiad 1.** Mae **Atodiad 2** yn gopi o benderfyniad y Cyngor Sir ynghylch cydnabyddiaeth ariannol, o gofio'r disgresiwn cyfyngedig sydd ganddo.

## 3. YMGYNGHORIAD

Cyflwynodd y Panel Adroddiad Atodol Drafft mewn llythyr dyddiedig 1 Awst 2013 ar daliadau i Aelodau Cyfetholedig Awdurdodau Lleol, trwy gyfrwng ymgynghoriad. Cylchredwyd hwn i Aelodau Cyfetholedig y Pwyllgor Safonau ac mae copi pellach ynghlwm yn **Atodiad 3**. Mae'r cynigion yn cael effaith ar Aelodau Cyfetholedig y Pwyllgor Safonau(yn ogystal ag Aelodau Cyfetholedig y Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini). Atgoffir yr Aelodau a effeithir bod ganddynt, yn unol â pharagraff 12(2)(b)(vi), "ganiatad arbennig" statudol fel rhan o'r drefn a bod y caniatâd hwnnw'n cael blaenoriaeth dros ddiddordeb sy'n rhagfarnu. O'r herwydd, caniateir i'r Aelodau Cyfetholedig gymryd rhan yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.

## 4. ARGYMHELLIAD

Penderfynu ymateb y Pwyllgor Safonau i'r ymgynghoriad a rhoi cyfarwyddiadau i'r Swyddog Monitro ymateb erbyn y dyddiad cau, sef 26 Medi 2013.

CC-015794-LB/184048

# ATODIAD / ENCLOSURE 1

Panel Annibynnol Cymru
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration
Panel for Wales

# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

## Adroddiad Blynyddol

Rhagfyr 2012

a bydd yn adolygu'r goblygiadau i'w fframwaith cydnabyddiaeth ariannol. I sicrhau eglurder ynglŷn â'r adroddiad hwn, mae'r Panel wedi penderfynu:

**Penderfyniad (3) Pan fydd cynghorau'n ymgymryd â threfniadau ar y cyd, bydd Uwch Gyflog cadeirydd y cydbwyllgor (os yw'n cael ei dalu) yn cael ei dalu gan ei gyngor. Bydd yr Uwch Gyflog hwn yn cael ei ystyried yn erbyn uchafswm y cyngor hwnnw.**

2.6 ***Arweinydd y Gwrthbleidiau*** **-** Mae fframwaith cyfredol y Panel yn darparu ar gyfer talu Uwch Gyflog i arweinyddion grwpiau gwleidyddol eraill, cyn belled â bod y grŵp yn bodloni'r gofyniad o fod â dim llai na deg y cant (10%) o holl aelodau'r cyngor. Yn unol ag Egwyddorion y Panel, ac er mwyn adlewyrchu rhai pryderon y dylai dyraniad y cyngor o Uwch Gyflogau gael ei weld yn deg ac yn ddiduedd, mae'r Panel wedi penderfynu ar y canlynol:

**Penderfyniad (4) Mae'n rhaid i'r cyngor dalu Uwch Gyflog i Arweinydd y grŵp gwrthblaid mwyaf (yn amodol ar ofyniad 10%).**

**Cyflogau Dinesig**

2.7 Mae'r Panel yn deall bod llawer o brif gynghorau yn cefnogi swyddogaethau'r pennaeth dinesig/dirprwy bennaeth dinesig trwy gyllideb ganolog i dalu am gostau unrhyw eitemau na fyddai'n rhesymol i'r Cyflog Dinesig dalu amdanynt. Mae'r cyflog hwn yn cynnwys unrhyw dreuliau a gaiff eu gwario'n bersonol na chânt eu talu fel arall gan eu hawdurdodau yn uniongyrchol.

**Aelodau cyfetholedig**

2.8 Derbyniodd y panel sylwadau y gallai'r uchafswm blynyddol sy'n daladwy (10 diwrnod) fod yn rhy gyfyng. Felly, mae'r Panel wedi penderfynu y bydd gan bob cyngor yr hawl i bennu'r uchafswm yn ôl ei amgylchiadau.

2.9 Mae'r Panel yn cydnabod y gall yr amser a dreulir yn mynychu digwyddiadau hyfforddi wedi'u hawdurdodi, cynadleddau a chyfarfodydd ymlaen llaw â swyddogion fod yn rhan o'r swyddogaethau y gall aelodau cyfetholedig dderbyn tâl amdanynt.

**Penderfyniad (5) Gall awdurdodau perthnasol benderfynu ar uchafswm y diwrnodau y gellir talu aelodau cyfetholedig mewn unrhyw flwyddyn.**

**Penderfyniad (6) Ni all taliadau gynnwys yr amser a dreulir yn paratoi, ond gallant gynnwys digwyddiadau hyfforddi wedi'u hawdurdodi, cynadleddau a chyfarfodydd ymlaen llaw â swyddogion. At ddibenion hawlio**

**a. Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel hyd at 4 awr**

**b. Diffinnir cyfarfod diwrnod llawn fel dros 4 awr**

**Ad-dalu costau gofal**

2.10 £403 yw'r uchafswm y gall aelod ac aelod cyfetholedig ei hawlio fel ad-daliad o dreuliau gofalu mewn unrhyw fis. Gan fod hwn yn gyfraniad at gostau misol gwirioneddol, ni ellir ei gyfrifo fesul blwyddyn

**Cyngor Sir Ynys Môn**

2.11 Ym mis Ebrill 2011, cyflwynodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau fesurau arbennig mewn perthynas â swyddogaethau'r Cyngor gan benodi Comisiynwyr i oruchwylio ei swyddogaethau gweithredol. O ganlyniad, cyhoeddodd y Panel Adroddiad Atodol yn nodi'r trefniadau cydnabyddiaeth ariannol gwahanol. Cawsant eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol (Rhagfyr 2011). Mae'r Gweinidog bellach wedi adfer pwerau gweithredol i'r Cyngor ac felly bydd fframwaith cydnabyddiaeth ariannol y Panel yn berthnasol. Mae'r Panel wedi cyflwyno Adroddiad Atodol arall (22 Hydref 2012[3]) sy'n cyflwyno'r manylion hyn.

---

[3] http://cymru.gov.uk/irpwsub/home/publication/201314/finsuprepioa/?skip=1&lang=cy.

# Atodiad 1: Penderfyniadau'r Panel a Fframwaith cydnabyddiaeth ariannol i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol

## Adran 1: Penderfyniadau'r Panel 2013/14

**(1)** Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd taliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig y prif gynghorau, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub Cymru yn parhau'n ddigyfnewid ar gyfer 2013/14 (Tablau 1 i 5).

**(2)** Nid oes newid i'r gyfran uchaf o aelodau sy'n gymwys i dderbyn Uwch Gyflog (Tabl 6).

**(3)** Pan fydd cynghorau yn ymgymryd â threfniadau ar y cyd ar y cyd, bydd Uwch Gyflog y cadeirydd (os yw'n cael ei dalu) yn cael ei dalu gan ei gyngor. Bydd yr Uwch Gyflog yn cael ei ystyried yn erbyn uchafswm y cyngor hwnnw.

**(4)** Mae'n rhaid i'r cyngor dalu Uwch Gyflog i Arweinydd y grŵp gwrthblaid mwyaf (yn amodol ar y gofyniad 10%).

**(5)** Gall awdurdodau perthnasol benderfynu ar uchafswm y diwrnodau y gellir talu i aelodau cyfetholedig mewn unrhyw flwyddyn.

**(6)** Ni all taliadau gynnwys amser a dreulir yn paratoi ond gallant gynnwys digwyddiadau hyfforddi wedi'u hawdurdodi, cynadleddau a chyfarfodydd ymlaen llaw â swyddogion. At ddibenion hawlio:

(a) Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel hyd at 4 awr.

(b) Diffinnir cyfarfod diwrnod llawn fel dros 4 awr.

**(7)** Caniateir i bob cyngor cymuned a thref dalu hyd at £100 y flwyddyn i'w haelodau am gostau sy'n codi yn sgil defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac ati.

**(8)** Gall cynghorau cymuned a thref barhau i dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel y nodir isod:

- 45c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd y flwyddyn.
- 25c y filltir - dros 10,000 o filltiroedd.
- 5c y teithiwr y filltir – tâl atodol ar gyfer cludo teithwyr.
- 24c y filltir – beiciau modur preifat.
- 20c y filltir - beiciau.

## Atodiad 2: Cyflogau aelodau ac aelodau cyfetholedig prif gynghorau, awdurdodau ac awdurdodau tân ac achub Cymru 2013/14

~~**Tabl 1:** Bydd Cyflog Sylfaenol, Uwch a Dinesig yn daladwy fel a ganlyn i aelodau'r prif gynghorau~~

| | ~~**Grŵp A** (Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe)~~ | ~~**Grŵp B** (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam)~~ | ~~**Grŵp C** (Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Torfaen, Ynys Môn)~~ |
|---|---|---|---|
| ~~**Cyflog Sylfaenol**~~ | ~~**£13,175**~~ | ~~**£13,175**~~ | ~~**£13,175**~~ |
| ~~**Uwch gyflogau (gan gynnwys Cyflog Sylfaenol)**~~ | | | |
| ~~**Band 1**~~<br>~~Arweinydd~~<br>~~Dirprwy Arweinydd~~ | ~~£52,700~~<br>~~£37,100~~ | ~~£47,500~~<br>~~£33,460~~ | ~~£42,300~~<br>~~£29,820~~ |
| ~~**Band 2**~~<br>~~Swyddog Gweithredol Arall~~ | ~~£31,900~~ | ~~£28,780~~ | ~~£25,660~~ |
| ~~**Band 3**~~<br>~~Cadeiryddion Pwyllgorau~~<br>~~Arweinydd y grŵp gwrthblaid mwyaf~~[7] | ~~£21,910~~<br>~~£21,910~~ | ~~£21,910~~<br>~~£21,910~~ | ~~£21,910~~<br>~~£21,910~~ |
| ~~**Band 4**~~<br>~~Arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill~~ | ~~£16,920~~ | ~~£16,920~~ | ~~£16,920~~ |
| ~~**Cyflogau Dinesig (gan gynnwys Cyflog Sylfaenol)**~~ | | | |
| ~~Pennaeth Dinesig (Maer/Cadeirydd Cyngor)~~<br>~~Dirprwy Bennaeth Dinesig (Dirprwy Faer/Dirprwy Cadeirydd Cyngor)~~ | ~~£23,715~~<br>~~£18,445~~ | ~~£21,375~~<br>~~£16,625~~ | ~~£19,035~~<br>~~£14,805~~ |

[7] ~~Arweinydd y grŵp gwrthblaid mwyaf. Gweler Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Atodiad 2, Rhan 1(2) am ddiffiniad o *"grŵp gwrthblaid mwyaf"* a *"grŵp gwleidyddol arall"*.~~

~~**Nodiadau ar gyfer Tabl 1**~~

~~(i) Mae'r Panel wedi penderfynu bod yn rhaid i gyngor gynnig Uwch Gyflog i Arweinydd y grŵp gwrthblaid mwyaf (yn amodol ar y gofyniad 10%).~~

**Tabl 2:** Ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig (â hawliau pleidleisio) y prif gynghorau.

| Yr aelod cyfetholedig | Ffi |
|---|---|
| Cadeirydd: | £256 ffi ddyddiol<br>£128 am ½ diwrnod |
| Aelod cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau cymuned a thref. | £226 ffi ddyddiol<br>£113 am ½ diwrnod |
| Aelod cyffredin pwyllgorau safonau; pwyllgorau craffu addysg; pwyllgorau craffu trosedd ac anhrefn a phwyllgor archwilio. | £198 ffi ddyddiol<br>£99 am ½ diwrnod |

**Nodiadau ar gyfer Tabl 2**

**(i)** Gall awdurdodau perthnasol benderfynu ar yr uchafswm diwrnodau y gellir talu aelodau cyfetholedig mewn blwyddyn.

**(ii)** Ni all taliadau gynnwys amser a dreulir yn paratoi, ond gall gynnwys digwyddiadau hyfforddi awdurdodedig, cynadleddau a chyfarfodydd ymlaen llaw â swyddogion. At ddibenion hawlio:

a. Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel hyd at 4 awr.
b. Diffinnir cyfarfod diwrnod llawn fel dros 4 awr.

1 **CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU**

Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyllid) a'r Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd ar y Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau.

Adroddwyd - bod y Taliadau i aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, am y cyfnod 2013/14 wedi eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei adroddiad blynyddol (Rhagfyr 2012). Roedd angen adrodd ar y wybodaeth i'r Cyngor Sir er mwyn cadarnhau nifer yr Aelodau sydd â'r hawl i uwch gyflog. Roedd gan y Cyngor ddisgresiwn ynghylch nifer yr uwch gyflogau a ganiateir hyd at yr uchafswm a bennwyd gan y Panel.

Mae adroddiad y Panel yn nodi mai'r nifer uchaf o Gynghorwyr sy'n gymwys i dderbyn uwch gyflog fydd 15. Mae'r tabl ym mharagraff 1.2 yr adroddiad yn manylu ar gyflogau ar gyfer aelodau yn 2013/14 o ran cyflogau sylfaenol, uwch gyflogau a chyflogau sifig.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am gyfyngiadau a osodwyd gan y Panel ac yn manylu hefyd ar y taliadau a'r lwfansau eraill sy'n daladwy fel y pennwyd gan y Panel, gan gynnwys taliadau i aelodau cyfetholedig.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cadarnhau'r dyraniad o uwch gyflogau i ddeilyddion swyddi yn unol â Pharagraff 1.5 yr adroddiad.**

2. **Peidio â dyrannu'r uwch gyflog sy'n weddill i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

3. **Nodi manylion eraill ar daliadau a lwfansau ar gyfer 2013/14 fel a bennwyd gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac fel y cânt eu nodi yn yr adroddiad hwn.**

2 **PENODI I GYRFF ALLANOL**

Adroddwyd gan y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanethau Democrataidd – bod swyddogion wedi cynnal ymarfer cyn etholiad Mai 2013 gydag Arweinyddion Grwpiau i adolygu'r rhestr o gyrff allanol yn wyneb y gostyngiad yn nifer yr aelodau i wasanaethu ar fath gyrff ar ôl yr etholiad ac effaith hynny ar eu baich gwaith.

Roedd gofyn i aelodau o'r Pwyllgor Gwaith wasanaethu ar rai cyrff a gwnaed y fath benodiadau gan yr Arweinydd dan awdurdod a ddirprwywyd iddo. Roedd angen gwneud penodiadau i gyrff allanol eraill gan y Cyngor yn unol â'r atodiad i'r adroddiad hwn.

Fel arfer bydd y rheini a benodir i wasanaethu ar gyrff allanol yn gwneud hynny am hyd am hyd at 4 blynedd hyd at ddyddiad yr etholiad llywodraeth leol nesaf ym Mai 2017 ac yn amodol ar adolygiad blynyddol gan y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith.

Roedd yr adroddiad hefyd yn delio gyda materion eraill gan gynnwys cyrff allanol lleol a chynrychiolaeth ar gyrff llywodraethu ysgolion.

# ATODIAD / ENCLOSURE 2

7 **CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU**

Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyllid) a'r Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd ar y Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau.

Adroddwyd - bod y Taliadau i aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, am y cyfnod 2013/14 wedi eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei adroddiad blynyddol (Rhagfyr 2012). Roedd angen adrodd ar y wybodaeth i'r Cyngor Sir er mwyn cadarnhau nifer yr Aelodau sydd â'r hawl i uwch gyflog. Roedd gan y Cyngor ddisgresiwn ynghylch nifer yr uwch gyflogau a ganiateir hyd at yr uchafswm a bennwyd gan y Panel.

Mae adroddiad y Panel yn nodi mai'r nifer uchaf o Gynghorwyr sy'n gymwys i dderbyn uwch gyflog fydd 15. Mae'r tabl ym mharagraff 1.2 yr adroddiad yn manylu ar gyflogau ar gyfer aelodau yn 2013/14 o ran cyflogau sylfaenol, uwch gyflogau a chyflogau sifig.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am gyfyngiadau a osodwyd gan y Panel ac yn manylu hefyd ar y taliadau a'r lwfansau eraill sy'n daladwy fel y pennwyd gan y Panel, gan gynnwys taliadau i aelodau cyfetholedig.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cadarnhau'r dyraniad o uwch gyflogau i ddeilyddion swyddi yn unol â Pharagraff 1.5 yr adroddiad.**

2. **Peidio â dyrannu'r uwch gyflog sy'n weddill i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

3. **Nodi manylion eraill ar daliadau a lwfansau ar gyfer 2013/14 fel a bennwyd gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac fel y cânt eu nodi yn yr adroddiad hwn.**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **30 MAI 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYNLLUN CYDNABYDDIAETH I AELODAU 2013/14** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH DROS DRO GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A PHENNAETH SWYDDOGAETH ADNODDAU** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **PENDERFYNU AR NIFER YR UWCH GYFLOGAU AR GYFER 2013/14** |

## 1.0 CYFLWYNIAD

**1.1** Mae'r Taliadau i Aelodau yn cynnwys aelodau cyfetholedig am 2013/14 wedi eu pennu gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) fel y nodir yn ei adroddiad blynyddol (Rhagfyr 2012). Mae angen adrodd ar y wybodaeth hon i'r Cyngor er mwyn cadarnhau nifer yr Aelodau sydd â hawl i uwch gyflog. Mae gan y Cyngor ddisgresiwn ar y nifer o uwch gyflogau hyd at yr uchafswm a osodwyd gan y Panel.

**1.2** Mae adroddiad yr IRP yn dweud mai uchafswm nifer y Cynghorwyr sy'n gymwys i dderbyn uwch gyflog fydd 15. Mae'r tabl isod yn nodi'r cyflogau i aelodau yn 2013/14 o safbwynt cyflog sylfaenol, uwch gyflog a chyflogau sifig.

| | |
|---|---|
| Tâl Sylfaenol | £13,175 |
| Uwch Gyflogau – yn cynnwys Cyflog Sylfaenol: | |
| Arweinydd (Band 1) | £42,300 |
| Dirprwy Arweinydd (Band 1) | £29,820 |
| Aelodau Eraill y Pwyllgor Gwaith (Band 2) | £25,660 |
| Cadeiryddion Pwyllgor | £21,910 |
| Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf | £21,910 |
| Arweinydd Grŵp Gwleidyddol arall * | £16,920 |
| Cadeirydd y Cyngor | £19,035 |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | £14,805 |

(* Mae grŵp gwleidyddol arall yn golygu grŵp gwleidyddol ar wahân i'r grŵp sy'n rheoli neu grŵp yr wrthblaid fwyaf sy'n cynnwys dim llai na 10% o aelodau'r Cyngor.)

**1.3** Ar gyfer 2013/14 mae'r IRP wedi nodi :

- Ni chaniateir talu mwy nag un Uwch Gyflog i bob aelod
- Ni chaniateir talu Uwch Gyflog a Chyflog Sifig i aelod.
- Bydd y Cyflog Sylfaenol wedi'i gynnwys ym mhob Uwch Gyflog a Chyflog Sifig.

**1.4** Ni all Cynghorydd sy'n derbyn Uwch Gyflog Band 1 a Band 2 dderbyn cyflog gan un o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru y cafodd ef/hi ei benodi arno.

**1.5** Argymhellir bod uwch gyflogau yn daladwy i ddeiliaid y swyddi canlynol yn ystod 2013/14.

Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Arweinydd
Dirprwy Arweinydd
Aelodau Eraill y Pwyllgor Gwaith (5)
Cadeirydd y 2 Bwyllgor Sgriwtini
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf

**1.6** Yn ystod 2012/13, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn derbyn uwch gyflog. Efallai y bydd y Cyngor yn dymuno parhau gyda'r arfer hwn yn 2013/14 gan ddyrannu'r uwch gyflog sydd ar ôl ac ar gael i'r pwrpas hwn. Mae opsiynau eraill ar gyfer defnyddio'r lwfans sy'n weddill - gallai gynnwys Arweinydd grŵp gwrthblaid arall neu Gadeirydd pwyllgor arall, ond dim ond os nad ydynt yn derbyn uwch gyflog arall.

## 2.0 Taliadau a Lwfansau eraill

**2.1** Mae gweddill yr adroddiad hwn yn manylu ar daliadau a lwfansau eraill sy'n daladwy fel a bennwyd gan yr IRP.

### Ad-dalu Costau Teithio ar gyfer Busnes Swyddogol

**2.2** Penderfynodd y Panel na fydd unrhyw newid yn 2013/14 i raddfeydd cynhwysol. Bydd graddfeydd cyfredol Cyllid a Thollau Eu Mawrhydi yn berthnasol.

- 45c y filltir – hyd at 10,000 filltir
- 25c y filltir – dros 10,000 milltir
- 5c y cyd-deithiwr y filltir – ychwanegiad cyd-deithiwr
- 24c y filltir – i feiciau modur preifat
- 20c y filltir – i feics

### Lwfans Cynhaliaeth yn 2013/14

**2.3** Mae ad-dalu costau cynhaliaeth i aelodau ac aelodau cyfetholedig yn seiliedig ar uchafswm y graddfeydd a nodir isod gan y Panel ar sail hawliadau gyda derbynneb.

- £28 y dydd – lwfans dydd am brydau, yn cynnwys brecwast lle na ddarparwyd am hynny yn y taliad dros nos.
- £150 – aros dros nos – Llundain
- £120 – aros dros nos – Caerdydd

- £95 – unrhyw le arall dros nos
- £25 – aros dros nos gyda chyfeillion a theulu.

**Taliadau Aelod Cyfetholedig 2013/14**

**2.4** Pennwyd y ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig (gyda hawliau pleidleisio) gan y Panel fel a ganlyn :

| **Aelod Cyfetholedig** | **Ffi** |
|---|---|
| Cadeirydd | £256 ffi ddyddiol*<br>(£128 ffi hanner diwrnod) |
| Aelod cyffredin o'r Pwyllgor Safonau sydd hefyd yn Cadeirio'r Pwyllgor Safonau yn ymwneud â Chynghorau Tref / Cymuned | £226 ffi ddyddiol<br>£113 ffi hanner diwrnod |
| Aelodau cyffredin o Bwyllgor Safonau, Pwyllgorau Sgriwtini (yn delio â materion addysg neu drosedd ac anhrefn) a'r Pwyllgor Archwilio. | £198 ffi ddyddiol<br>£99 ffi hanner diwrnod |

* Diffinnir cyfarfod llawn fel un sy'n parhau am dros 4 awr, a diffinnir hanner diwrnod fel cyfnod hyd at 4 awr.

**Lwfans Gofal**

**2.5** Rhaid hefyd i'r Cyngor dalu i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr hyn a elwir yn lwfans gofal i ad-dalu treuliau angenrheidiol am ofalu am blant ac oedolion sy'n dibynnu arnynt hyd at uchafswm o £403 y mis.

## 3.0 Argymhellion

1. Cadarnhau'r dyraniad o uwch gyflogau i ddeilyddion swyddi yn unol â pharagraff 1.5 uchod yn 2013/14.
2. Penderfynu a fydd yr uwch gyflog sy'n weddill ac ar gael yn cael ei ddyrannu i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd neu i rôl arall sy'n gymwys.
3. Nodi manylion eraill ar daliadau a lwfansau ar gyfer 2013/14 fel a bennwyd gan yr IRP ac a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

# ATODIAD / ENCLOSURE 3

Panel Annibynnol Cymru
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration
Panel for Wales

Ein Cyf: qA900196

At:

Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol

Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Cadeiryddion a Chlercod Awdurdodau Tân ac Achub

Arweinydd a Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd/Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub

1 Awst 2013

Annwyl Gydweithwyr

**Adroddiad Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â thaliadau i Aelodau Cyfetholedig**

Amgaeaf ddrafft o'r adroddiad atodol y mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei gyhoeddi mewn perthynas â thaliadau i aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol. Mae hyn yn deillio o'r materion a godwyd gyda'r Panel yn ystod ein hymweliadau â'r 22 o Brif Awdurdodau, y tri Awdurdod Parciau Cenedlaethol a'r tri Awdurdod Tân ac Achub. Er mai materion y byddem fel rheol yn ymdrin â hwy yn ein Hadroddiad Blynyddol yw'r rhain, er mwyn tegwch rydym o'r farn y dylid eu datrys cyn gynted â phosibl, yn hytrach nag aros nes i'r Adroddiad Blynyddol nesaf gael ei roi ar waith yn 2014.

Mae'r panel yn croesawu pob safbwynt ar y cynigion a gynhwysir yn yr Adroddiad drafft ond hoffai ofyn i chi sicrhau y tynnir sylw pob aelod cyfetholedig yn eich awdurdod ato er mwyn iddynt gael cyfle i fynegi eu safbwyntiau yn uniongyrchol.

Mae angen ymatebion i'r drafft erbyn 26 Medi 2013.

Yn gywir

Richard Penn

Cadeirydd

Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cymru

Panel Annibynnol Cymru
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration
Panel for Wales

Ein Cyf: qA900196

At:

Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol

Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Cadeiryddion a Chlercod Awdurdodau Tân ac Achub

Arweinydd a Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd/Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub

DRAFT

1 Awst 2013

Dear Colleagues

**ADRODDIAD ATODOL DRAFFT –**
**TALIADAU I AELODAU CYFETHOLEDIG YR AWDURDODAU LLEOL**

1. Mae hwn yn Adroddiad Atodol i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn unol ag Adran 147 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur). Mae'n ymwneud â thaliadau a wneir i aelodau cyfetholedig Prif Awdurdodau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, sydd â'r hawl i bleidleisio.

2. Yn ystod cyfnod o 10 wythnos, rhwng Mawrth a Mehefin 2013, ymwelodd y Panel â phob un o'r 28 awdurdod a chodwyd nifer o bwyntiau yn y cyfarfodydd hyn. Bydd y Panel yn ystyried y rhain dros y misoedd i ddod mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol nesaf neu Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol. Er hynny, daeth materion i'r goleuni mewn perthynas â thaliadau i aelodau cyfetholedig a ddylai gael eu rhoi ar waith, ym marn y Panel, cyn yr Adroddiad Blynyddol nesaf na ddaw i rym tan y Gwanwyn 2014.

3. Y materion hyn yw:
   i) Cydnabod y gall paratoi ar gyfer cyfarfodydd gymryd llawer o amser ond nad yw'r Fframwaith Cydnabyddiaeth presennol yn caniatáu i daliad gael ei roi am yr amser hwn.

ii) Er bod gan aelodau cyfetholedig yr hawl i hawlio costau teithio, nid yw'r Fframwaith yn nodi a ellir cyfrif amser teithio i gyfarfod ac oddi yno wrth asesu ai diwrnod llawn ynteu hanner diwrnod yw cyfarfod at ddibenion talu.

iii) Mynegodd sawl aelod cyfetholedig bryderon nad oeddent bob amser yn cael gwybod ymlaen llaw a oedd cyfarfodydd wedi'u hamserlennu am hanner diwrnod llawn neu am ddiwrnod llawn. Roedd hyn yn creu anawsterau o ran cynllunio eu dyddiaduron, yn enwedig os oedd gan yr aelod unigol weithgareddau eraill yn gysylltiedig â gwaith i'w trefnu. Awgrymwyd y gallai'r Swyddog Monitro (neu swyddog perthnasol arall) gael ei awdurdodi i bennu'r ffi briodol ymlaen llaw ar ôl penderfynu ar yr amser tebygol y byddai ei angen i ddelio â'r agenda.

iv) Roedd diffyg eglurdeb ynghylch beth yw "cyfarfod ". Gofynnwyd i'r Panel ystyried a yw'n cynnwys pwyllgorau neu weithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen) y gofynnir i aelodau cyfetholedig eu mynychu.

4. Mae'r Panel wedi ystyried y materion hyn ac mae wedi penderfynu fel a ganlyn:

**Penderfyniadau**

i) Mae amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig a gall y swyddog priodol benderfynu cyn y cyfarfod faint o amser y bydd ei angen.

ii) Gellir cynnwys amser teithio i fan y cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliad sy'n cael eu gwneud gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

iii) Gall y swyddog priodol yn yr awdurdod benderfynu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn ac fe gaiff y ffi ei thalu ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os daw'r cyfarfod i ben cyn i'r pedair awr fynd heibio.

iv) Mae cyfarfodydd lle gellir hawlio taliad yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill( gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen) neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i aelodau cyfetholedig ei fynychu. (Mae rhag-cyfarfodydd â swyddogion, hyfforddiant a mynychu cynadleddau eisoes yn gymwys am daliad).

Cofion

Yn gywir

Cadeirydd

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

# PAPUR / ENCLOSURE G

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD:** | **12 MEDI 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) (CYMRU) 2013** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **RHOI GWYBOD I'R PWYLLGOR AM GANLYNIAD EI YMATEB I'R YMGYNGHORIAD A MATERION CYSYLLTIEDIG ERAILL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH SWYDDOGAETH CYFREITHIOL A GWEINYDDIAETH / SWYDDOG MONITRO** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **LYNN BALL, PENNAETH SWYDDOGAETH CYFREITHIOL A GWEINYDDIAETH / SWYDDOG MONITRO (est 2586)** |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Ar 25 Gorffennaf 2012 cytunodd y Pwyllgor Safonau ar ymateb i ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Hyrwyddo Democratiaeth Leol. Cyfyngwyd ymateb y Pwyllgor i'r meysydd hynny sydd o fewn ei gylch gorchwyl ac mae **Atodiadau 1 a 2** yn cynnwys yr Adroddiad a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 25 Gorffennaf 2012 a'r ymateb a anfonwyd wedyn at Lywodraeth Cymru ar ran y Pwyllgor.

## 2. Y SEFYLLFA GYFREDOL

Mae'r Ddeddf bellach wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol. Mae **Atodiad 3** yn gopi o grynodeb o'r ddeddfwriaeth newydd gyda rhannau'r hynny sydd o arwyddocâd i'r Pwyllgor Safonau wedi eu hamlygu. Gydag un eithriad, nid oes unrhyw ddyddiadau cychwyn wedi eu pennu hyd yma. Nid yw materion y gofynnwyd i'r Pwyllgor Safonau ymateb i'r ymgynghoriad yn eu cylch, ac nad oes cyfeiriad atynt yn **Atodiad 3,** wedi eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth.

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi'r Adroddiad er gwybodaeth.

ATODIAD / ENCLOSURE
1

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD:** | **25 GORFFENNAF 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **YSTYRIED PAPUR GWYN Y LLYWODRAETH AR HYRWYDDO DEMOCRATIAETH LEOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYTUNO AR YR YMATEB I'R YMGYNGHORIAD GAN LYWODRAETH CYMRU YNGHYLCH Y PAPUR GWYN AR HYRWYDDO DEMOCRATIAETH LEOL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH SWYDDOGAETH - CYFREITHIOL A PHWYLLGORAU / SWYDDOG MONITRO** |

## DOGFENNAU SYDD YNGHLWM

1. Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Hyrwyddo Democratiaeth Leol.

## CEFNDIR

- Gofynnir i ymgyngoreion ymateb erbyn 3 Awst 2012.

- Y rhannau hynny o'r Papur Gwyn sy'n ymwneud â gwaith y Pwyllgor Safonau yw:-

  - Paragraff 52 (cwestiwn 29) a
  - Paragraffau 66 i 68 (cwestiynau 38, 39, 40, 41, 42, 43 ac 44)

- Yn ogystal â'r cwestiynau, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried unrhyw faterion cysylltiedig / perthynol eraill yn ei ymateb ffurfiol. Awgrymir y materion isod i'w trafod, ond ni ddylent rwystro'r Pwyllgor rhag cyflwyno cynigion neu sylwadau ychwanegol eraill:-

  - P'un a fydd unrhyw Brotocol Penderfyniad Lleol yn genedlaethol neu'n lleol, a ddylid cyhoeddi canllawiau neu feini prawf i gynorthwyo i nodi'r materion hynny sy'n addas i'w cyfeirio i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y materion sy'n addas ar gyfer penderfyniad lleol a'r materion nad ydynt yn addas i gael sylw o gwbl?
  - Fel arall, a ddylai'r penderfyniad ynghylch addasrwydd ar gyfer penderfyniad lleol fod yn gwbl ddewisol?
  - Os bydd unrhyw elfen o ddisgresiwn, sut bydd y disgresiwn hwn yn cael ei ddefnyddio a chan bwy?

- Os sefydlir Pwyllgorau Safonau Rhanbarthol, beth ddylai'r ffin ddaearyddol fod yn eich barn chi e.e. Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy, neu bob un o'r chwe Awdurdod yng Ngogledd Cymru?
- Os bydd Pwyllgor Safonau Rhanbarthol neu Isranbarthol, sut dylai weithredu'n ymarferol, beth yw'r anawsterau posib a sut gallwn eu goresgyn?

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau fynegi barn ar y rhannau priodol o'r ddogfen ymgynghori, yn ogystal ag unrhyw faterion perthnasol neu berthynol eraill, a chyfarwyddo'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor, i gwblhau a chyflwyno'r ymateb ymgynghori ar ran y Pwyllgor Safonau. Anfonir copïau o'r ymateb i bob aelod o'r Pwyllgor er gwybodaeth.

# ATODIAD / ENCLOSURE 2

**YMATEB Y PWYLLGOR SAFONAU I BAPUR GWYN Y LLYWODRAETH AR HYRWYDDO DEMOCRATIAETH LEOL**

**Cwestiwn 29: A ddylai'r Panel gael y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am bob cydnabyddiaeth ariannol a dderbyniodd cynghorwyr unigol mewn cysylltiad â chyflawni dyletswyddau cyhoeddus?**

Yes √ No

Ond dylai gynnwys treuliau a dylai fod eglurhad ynglŷn â'r diffiniadau o elfennau allweddol megis "cyhoeddi", "cydnabyddiaeth ariannol", "dyletswyddau cyhoeddus", er mwyn sicrhau cysondeb a'r gallu i gymharu.

**Cwestiwn 38: Beth yw'r rhwystrau ymarferol rhag ymestyn y broses ddatrys leol i gynghorau tref a chymuned ac ym mha ffordd y gellid eu goresgyn?**

Mae angen i unrhyw broses/mecanwaith ar gyfer datrys materion yn lleol aros gyda'r Cyngor Tref/Cymuned perthnasol oherwydd mae goblygiadau sylweddol o ran adnoddau os oes raid i Bwyllgorau Safonau a Swyddogion Monitro gefnogi'r proses.

**Cwestiwn 39: I ba raddau y mae'n angenrheidiol neu'n ddymunol diwygio'r fframwaith statudol presennol neu'r cod ymddygiad enghreifftiol, er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatrys cwynion yn lleol?**

- I sicrhau cysondeb, dylid parhau i wneud y didoliad cyntaf sy'n ofynnol dan statud. Fodd bynnag, dylai materion a gyfeirir at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) nad ydynt yn cwrdd â'i brawf trothwy, gael eu cyfeirio'n ôl fel y gellir gwneud penderfyniad ar lefel leol ynghylch a yw'r mater yn addas ai peidio ar gyfer ei ddatrys yn lleol. Fel mae pethau'n sefyll, bydd y penderfyniad hwnnw yn un dewisol ac yn syrthio y tu allan i'r fframwaith statudol.

- Fodd bynnag, nid oes unrhyw reidrwydd statudol ar awdurdodau i fabwysiadu trefn ar gyfer datrys anghydfodau yn lleol ac mae llai byth o reidrwydd am gysondeb mewn protocolau lleol. Rydym ni o'r farn y byddai'n ddymunol cael model o brotocol ar gyfer datrys anghydfodau yn lleol er mwyn sicrhau cysondeb, tryloywder ac i osgoi dyblygu gwaith. O leiaf, dylid cyhoeddi canllawiau yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a byddai angen i'r canllawiau roi sylw i faterion allweddol megis:

  - Dylai protocolau datrys anghydfodau yn lleol ymwneud yn unig â chwynion gan aelodau am aelodau.

  - Wedi cwblhau'r didoliad cychwynnol ac wedi methu bodloni trothwy OGCC, rhaid gallu gwrthod yn fuan yn y broses unrhyw fater a gyfeiriwyd yn ôl i'w ddatrys yn lleol os yw'n annilys, yn ddibwys neu'n gwastraffu amser. Mae angen eglurder ynghylch pwy sy'n ymarfer y disgresiwn hwnnw ynghyd â'r modd y caiff ei ymarfer oherwydd gall y broses fod yn un gynhennus. Yn ein barn ni, dylai aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau wneud y penderfyniad hwnnw mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Monitro. Rydym yn gwerthfawrogi bod opsiynau eraill.

  - Mae angen eglurder ynghylch rôl y Pwyllgor Safonau mewn unrhyw broses i ddatrys anghydfodau yn lleol.

  - Mae angen eglurder ynglŷn â chanlyniadau posibl proses o'r fath.

**Cwestiwn 40: A ddylid addasu'r fframwaith moesegol yng Nghymru yn fwy sylfaenol (ee cyflwyno proses leol o asesu ac ymchwilio i bob achos honedig o dorri'r cod ymddygiad) ac os felly, sut y dylid ei addasu?**

Yes No √

Rydym o'r farn bod cynnal didoliad cychwynnol ar lefel leol yn ddymunol er sicrhau tegwch a chysondeb ac i osgoi cwynion "talu'r pwyth yn ôl".

**Cwestiwn 41: A yw'r trefniadau "galw i mewn" yn ddigonol, neu a ddylid cyfeirio achosion nad ydynt yn llwyr fodloni meini prawf presennol yr Ombwdsmon er mwyn penderfynu yn eu cylch yn lleol, a hynny fel mater o drefn?**

Yes No √

Dylai'r holl achosion sy'n ymwneud â chwynion am Aelodau gan Aelodau nad ydynt yn cwrdd â throthwy cyfredol OGCC gael eu cyfeirio ar gyfer eu datrys yn lleol ond rhaid bod disgresiwn ar lefel leol ynghylch a ddylid mynd ati i'w datrys yn lleol ai peidio neu wrthod y gwyn, rhyw fath o ail ddidoliad mwy anffurfiol. Gweler yr ymateb i gwestiwn 39 os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn 42: A yw'r terfyn gwirfoddol ar indemniadau a ddarperir i'r diben hwn yn briodol ac yn ddigonol?**

Yes No √

**Cwestiwn 43: A ddylai Llywodraeth Cymru gyflwyno terfyn statudol ar indemniadau trwy is-ddeddfwriaeth?**

Yes √ No

Rydym yn awgrymu y dylai fod trothwyon gwahanol ar gyfer gwrandawiadau gerbron Pwyllgorau Safonau, Panel Dyfarnu Cymru neu'r Uchel Lys gydag uchafswm o £20k.

**Cwestiwn 44: Beth yw'r rhwystrau ymddangosiadol rhag sefydlu pwyllgorau safonau rhanbarthol, os oes rhai?**

Rydym o blaid cadw Pwyllgorau Safonau lleol ond bod darpariaeth ar gael i "rannu" Aelodau annibynnol pryd a phan fydd angen hynny ar sail isranbarthol.

# ATODIAD / ENCLOSURE 3

# Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013

| Section | Notes |
|---|---|
| **PART 5**<br>OTHER CHANGES TO LOCAL GOVERNMENT<br>*Presiding members*<br>51 Presiding member of principal council<br>*Private Bills*<br>52 Promoting private Bills<br>53 Opposing private Bills<br>54 Restriction on payments in relation to promoting or opposing Bills | ss. 51 to 54 1/10/2013 |
| *Access to information*<br>55 Community council websites<br>56 Requirement to give public notices electronically<br>57 Meetings and proceedings of communities | No Commencement Date |
| 58 Registers of members' interests<br>*Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4) v*<br>*Remote attendance at meetings* | No Commencement Date |
| 59 Remote attendance at meetings of principal councils<br>*Democratic services committees*<br>60 Democratic services committees<br>*Audit committees*<br>61 Audit committees<br>*Independent Remuneration Panel for Wales*<br>62 Functions relating to payments to members | ss. 59 to 62 1/10/2013 |
| 63 Functions relating to salaries of heads of paid service | **Note: s.63 needs commencement order** |
| 64 Relevant authorities<br>65 Subsequent annual reports<br>66 Consultation on draft reports<br>67 Publicity requirements in reports<br>*Joint standards committees* | ss. 64-67 1/10/2013 |
| 68 Joint standards committees | No Commencement Date |
| 69 Referral of cases relating to conduct | No Commencement Date |

# Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

2013 dccc 4

# Local Government Democracy (Wales) Act 2013

2013 anaw 4

*Mynediad i wybodaeth*

**55 Gwefannau cynghorau cymuned**

(1) Rhaid i gyngor cymuned sicrhau bod y canlynol ar gael yn electronig—

(a) gwybodaeth ynglŷn â sut i gysylltu ag ef ac, os yw hynny'n wahanol, ei glerc, gan gynnwys—

(i) rhif ffôn;

(ii) cyfeiriad post;

(iii) cyfeiriad e-bost;

(b) gwybodaeth ynglŷn â phob un o'i aelodau, gan gynnwys—

(i) enw'r aelod;

(ii) sut y gellir cysylltu â'r aelod;

(iii) ymlyniad gwleidyddol yr aelod (os oes un);

(iv) y ward y mae'r aelod yn ei chynrychioli (pan fo hynny'n berthnasol);

(v) unrhyw swydd y mae'r aelod yn ei dal gyda'r cyngor;

(vi) unrhyw bwyllgor o'r cyngor y mae'r aelod yn perthyn iddo;

(c) cofnodion trafodion cyfarfodydd y cyngor ac (i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol) unrhyw ddogfennau y cyfeiria'r cofnodion atynt;

(d) unrhyw ddatganiad archwiliedig o gyfrifon y cyngor.

(2) Nid oes dim yn yr adran hon sy'n awdurdodi cyngor cymuned nac yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu unrhyw wybodaeth y mae wedi ei hatal rhag ei datgelu dan unrhyw ddeddfiad.

(3) Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan is-adran (1), rhaid i gyngor cymuned roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

(4) Nid yw'r gofyniad i sicrhau bod yr wybodaeth a restrir yn is-adran (1)(c) a (d) ar gael ond yn ymwneud â gwybodaeth a gynhyrchir pan ddaw'r adran hon i rym neu wedi hynny.

**56 Gofyniad i roi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig**

Yn adran 232 o Ddeddf 1972 (hysbysiadau cyhoeddus), ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1ZA) A public notice given by a community council must, in addition to the requirements imposed by subsection (1), be published electronically.".

**57 Cyfarfodydd a thrafodion cymunedau**

Yn Atodlen 12 i Ddeddf 1972 (cyfarfodydd a thrafodion awdurdodau lleol)—

(a) ym mharagraff 26(2)—

(i) ym mharagraff (a), ar ôl "be" lle y mae'n ymddangos am y tro cyntaf mewnosoder "published electronically and",

(ii) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) any documents relating to the business to be transacted at the meeting must be published electronically (in so far as reasonably practicable),",

(b) ar ôl paragraff 26(2) mewnosoder—

"(2A) The duty of a community council under sub-paragraph (1)(aa) to publish documents relating to the meeting does not apply where—

(a) the documents relate to business which in the opinion of the council is likely to be transacted in private, or

(b) the disclosure of such documents would be contrary to any enactment.",

(c) ym mharagraff 30B—

(i) yn lle is-baragraff (3) rhodder—

"(3) The notice must be given—

(a) in writing (but not in an electronic form), or

(b) in an electronic form which meets the technical requirements set by the principal council under paragraph 30C.",

(ii) yn is-baragraff (7), ar ôl "principal council" mewnosoder "or community council",

(iii) a hefyd yn is-baragraff (7), yn lle "council" lle y mae'n ymddangos am yr ail dro rhodder "principal council",

(d) ym mharagraff 30C—

(i) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

"(1) For the purposes of paragraph 30B(1), each community council and principal council must provide a facility for notices to be given in electronic form ("electronic notices").",

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle "The council must set" mewnosoder "A principal council must set for its area",

(e) ym mharagraff 30E(7), ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) by publishing the notice electronically, and".

**58 Cofrestrau buddiannau aelodau**

(1) Mae adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22) (datgelu a chofrestru buddiannau aelodau) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (6)—

(a) daw'r geiriau o "copies" hyd at y diwedd yn baragraff (a), a

(b) ar ôl y paragraff hwnnw, mewnosoder—

"(b) the register mentioned in paragraph (a) is published electronically.".

(3) Yn is-adran (7), ar ôl paragraff (a)(ii), mewnosoder—

"(iii) states that the register is available to be viewed electronically, and

(iv) specifies how to access the electronic version,".

(4) Ar ôl is-adran (7), mewnosoder—

"(7A) For the purposes of this section—

(a) section 83(13) does not apply, and

(b) in relation to a relevant authority which is a community council, the references in this section to a monitoring officer are to be read as references to the proper officer of that council (within the meaning of section 270(3) of the Local Government Act 1972).".

*Mynychu cyfarfodydd o bell*

**59 Mynychu cyfarfodydd prif gynghorau o bell**

(1) Mae adran 4 o Fesur 2011 (mynychu cyfarfodydd o bell) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (4), yn lle'r geiriau "o bell" hyd at y diwedd, rhodder "mangre'r cyfarfod yn llai na 30% o gyfanswm nifer yr aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod.".

(3) Ar ôl is-adran (4), mewnosoder—

"(4A) Nid yw is-adran (4) yn atal awdurdod lleol rhag creu rheolau sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol fod mwy na 30% o gyfanswm yr aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod yn mynychu mangre'r cyfarfod i sicrhau cworwm.".

*Pwyllgorau gwasanaethau democrataidd*

**60 Pwyllgorau gwasanaethau democrataidd**

(1) Ar ôl adran 11 o Fesur 2011 (awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau gwasanaethau democrataidd) mewnosoder—

**"11A Adolygiadau ar gais awdurdod lleol**

(1) Caiff pwyllgor gwasanaethau democrataidd awdurdod lleol, ar gais yr awdurdod, adolygu unrhyw fater sy'n berthnasol i—

(a) y cymorth a'r cyngor sydd ar gael i aelodau'r awdurdod hwnnw, a

(b) telerau ac amodau swydd yr aelodau hynny.

(2) Rhaid i bwyllgor gwasanaethau democrataidd lunio adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod yn dilyn adolygiad.

(3) Mater i bwyllgor gwasanaethau democrataidd yw penderfynu sut i arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon."

(2) Yn adran 19 (adroddiadau ac argymhellion gan bwyllgorau gwasanaethau democrataidd), ar ôl "11(1)(c)" mewnosoder "neu 11A(2)".

(a) bwrdd iechyd lleol,

(b) panel comisiynydd heddlu a throsedd,

(c) awdurdod perthnasol,

(d) corff wedi ei ddynodi yn gorff cyhoeddus mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.".

*Cyd-bwyllgorau safonau*

**68 Cyd-bwyllgorau safonau**

(1) Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 53 (pwyllgorau safonau)—

(a) yn is-adran (1), yn lle "(referred to in this Part as a standards committee)" rhodder "or, with one or more other relevant authorities, a joint committee",

(b) ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

"(1A) In this Part, a reference to a "standards committee" is a reference to a committee or a joint committee established under subsection (1).",

(c) yn is-adran (11)—

(i) yn y geiriau agoriadol, yn lle "National Assembly for Wales" rhodder "Welsh Ministers",

(ii) ym mharagraff (a), ar ôl "authority" mewnosoder "or authorities",

(iii) ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"(da) about establishing a standards committee which is a joint commitee (including, in particular, provision about any restrictions on the number or types of relevant authority that may establish a joint committee),",

(iv) ym mharagraff (e), yn lle "such" rhodder "standards",

(d) ar ôl is-adran (12) mewnosoder—

"(13) A relevant authority which is considering establishing a joint committee must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers about establishing joint committees and the circumstances in which it is appropriate to do so.".

(3) Yn adran 54 (swyddogaethau pwyllgorau safonau)—

(a) yn is-adran (5), yn lle "National Assembly for Wales" rhodder "Welsh Ministers",

(b) ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) Regulations made under subsection (5) may modify any provision of this Part, or any other enactment relating to a standards committee or to any functions of a standards committee, in relation to cases where a function of a standards committee is exercisable by a joint committee.

(5B) In subsection (5A) "enactment" includes an enactment comprised in subordinate legislation (within the meaning of the Interpretation Act 1978 (c. 30)), whenever passed or made.",

(c) yn lle is-adran (7) mewnosoder—

"(7) A standards committee must, in exercising any of its functions, have regard to any relevant guidance issued by the Welsh Ministers.".

(4) Yn adran 106 (Cymru)—

(a) yn is-adran (5), ar ôl "section 21G" ychwaneger "or regulations under section 53(11) or 54(5)",

(b) yn is-adran (6), ar ôl "section 21A(13)(b)" mewnosoder "or regulations made under section 53(11) or (subject to subsection (6A)) section 54(5)",

(c) ar ôl is-adran (6) mewnosoder—

"(6A) Where a statutory instrument contains regulations made under section 54(5) which include provision adding to, replacing or omitting any part of the text of an Act of Parliament or a Measure or Act of the National Assembly for Wales, the instrument may not be made unless a draft of it has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales.".

**69 Atgyfeirio achosion yn ymwneud ag ymddygiad**

(1) Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 73 (materion a atgyfeiriwyd at swyddogion monitro)—

(a) yn is-adran (2)—

(i) ym mharagraff (b), ar ôl "authority" lle y mae'n ymddangos am yr ail dro mewnosoder ", or to the standards committee of another relevant authority,",

(ii) ar ôl paragraff (b), mewnosoder—

"(ba) enabling a standards committee of a relevant authority to refer a report or recommendations made by its monitoring officer to the standards committee of another relevant authority,",

(b) yn lle paragraff (c) rhodder—

"(c) enabling a standards committee of a relevant authority to consider any report or recommendations made or, as the case may be, referred to it by—

(i) a monitoring officer of a relevant authority, or

(ii) the standards committee of another relevant authority.

(ca) the procedure to be followed by a standards committee as respects a report or recommendation made or referred to it,",

(c) ym mharagraff (d), yn lle "the authority" rhodder "a relevant authority",

(d) yn is-adran (4)—

(i) ym mharagraff (a), hepgorer "of the authority,", a

(ii) ym mharagraff (b), ar ôl "the authority" mewnosoder "of which they are a member".

(3) Yn adran 81 (datgelu a chofrestru buddiannau aelodau)—

# PAPUR / ENCLOSURE NG

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| CYFARFOD: | PWYLLGOR SAFONAU |
| DYDDIAD: | 12 MEDI 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | CANIATÂD ARBENNIG GENERIG – INDEMNIADAU |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | I OSGOI'R ANGEN AM UNRHYW GEISIADAU UNIGOL YN YSTOD CYFNOD Y CYNGOR HWN |
| ADRODDIAD GAN: | PENNAETH SWYDDOGAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDU / SWYDDOG MONITRO |
| SWYDDOG CYSWLLT: | LYNN BALL, PENNAETH SWYDDOGAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDU / SWYDDOG MONITRO ( est. 2586 ) |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau Etholedig, bydd unrhyw Aelod sydd â diddordeb personol a rhagfarnus mewn eitem o fusnes yn cael ei rwystro rhag cymryd rhan. Mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig a phenodol fe all aelod oresgyn y rhwystr sy'n cael ei greu gan y diddordeb personol a rhagfarnus os byddant yn gallu cael caniatâd arbennig gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir.

## 2. Y PROSES

Rhaid i unrhyw Aelod sy'n dymuno cael caniatâd arbennig wneud cais ysgrifenedig yn nodi'r rhwystr ac ar ba sail y gwneir y cais. Bydd y Pwyllgor Safonau, neu Banel o'r Pwyllgor Safonau fydd wedi ei gyfansoddi'n briodol yn gwrando'r cais. Bydd y gwrandawiad fel arfer yn un cyhoeddus. Mae gan y Pwyllgor Safonau ddisgresiwn i ganiatáu'r caniatâd arbennig a geisir neu i'w wrthod ac i osod unrhyw gyfyngiadau neu lyffetheiriau fydd yn briodol i amgylchiadau'r cais.

## 3. Y CAIS

Mae'r cais i'w weld ym **Mhapur 1** ac mae'r amgylchiadau y ceisir y caniatâd arbennig yn eu cylch i'w gweld ym mharagraff 6 o hwnnw. Mae'r sail y ceisir cael y caniatâd arbennig yn ei gylch wedi ei nodi ym mharagraff 7.

## 4. ARGYMHELLIAD

Caniatáu'r caniatâd arbennig fel y cafodd ei eirio ym **Mhapur 2**.

CC-015794-LB/183971

# PAPUR / ENCLOSURE 1

CAIS I'R PWYLLGOR SAFONAU AM GANIATÂD YN UNOL AG
SI 2001 Rhif. 2279 (W. 169)

1. **Enw'r Ymgeisydd** : Holl Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn. Mae rhestr lawn ynghlwm yn **Atodiad 1**

2. **Cyfeiriad yr Ymgeisydd** : Gweler **Atodiad 1**

3. **Awdurdod Perthnasol** : Cyngor Sir Ynys Môn

4. **Pwyllgor/Pwyllgorau** : Is-Bwyllgor Indemniadau

5. **Diddordeb a Gofrestrwyd yn unol ag Adran 81 (1) a (2) Deddf Llywodraeth Leol 2000**:

   d/b

6. **Manylion am y diddordeb y gofynnir am ganiatâd arbennig yn ei gylch** :

- Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu Polisi Indemniadau **Atodiad 2**.
- Mae'r Polisi yn galluogi'r Aelodau, mewn rhai amgylchiadau, i gyflwyno ceisiadau i'r Cyngor am indemniad ar gyfer eu costau cyfreithiol. Bydd hyn fel arfer yn ymwneud â chostau a geir yn sgil amddiffyn haeriadau a wnaed dan y Côd Ymddygiad i Aelodau.
- Mae'r Cyngor wedi dirprwyo ei rym i wneud penderfyniadau i'r Is-Bwyllgor Indemniadau sydd newydd gael ei sefydlu.
- Dylai unrhyw Aelod sy'n dymuno ymgeisio am indemniad gyflwyno cais ar bapur i'r Is-Bwyllgor a fydd wedyn yn cyfarfod i ystyried y cais..
- Gall yr ymgeisydd gyflwyno cais mewn un o dair ffordd:-
  1. Gofyn i'r Is-Bwyllgor ystyried y cais ar sail y papurau yn unig; neu
  2. Rhoddi cyfarwyddyd i'w cynrychiolydd cyfreithiol gyflwyno'r cais ac ateb unrhyw gwestiynau; neu
  3. Ymddangos yn bersonol i gyflwyno eu cais ac ateb unrhyw gwestiynau.
- Petai Aelod yn ymarfer ei hawl i fynychu'n bersonol, yna, fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd, byddai'n torri'r Côd Ymddygiad i Aelodau oherwydd byddai'r cyfuniad o'u cais a'u presenoldeb yn y cyfarfod yn creu diddordeb personol a fyddai'n rhagfarnu. Mae copi o'r Côd, gyda'r adrannau perthnasol wedi eu hamlygu ynghlwm fel **Atodiad 3**
- Mae'r sefyllfa hon â'r potential i achosi rhagfarn ddifrifol i unrhyw aelodau sy'n dymuno ymarfer eu hawl i ymddangos gerbron yr Is-Bwyllgor Indemniadau yn arbennig felly oherwydd na fyddai modd adfer unrhyw gostau cyfreithiol ar yr adeg honno; nid yw'r Polisi ond yn caniatáu indemniad o'r adeg y mae'r Is-Bwyllgor yn gwneud ei benderfyniad. Nid oes ganddo unrhyw bwerau ôl-weithredol.

- Yr unig ffordd i osgoi'r canlyniad annheg hwn o bosibl yw i'r Pwyllgor Safonau roddi caniatâd arbennig. Fel Swyddog Monitro, cynghorais Arweinwyr y Grwpiau a Chadeirydd y Cyngor mewn perthynas ag aelodau digyswllt, i wneud cais i'r Pwyllgor Safonau am ganiatâd generig. Derbyniwyd cais gan bob un ohonynt.

- Oherwydd, cyflwynir y cais hwn er budd holl Aelodau'r Cyngor Sir. Wrth gwrs, mae ceisiadau am indemniadau yn brin ac mae'r annhebygol y bydd mwy na llond llaw o Aelodau yn defnyddio'r caniatâd arbennig generig a roddwyd. Fodd bynnag, argymhellir gweithredu yn y modd yma fel dull ymarferol o osgoi cyfres o geisiadau unigol, y cyfan ohonynt yn dibynnu ar yr un sail statudol.

- Gellir cyflwyno cais am indemniad ar unrhyw adeg wedi i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru benderfynu cynnal ymchwiliad. Ar hyn o bryd, o blith pedwar deg o Aelodau'r Cyngor Sir, mae yna chwech o faterion "byw" sydd wrthi'n cael eu hystyried yn unol â phroses Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru **Atodiad 4**.

7. **Y Rhesymau Statudol y dibynnwyd arnynt i gefnogi'r Cais** :

Awgrymir mai'r rhesymau y gellir rhoddi caniatâd arbennig yn eu cylch yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatâd Arbennig) (Cymru) 2001 yw:-

- **2.(d)** "the nature of the member's interest is such that the member's participation in the business to which the interest relates would not damage public confidence in the conduct of the relevant authority's business."

- **2.(f)** "the participation of the member in the business to which the interest relates is justified by the member's particular role or expertise"

- Efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno cymryd rhai ffactorau perthnasol i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid caniatáu'r cais hwn am y rhesymau statudol uchod, sef:

  - Mae Polisi'r Cyngor yn adlewyrchu deddfwriaeth sy'n caniatáu rhoi caniatâd arbennig mewn rhai amgylchiadau.

  - Mae angen cryn dipyn o wybodaeth i alluogi'r Is-Bwyllgor Indemniadau i benderfynu ar gais gan gynnwys cyfiawnhad manwl o ran y costau a ragwelir ac asesiad o rinweddau'r amddiffyniad.

  - Ynghyd ag unrhyw gais a gyflwynir i'r Is-Bwyllgor Indemniadau, cyflwynir adroddiad gan y Swyddog Monitro (new swyddog a enwebwyd ganddi) a bydd y Swyddog Monitro (neu swyddog a enwebwyd ganddi) neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) (neu berson a enwebwyd ganddo) yn rhoddi cyngor yn bersonol i'r Is-Bwyllgor.

  - Bydd unrhyw indemniad a ganiateir yn cynnwys amodau addas a darpariaethau ar gyfer crafangu'n ôl yn unol â'r ddeddfwriaeth. Er enghraifft gweler **Atodiad 5**

  - Bydd yr ymgeiswyr yn cael hawl i fynychu'r cyfarfod i gyflwyno eu hachos ac ateb cwestiynau yn unig. Bydd raid iddynt adael y cyfarfod fel y gall yr Is-Bwyllgor drafod yr achos yn breifat.

- I grynhoi, cynigir bod bwriad deddfwriaethol clir i ddarparu indemniadau mewn amgylchiadau priodol a bod diogelwch digonol yn bodoli o fewn y system i amddiffyn "hyder y cyhoedd" **(2.(d))**

- Mae'n amlwg mai dim ond yr ymgeiswyr fedr gyflwyno eu ceisiadau'n deg ac yn ddigonol ac ateb cwestiynau a byddai mynnu ar gyfarwyddyd gan gynrychiolydd cyfreithiol yn rhoi'r Aelod dan anfantais ariannol oherwydd ni fyddai modd adfer y costau hynny dan y Polisi **(2.(f))**

8. **Dyddiad cyflwyno'r cais** :

9. **Dyddiad y mai angen Penderfyniad ar ei gyfer** :

* * * * * * *

10. **Penderfyniad y Pwyllgor Safonau** :

11. **Dyddiad y Penderfyniad** :

12. **Partïon i'w hysbysu** :

# PAPUR / ENCLOSURE 2

# CANIATÂD ARBENNIG A RODDWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU AR 12 MEDI 2013

Cytunodd Panel Caniatâd Arbennig y Pwyllgor Safonau yn unfrydol i'r isod:-

- Os bydd angen, rhoddir caniatâd trwy hyn i holl Aelodau cyfredol Cyngor Sir Ynys Môn fynychu gerbron yr Is-Bwyllgor Indemniadau (neu ei olynydd, os o gwbl) i gyflwyno unrhyw gais y maent yn dymuno i'r Is-Bwyllgor ei ystyried yn unol â'r Polisi a'r Weithdrefn ar gyfer Indemniadau.

- Rhoddir y caniatâd arbennig hwn dan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Rhoddi Caniatâd Arbennig) (Cymru) 2001 2.(d) a 2.(f).

- Bydd gan unrhyw aelod sy'n ymarfer yr hawl hon hawl i gyflwyno eu cais ac ateb cwestiynau, ond bydd unrhyw drafodaethau gan yr Is-Bwyllgor yn cael eu cynnal yn breifat.

- Ni fydd y caniatâd arbennig yn rhagfarnu hawl unrhyw Aelod i ofyn am i'w cais gael ei ystyried ar sail y papurau yn unig, neu eu hawl i gael eu cynrychioli gan ymgynghorydd cyfreithiol.

- Bydd y caniatâd hwn, os oes angen, hefyd yn ymestyn i unrhyw ystyriaeth gan y Pwyllgor Safonau yn unol â'u pwerau dan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 pryd y bydd gan unrhyw Aelod hawl i gyflwyno eu cais yn bersonol i'r Pwyllgor Safonau, cyn i'r Pwyllgor ymneilltuo i sesiwn breifat i ystyried ymarfer ei bwerau statudol.

- Ni fydd y caniatâd arbennig hwn ond yn berthnasol i aelodau cyfredol Cyngor Sir Ynys Môn a bydd yn parhau am weddill tymor y Cyngor hwn.

Mr Mike Wilson
Mr Islwyn Jones

12.09.2013

C-011897-LB/184085

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Cwyn yn erbyn Cynghorydd Sir a adroddwyd i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac ymchwiliwyd ganddo / *Complaint against a County Councillor reported to and investigated by the PSOW***

| Paragraff(au)<br>*Paragraph(s)* 18A & 18C | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>*Schedule 12A Local Government Act* 1972 |
|---|---|
| Y PRAWF – *THE TEST* | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / *There is a public interest in disclosure as:-* | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / *The public interest in not disclosing is:-* |
| Mae'r adroddiad yma yn ymwneud a mater sydd wedi cael ei ymchwilio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ran torri'r cod ymddygiad / *This report refers to matters investigated by the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) relating to breaches of the Code of Conduct.*<br><br>Pwrpas y Côd yw annog safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus, fel y disgrifir yn y Côd, a'i orfodi pan fo angen. Mae hwn yn fater budd cyhoeddus oherwydd bod cydymffurfiaeth gyda'r Côd yn cyflawni rôl sicrwydd bwysig o ran yr hyn a wneir gan Aelodau etholedig pan maent yn cynrychioli'r cyhoedd. Yn gryno, mae'r ffaith fod y Côd yn bodoli, i raddau helaeth, er budd y cyhoedd / *The purpose of the Code is to encourage standards of conduct in public life, as described in the Code, and, when necessary, to enforce them. This is a public interest issue as compliance with the Code plays an important assurance role in the actions of elected Members when representing the public. In short, the fact that the Code exists is largely for the benefit of the public.* | Mae paragraff 18A yn ymwneud â *"information which is subject to any obligations of confidentiality". / Schedule 18A relates to "information which is subject to any obligations of confidentiality".*<br><br>Mae'r Ombwdsmon wedi gorfodi dyletswydd cyfrinachedd mewn perthynas â'r Adroddiad. Mae hyn yn creu disgwyliad o gyfrinachedd ar ran y Cyngor. Mae'n gwestiwn hefyd a fyddai modd cynnal yr amod cyfrinachedd pe bai'n cael ei herio / *The PSOW has imposed a confidentiality obligation on his Report. This creates an expectation of confidentiality on the part of the Council, albeit it is questionable whether the confidentiality requirement could be maintained if challenged in relation to all or parts of the Report.*<br><br>Serch hynny, byddai'r Cyngor yn torri disgwyliad diamwys yr Ombwdsmon ynghylch cyfrinachedd pe bai'n datgelu yr Adroddiad, a gallai olygu fod y Cyngor yn agored i her gyfreithiol neu gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Waeth beth fyddai rhinweddau her o'r fath, mae gan hyn |

| | |
|---|---|
| | y potensial o gynnwys y Cyngor mewn anghydfodau diangen sy'n wastraff o adnoddau cyhoeddus / *Nevertheless, disclosure by the Council of any of the Report would now breach the PSOW's explicit expectation of confidentiality and might leave the Council open to legal challenge or complaint to the Information Commissioner. Regardless of the merits of such challenge this has the potential to involve the Council in needless disputes that waste public resources.*<br><br>Wedi gorfodi dyletswydd cyfrinachedd "hollgynhwysfawr", mater i'r Ombwdsmon fyddai cyfiawnhau ei safbwynt os cyflwynir her yn sgil diffyg datgelu, gan nad yw'r Cyngor yn gwybod beth yw ei resymeg na'i gyfiawnhad / *Having imposed a "blanket" confidentiality obligation it should be for the PSOW to justify his position in the event of challenge to non-disclosure, as the Council is not privy to his reasoning or justification.*<br><br>Mae paragraff 18C yn caniatau i'r Pwyllgor Safonau ystyried materion mewn preifat ac fe all hyn gynnwys clywed tystiolaeth ar faterion sy'n eithriedig o dan baragraffau eraill / *Paragraph 18C allows the Standards Committee to deliberate on matters in private and this could include the hearing of evidence on matters exempt under other paragraphs* |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Cwyn yn erbyn Cynghorydd Cymuned a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac yr ymchwiliwyd iddi ganddo / *Complaint against a Community Councillor reported to and investigated by the PSOW***

| Paragraff(au)<br>*Paragraph(s)* 18A & 18C | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>*Schedule 12A Local Government Act* 1972 |
|---|---|
| Y PRAWF – *THE TEST* | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / *There is a public interest in disclosure as:-* | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / *The public interest in not disclosing is:-* |
| Mae'r adroddiad yma yn ymwneud a mater sydd wedi cael ei ymchwilio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ran torri'r cod ymddygiad / *This report refers to matters investigated by the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) relating to breaches of the Code of Conduct.*<br><br>Pwrpas y Côd yw annog safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus, fel y disgrifir yn y Côd, a'i orfodi pan fo angen. Mae hwn yn fater budd cyhoeddus oherwydd bod cydymffurfiaeth gyda'r Côd yn cyflawni rôl sicrwydd bwysig o ran yr hyn a wneir gan Aelodau etholedig pan maent yn cynrychioli'r cyhoedd. Yn gryno, mae'r ffaith fod y Côd yn bodoli, i raddau helaeth, er budd y cyhoedd / *The purpose of the Code is to encourage standards of conduct in public life, as described in the Code, and, when necessary, to enforce them. This is a public interest issue as compliance with the Code plays an important assurance role in the actions of elected Members when representing the public. In short, the fact that the Code exists is largely for the benefit of the public.* | Mae paragraff 18A yn ymwneud â *"information which is subject to any obligations of confidentiality". / Schedule 18A relates to "information which is subject to any obligations of confidentiality".*<br><br>Mae'r Ombwdsmon wedi gorfodi dyletswydd cyfrinachedd mewn perthynas â'r Adroddiad. Mae hyn yn creu disgwyliad o gyfrinachedd ar ran y Cyngor. Mae'n gwestiwn hefyd a fyddai modd cynnal yr amod cyfrinachedd pe bai'n cael ei herio / *The PSOW has imposed a confidentiality obligation on his Report. This creates an expectation of confidentiality on the part of the Council, albeit it is questionable whether the confidentiality requirement could be maintained if challenged in relation to all or parts of the Report.*<br><br>Serch hynny, byddai'r Cyngor yn torri disgwyliad diamwys yr Ombwdsmon ynghylch cyfrinachedd pe bai'n datgelu yr Adroddiad, a gallai olygu fod y Cyngor yn agored i her gyfreithiol neu gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Waeth beth fyddai rhinweddau her o'r fath, mae gan hyn y potensial o gynnwys y Cyngor mewn anghydfodau diangen sy'n wastraff o |

CC-015794-LB/184136

| | |
|---|---|
| | adnoddau cyhoeddus / *Nevertheless, disclosure by the Council of any of the Report would now breach the PSOW's explicit expectation of confidentiality and might leave the Council open to legal challenge or complaint to the Information Commissioner. Regardless of the merits of such challenge this has the potential to involve the Council in needless disputes that waste public resources.*<br><br>Wedi gorfodi dyletswydd cyfrinachedd "hollgynhwysfawr", mater i'r Ombwdsmon fyddai cyfiawnhau ei safbwynt os cyflwynir her yn sgil diffyg datgelu, gan nad yw'r Cyngor yn gwybod beth yw ei resymeg na'i gyfiawnhad / *Having imposed a "blanket" confidentiality obligation it should be for the PSOW to justify his position in the event of challenge to non-disclosure, as the Council is not privy to his reasoning or justification.*<br><br>Mae paragraff 18C yn caniatau i'r Pwyllgor Safonau ystyried materion mewn preifat ac fe all hyn gynnwys clywed tystiolaeth ar faterion sy'n eithriedig o dan baragraffau eraill / *Paragraph 18C allows the Standards Committee to deliberate on matters in private and this could include the hearing of evidence on matters exempt under other paragraphs* |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

CC-015794-LB/184136

Document is Restricted

This page is intentionally left blank